# Dogfen ir Cyhoedd

Dr Gwynne Jones
Prif Weithredwr – Chief Executive
CYNGOR SIR YNYS MÔN
ISLE OF ANGLESEY COUNTY COUNCIL
Swyddfeydd y Cyngor - Council Offices
LLANGEFNI
Ynys Môn - Anglesey
LL77 7TW

Ffôn / tel (01248) 752500
Ffacs / fax (01248) 750839

| RHYBUDD O GYFARFOD | NOTICE OF MEETING |
|---|---|
| PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL | CORPORATE SCRUTINY COMMITTEE |
| DYDD LLUN, 6 CHWEFROR 2017 am 10.00 y bore | MONDAY, 6 FEBRUARY, 2017 at 10:00 a.m. |
| YSTAFELL BWYLLGOR 1, SWYDDFEYDD Y CYNGOR, LLANGEFNI | COMMITTEE ROOM 1, COUNCIL OFFICES, LLANGEFNI |
| Swyddog Pwyllgor — Ann Holmes 01248 752518 | Committee Officer |

**AELODAU / MEMBERS**

Cynghorwyr / Councillors:-

**ANNIBYNNOL GWREIDDIOL/ORIGINAL INDEPENDENT**

Jim Evans, Victor Hughes, G O Jones (Is-Gadeirydd/Vice-Chair), Raymond Jones

**PLAID CYMRU/THE PARTY OF WALES**

R.Meirion Jones (Cadeirydd/Chair), Lewis Davies, Ann Griffith a Llinos Medi Huws

**GRWP CHWYLDROAD/REVOLUTIONIST GROUP**

Peter S Rogers

**HEB YMUNO/UNAFFILIATED**

R Ll Jones

**AELODAU CYFETHOLEDIG (GYDA PHLEIDLAIS) PAN YN TRAFOD MATERION YN YMWNEUD AG ADDYSG / CO-OPTED MEMBERS (WITH A RIGHT TO VOTE) WHEN DEALING WITH EDUCATIONAL MATTERS**

Mr Keith Roberts (Yr Eglwys Babyddol Rufeinig / The Roman Catholic Church)
Anest G Frazer (Yr Eglwys yng Nghymru / The Church in Wales)

# R H A G L E N

**1 YMDDIHEURIADAU**

**2 DATGANIAD O DDIDDORDEB**

Derbyn unrhyw ddatganiad o ddiddordeb gan unrhyw Aelod neu Swyddog parthed unrhyw eitem o fusnes.

**3 DIWEDDARIAD Y CADEIRYDD A'R IS-GADEIRYDD**

**4 COFNODION CYFARFOD 21 TACHWEDD, 2016** (Tudalennau 1 - 10)

Cyflwyno cofnodion cyfarfod blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd, 2016.

**5 CYNRYCHIOLAETH AR Y BWRDD DIOGELU CORFFORAETHOL** (Tudalennau 11 - 14)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini Dros Dro.

**6 GOSOD CYLLIDEB 2017/18 (REFENIW A CHYFALAF)** (Tudalennau 15 - 124)

Cyflwyno adroddiad y Rheolwr Sgriwtini Dros Dro yn ymgorffori'r canlynol –

- Adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog 151 ar Gyllideb Refeniw y Cyngor am 2017/18 (Atodiad 1)

- Adroddiad y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog 151 ar Gyllideb Gyfalaf y Cyngor am 2017/18 (Atodiad 2)

- Adroddiad y Rheolwr Cynllunio Busnes, Perfformiad a Rhaglenni ar y negeseuon o'r Ymgynghoriad Cyhoeddus ar y Gyllideb am 2017/18 (Atodiad 3)

- Adroddiad Swyddog Datblygu Llais Ni ar ymateb pobl ifanc i gynigion arbedion cyllideb 2017/18 (Atodiad 4).

# PWYLLGOR SGRIWTINI CORFFORAETHOL

## Cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 21 Tachwedd, 2016

**PRESENNOL:**

Y Cynghorydd R. Meirion Jones (Cadeirydd)
Y Cynghorydd Gwilym O. Jones (Is-Gadeirydd)

Y Cynghorwyr Jim Evans, Ann Griffith, Victor Hughes, Llinos Medi Huws, R. Llewelyn Jones, Peter Rogers

Aelod Cyfetholedig: Mr Keith Roberts

**WRTH LAW:**

Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes)
Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, y Gymuned a Gwella Gwasanaethau)
Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151
Pennaeth Trawsnewid (ar gyfer eitem 4)
Rheolwr Rhaglenni, Cynllunio Busnes a Pherfformiad (GM) (ar gyfer eitem 4)
Pennaeth Gwasanaethau Oedolion (ar gyfer eitemau 8,9 a 10)
Pennaeth Dysgu (ar gyfer eitem 7)
Rheolwr Gwasanaethau Llyfrgell (RF) (ar gyfer eitem 7)
Uwch Swyddog Cyllid (DJ) (ar gyfer eitemau 8 a 9)
Rheolwr Gweithrediadau Adnoddau Dynol (AR) (ar gyfer eitem 4)
Rheolwr Sgriwtini Dro (AGD)
Swyddog Pwyllgor (ATH)

**YMDDIHEURIADAU:** Y Cynghorydd Raymond Jones

**HEFYD YN BRESENNOL:** Y Cynghorydd Ieuan Williams (Arweinydd), y Cynghorydd H. Eifion Jones (Aelod Portffolio Cyllid), y Cynghorydd Aled Morris Jones (Aelod Portffolio Tai a Gwasanaethau Cymdeithasol), y Cynghorydd Alwyn Rowlands (Aelod Portffolio Trawsnewid Perfformiad ac Adnoddau Dynol), y Cynghorydd Kenneth Hughes (Aelod Portffolio Addysg), Pennaeth Gwasanaethau Democrataidd, Rheolwr Gwasanaethau Cyfrifeg

---

**1 DATGANIADAU O DDIDDORDEB**

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau o ddiddordeb.

**2 DIWEDDARIAD GAN Y CADEIRYDD A'R IS-GADEIRYDD**

Hysbysodd y Cadeirydd y Pwyllgor nad oedd ganddo unrhyw ddatblygiadau i adrodd yn eu cylch heblaw am nodi ei fod wedi mynychu cyfarfodydd o'r Pwyllgor Gwaith ym mis Medi a mis Hydref yn benodol i gyfleu safbwyntiau'r Pwyllgor Sgriwtini mewn perthynas â'r Gyllideb a Monitro Perfformiad ar gyfer Chwarter 1, ynghyd â chanfyddiadau'r Panelau Canlyniad Sgriwtini ar Ddiogelu Corfforaethol a Gosod Tai Gweigion. Nodwyd hefyd fod yr Is-Gadeirydd wedi bod yn

DRAFT

bresennol yn y cyfarfod o'r Pwyllgor Gwaith ar 7 Tachwedd i adrodd ar yr ymateb Sgriwtini i'r cynigion ar gyfer Cyllideb ddrafft gychwynnol 2017/18.

**3 COFNODION CYFARFOD 12 MEDI, 2016**

Cyflwynwyd cofnodion cyfarfodydd blaenorol y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol a gynhaliwyd ar 12 Medi ac 19 Hydref, 2016 a chadarnhawyd eu bod yn gywir.

**Yn codi o gofnodion cyfarfod 12 Medi, 2016 -**

- Mewn perthynas â'r cais a wnaed i egluro swyddogaethau a chyfrifoldebau'r cynrychiolwyr Sgriwtini mewn perthynas â'r Rhaglen Drawsnewid a Byrddau Prosiect ac i gael eglurhad ar y y broses ar gyfer rhoi adborth ohonynt, cadarnhaodd y Cadeirydd fod ffordd ymlaen wedi ei chytuno ers mis Medi ac yr adroddir ar hynny i'r Pwyllgor maes o law.
- Dywedodd y Cadeirydd, a chadarnhaodd y Rheolwr Sgriwtini Dros Dro, fod y Prif Weithredwr wedi cadarnhau y bydd adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar ei waith mewn perthynas ag absenoldeb salwch ar gael i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol pan fydd wedi ei gyhoeddi, a chyn iddo gael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith, a bod angen neilltuo amser yn y Rhaglen Waith i'r Pwyllgor roi sylw iddo.
- O ran yr adroddiad ar berfformiad y Gwasanaethau Plant yr oedd y Pwyllgor wedi penderfynu'n wreiddiol y dylid ei drefnu ar gyfer y cyfarfod hwn, dywedodd y Cadeirydd fod adroddiad cynhwysfawr ar y Gwasanaethau Plant y sgil yr arolygiad gan AGGCC bellach wedi ei ymgorffori o fewn y rhaglen ar gyfer y Pwyllgor a gynhelir ar 13 Mawrth, 2017.

**CAM GWEITHREDU YN CODI: Y Rheolwr Sgriwtini Dros Dro, mewn ymgynghoriad â'r Cadeirydd, i neilltuo lle priodol yn Rhaglen Waith y Pwyllgor ar gyfer ystyried adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru ar salwch.**

**4 MONITRO PERFFORMIAD: CERDYN SGORIO CORFFORAETHOL, CHWARTER 2, 2016/17**

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Trawsnewid a oedd yn ymgorffori'r Cerdyn Sgorio Corfforaethol ac yn nodi sefyllfa'r Cyngor yn erbyn ei amcanion gweithredol fel y cawsant eu hamlinellu a'u cytuno rhwng yr Uwch Dîm Arweinyddiaeth / y Pwyllgor Gwaith a'r Pwyllgor Gwaith Cysgodol ar ddiwedd Chwarter 2, 2016/17.

Yn dilyn y drafodaeth am y Rhaglen Drawsnewid a'r Byrddau Prosiect yn gynharach yn yr haf a'r ffaith bod y Pwyllgor Sgriwtini wedi nodi ei fod yn ansicr ynghylch ei swyddogaethau a'i gyfrifoldebau fel y cyfeirir atynt o dan eitem 3 uchod, dywedodd y Pennaeth Trawsnewid fod y Tîm Trawsnewid wedi paratoi dwy lifsiart esboniadol, sef un sy'n ymwneud â'r Bwrdd Rhaglen Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes a'r llall yn ymwneud â'r Bwrdd Rhaglen Partneriaethau, y Gymuned a Gwella Gwasanaethau. Mae'r siartiau'n nodi pwy sy'n gyfrifol am beth yn ogystal â dangos y cyswllt rhwng Sgriwtini a'r Byrddau Rhaglen.

Cafwyd adroddiad gan yr Aelod Portffolio ar gyfer Trawsnewid Perfformiad ac Adnoddau Dynol ar berfformiad mewn perthynas â Rheoli Pobl a chyfraddau salwch y Cyngor yn benodol. Dywedodd yr Aelod Portffolio bod cyfraddau salwch ar ddiwedd Chwarter 2 yn dangos gwelliant bychan (4.89 diwrnod o salwch am bob gweithiwr amser llawn cyfatebol) o gymharu â'r llynedd (5.33 diwrnod). Nid oedd y ffigurau a nodwyd yn yr ystadegau absenoldeb salwch eleni yn cynnwys diwrnodau i ffwrdd yn sâl oherwydd profedigaeth (414 diwrnod) a oedd, o'u cynnwys yn y cyfrifiad, yn dod â'r canlyniad i 5.02 diwrnod am bob gweithiwr amser llawn cyfatebol, sy'n dal i fod ychydig yn well. Felly, er bod y data yn dangos bod y duedd yn gwella, mae'r cynnydd yn araf ac, oherwydd maint y Cyngor, bydd absenoldeb oherwydd salwch yn cyrraedd pwynt yn y dyfodol lle na fydd y sefyllfa'n gwella a bydd hynny'n golygu y bydd yn anodd gwneud cynnydd y tu hwnt i'r pwynt hwnnw. Mae'r Panelau Her Salwch sy'n monitro sut y cynhelir y Cyfarfodydd Adolygu Presenoldeb yn cael effaith, ac mae'r Uwch Dîm Arweinyddiaeth yn parhau i herio perfformiad yn gadarn. Er bod perfformiad salwch yr ysgolion yn parhau i fod yn bryder, maent wedi cael canllawiau ar sut i gymryd camau i wella'r sefyllfa. Mae llawer iawn o waith yn mynd rhagddo a pharheir i herio'r Penaethiaid Gwasanaeth i wella perfformiad eu gwasanaethau o ran

DRAFT

absenoldeb salwch cyn y ddau chwarter sy'n debygol o fod y rhai anoddaf mewn perthynas â chyfraddau salwch yn y Cyngor.

Rhoddodd y Pwyllgor sylw i'r wybodaeth yn yr adroddiad a chododd y materion canlynol -

- O ran Rheoli Pobl, 'roedd y Pwyllgor o'r farn ei bod yn gynamserol i fod yn siarad am gyrraedd pwynt lle byddai'n debygol y byddai llai o gynnydd yn cael ei wneud o ran gostwng cyfraddau absenoldeb salwch. 'Roedd y Pwyllgor o'r farn bod lle i wella'r cyfraddau ac y gallai adroddiad Swyddfa Archwilio Cymru, pan gaiff ei gyhoeddi, gyflwyno syniadau ac awgrymiadau ychwanegol ar gyfer gwella'r sefyllfa. Cydnabuwyd y pwynt hwn gan yr Aelod Portffolio ar gyfer Trawsnewid Perfformiad a rhoddodd sicrwydd i'r Pwyllgor nad oes bwriad o gwbl i lacio'r pwysau i fynd i'r afael ag absenoldeb salwch. Fodd bynnag, mewn rhai meysydd gwasanaeth, yn enwedig y rheini lle mae'r timau yn fach, bydd absenoldeb hyd yn oed dim ond un aelod o staff yn cael effaith sylweddol ar y data absenoldeb salwch a bydd y sgôp ar gyfer gwella felly'n gyfyngedig.
- Nododd y Pwyllgor, er gwaethaf y ffaith y bu gostyngiad cyffredinol yn y niferoedd sy'n gweithio i'r Cyngor, nid oes gostyngiad cyfatebol yn y cyfraddau absenoldeb salwch fel y gellid disgwyl. Holodd y Pwyllgor felly a oedd y data'n adlewyrchiad gwirioneddol o'r sefyllfa o fewn y Cyngor. Cadarnhaodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes) fod y ffigurau a gyflwynwyd mor gywir ag y gallant fod a'u bod wedi eu cefnogi gan ddealltwriaeth lawer gwell o natur yr absenoldebau salwch o fewn y gwahanol wasanaethau a thimau yn y Cyngor.
- Nododd a chefnogodd y Pwyllgor y symudiad i newid y sail ar gyfer cyfrifo cyfraddau salwch, a hynny er mwyn gwahaniaethu rhwng mathau o absenoldebau salwch, e.e. tymor hir, tymor byr, profedigaeth, absenoldeb tosturiol etc fel mesur a fyddai'n helpu'r Awdurdod i gael gwell gafael ar rai o'r materion sylfaenol sydd wrth wraidd absenoldeb salwch.
- Gyda golwg ar Reoli Perfformiad, er yn ymwybodol o'r camau lliniaru a gymerir, nododd y Pwyllgor fod perfformiad yn erbyn Dangosydd Ll / 18b (canran y gofalwyr am oedolion a oedd wedi gofyn am asesiad neu adolygiad ac a oedd wedi cael asesiad neu adolygiad yn ystod y flwyddyn) wedi bod yn is na'r targed am gyfnod sylweddol er bod y duedd yn awr yn gwella eto. Nododd y Pwyllgor ymhellach y gallai fod yn amserol yn awr i edrych eto ar yr awgrym i sefydlu panel i roi sylw manylach i'r mater hwn a nododd ymhellach y dylid asesu perfformiad hefyd o ran ymateb i anghenion gwirioneddol ac nid yn unig o ran cydymffurfio â'r gofynion deddfwriaethol.
- Nododd y Pwyllgor fod Dangosydd (05) mewn perthynas â Rheolaeth Ariannol (cost staff asiantaeth) yn dal i ddangos yn GOCH a bod y perfformiad cryn dipyn yn is na'r targed. Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes) bod Gweithwyr Cymdeithasol yn y Gwasanaethau Plant yn ffurfio elfen sylweddol o'r staff asiantaeth a bod eu hangen ar hyn o bryd er mwyn sicrhau parhad gwasanaethau. Fodd bynnag, bydd angen gwneud newidiadau i sut mae'r gwaith hwn yn cael ei drefnu mewn ymateb i ofynion y Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) newydd a ddylai ostwng nifer y staff asiantaeth. Mae'r sefyllfa recriwtio hefyd wedi gwella dros yr haf gyda gweithwyr cymdeithasol profiadol a rhai sydd newydd gymhwyso wedi cael eu recriwtio. Bydd y rhai sydd newydd gymhwyso yn graddio ac yn gwbl gymwys i ymarfer fel gweithwyr cymdeithasol ym mis Rhagfyr gyda staff asiantaeth yn llenwi'r bwlch yn y cyfamser.
- Nododd y Pwyllgor bod y Dangosfwrdd wedi ei gynnwys fel atodiad i'r cerdyn sgorio a oedd yn rhoi cipolwg o'r cynnydd ar raglenni a phrosiectau trawsnewid ac awgrymodd y gellid bod wedi ychwanegu ychydig eiriau o eglurhad gyda'r lliwiau CAG. Dywedodd y Pennaeth Trawsnewid mai'r nod oedd osgoi mynd i fanylion ar y rhaglenni unigol ac mai'r bwriad yw y bydd y cynrychiolydd sgriwtini ar bob bwrdd rhaglen yn rhoi gwybod i'r Pwyllgor am y gwaith sy'n mynd rhagddo fel y gall y Pwyllgor wedyn benderfynu a oes angen iddo alw swyddogion prosiect i mewn i roi cyfrif am unrhyw danberfformio e.e. llithriad.
- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar statws Coch y Rhaglen Trawsnewid Tai Fforddiadwy. Dywedodd Arweinydd y Cyngor bod y rhaglen hon wedi cael ei rhoi o'r neilltu oherwydd datblygiadau tai eraill gan gynnwys y ffaith bod yr Awdurdod wedi gadael system

gymhorthdal y Cyfrif Refeniw Tai. Awgrymodd y Pwyllgor y dylid tynnu'r rhaglen oddi ar y rhestr os nad oedd ei hangen mwyach.

- Cyfeiriodd y Pwyllgor at y Rhaglenni Trawsnewid a nododd y byddai'n ddefnyddiol i Aelodau gael mwy o wybodaeth am gynnwys y rhain e.e. y Rhaglen Drawsnewid Ynys Ynni sy'n brosiect ar raddfa fawr, fel y gall y Pwyllgor benderfynu ar ba lefel y dylid eu sgriwtineiddio. Awgrymodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes) y dylid cynnwys y rhain fel pwnc briffio ar gyfer yr holl Aelodau yn y Flwyddyn Newydd fel y gall y Pwyllgor wedyn asesu pa agweddau ar y rhaglenni, os o gwbl, y byddai'n dymuno canolbwyntio arnynt i ddibenion sgriwtini.

**Penderfynwyd -**

- **Derbyn yr adroddiad a nodi ei gynnwys.**
- **Derbyn a nodi'r mesurau lliniaru a amlinellwyd yng nghorff yr adroddiad ac o dan baragraff 1.3 yn benodol.**

**CAMAU YN CODI:**

- **Y Rheolwr Sgriwtini i drefnu cylchredeg llifsiartiau'r Rhaglen Drawsnewid i Aelodau'r Pwyllgor maes o law.**
- **Rhaglenni Trawsnewid i fod yn bwnc ar gyfer briffio ar gyfer yr holl Aelodau yn y Flwyddyn Newydd.**

**5 MONITRO ARIANNOL: CYLLIDEB REFENIW, CHWARTER 2, 2016/17**

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 yn nodi perfformiad ariannol gwasanaethau'r Cyngor ar gyfer ail chwarter 2016/17 ynghyd â'r sefyllfa a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn.

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid nad oedd y sefyllfa yn wahanol iawn i'r sefyllfa ar ddiwedd Chwarter 1. O ran sefyllfa ariannol 2016/17, gan gynnwys Cyllid Corfforaethol a Chronfa'r Dreth Gyngor, rhagwelir gorwariant o £660k, sef 0.53% o gyllideb net y Cyngor ar gyfer 2016/17. 'Roedd manylion am berfformiad ariannol y gwasanaethau unigol yn y cyfnod, ynghyd â'r canlyniadau a ragwelir ar gyfer pob un, i'w gweld yn Atodiad B i'r adroddiad. Dywedodd yr Aelod Portffolio mai un maes sy'n sefyll allan yw'r Gwasanaethau Plant a bod y gwariant arnynt £299k yn uwch na'r gyllideb a broffiliwyd ar hyn o bryd ac y rhagwelir y bydd gorwariant o £683k (9.18%) ar gyfer y flwyddyn ariannol yn ei chyfanrwydd. Mae'r gorwariant i'w briodoli i raddau helaeth i gynnydd yn nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal a chynnydd hefyd yng nghostau lleoliadau i gwrdd ag anghenion cymhleth plant sy'n derbyn gofal gan yr Awdurdod. Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi cymryd camau lliniaru er mwyn rheoli gwariant yn y maes. Mae'r camau hyn yn cynnwys mabwysiadu dull ymyrraeth gynnar ataliol o weithredu mewn perthynas â sicrhau lles plant, a hynny trwy greu Tîm Trothwy Gofal a buddsoddi arian ychwanegol yn y Gwasanaethau Plant eleni ac yn ddwy flynedd ddilynol fel y disgrifir ym mharagraff 3.3.2 o'r adroddiad. Mae Cronfeydd wrth gefn yr Awdurdod yn cynnig opsiwn y gellid syrthio'n ôl arno ond y nod yw ceisio osgoi defnyddio cronfeydd wrth gefn i gydbwyso'r gyllideb. Mae profiad y blynyddoedd diwethaf wedi dangos bod sefyllfa ariannol y rhan fwyaf o wasanaethau yn tueddu i gywiro ei hun erbyn diwedd y flwyddyn, ond mae'r Gwasanaethau Plant yn eithriad lle bu ymyrraeth i reoli'r gyllideb.

Rhoddodd y Pwyllgor sylw i'r adroddiad fel y'i cyflwynwyd a gwnaed y pwyntiau canlynol:

- Ceisiodd y Pwyllgor eglurhad ynghylch a oes Cynllun B i fynd i'r afael â'r sefyllfa os bydd y gyllideb wedi gorwario erbyn diwedd y flwyddyn ariannol. Cadarnhaodd yr Aelod Portffolio mai'r opsiwn arall sydd ar gael yw troi at gronfeydd wrth gefn y Cyngor fel "arian diwrnod glawog". Fodd bynnag, mae profiad y blynyddoedd blaenorol wedi dangos nad oes fawr o angen gwneud hynny.
- Nododd y Pwyllgor y tanwariant o £170k a ragwelir ar ddiwedd y flwyddyn mewn perthynas â Rheoleiddio (Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd) a gofynnodd am eglurhad nad oedd hyn ar



DRAFT

draul capasiti o fewn yr Adran Rheoleiddio. Ceisiodd y Pwyllgor sicrwydd bod gan y swyddogaeth gynllunio ddigon o adnoddau, yn enwedig o ran materion gorfodaeth ac AHNE. Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, y Gymuned a Gwella Gwasanaethau) y byddai'n codi'r mater gyda'r Pennaeth Rheoleiddio ac Economaidd gyda golwg ar gymharu'r gymhareb staffio yn Adran Reoleiddio Cyngor Sir Ynys Môn gyda’r gymhareb mewn awdurdodau eraill.

- Nododd y Pwyllgor, er yr ystytrir bod y cronfeydd wrth gefn yn ddigonol i gwrdd â lefel y gorwariant a ddisgrifir ym mharagraff 7.1 o'r adroddiad, os bydd raid i'r Cyngor hefyd ariannu costau hawliadau tâl cyfartal o'i gronfeydd wrth gefn cyffredinol, yna byddai'r lefel yn disgyn yn agos i’r isafswm a bennwyd, sef £5m . Gofynnodd y Pwyllgor a yw'r Cyngor yn debygol o gael ei hun yn y sefyllfa honno. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 bod y Cyngor mewn sefyllfa o orwariant ar ddiwedd Chwarter 2 ac y gall misoedd y gaeaf gael effaith ar wariant yn y gwasanaethau ac mae’r sefyllfa felly’n debygol o newid. Mae'r broses o fonitro'r gyllideb wedi ei haddasu eleni fel bod y rhagamcanion yn cynnwys Cyllid Corfforaethol a'r Gronfa Dreth Gyngor sydd i fod i helpu o ran rhagweld y sefyllfa gyffredinol yn gywirach. Fodd bynnag, mae pethau eraill yn digwydd yn ystod y cwrs y flwyddyn ac yn y broses o gau'r cyfrifon, ac mae pethau eraill a all newid y mae’n rhaid eu hystyried, e.e. llithriad ar brosiectau cyfalaf sy'n golygu bod llai o arian yn cael ei gymryd ar fenthyg sy’n golygu, yn ei dro, fod llai yn cael ei wario ar ariannu'r rhaglen gyfalaf a bod cronfeydd wrth gefn ddim yn cael eu gwario efallai. Yn ogystal, mae yna ymgyrch i wella’r cyfraddau casglu’r Dreth Gyngor ac mae prosiect yn mynd rhagddo i adolygu'r Disgownt Person Sengl. Y neges sy'n cael ei chyfleu i Wasanaethau yw y dylent barhau i fod yn edrych am arbedion cadw tŷ. Ar hyn o bryd mae gan y Cyngor tua £ 7.4 miliwn mewn cronfeydd wrth gefn ac efallai y bydd rhaid defnyddio rhywfaint o’r arian hwnnw i gwrdd â’r hawliadau Tâl Cyfartal sydd ar ôl os nad yw Llywodraeth Cymru yn cymeradwyo cyfarwyddeb gyfalafu ar gyfer tâl cyfartal a fyddai'n caniatáu i'r Awdurdod gyfalafu’r costau hynny. Os rhoddir y gyfarwyddeb, yna ni fydd yn rhaid i'r Cyngor ddefnyddio’r cronfeydd wrth gefn cyffredinol hynny a byddant ar gael i helpu gyda gwariant arall os oes angen. Mae Cyngor Sir Ynys Môn mewn sefyllfa iach o gymharu â llawer o awdurdodau gan ei fod wedi ymrwymo i neilltuo arian wrth gefn ers nifer o flynyddoedd. Yn y tymor hwy bydd yn anos i wasanaethau weithredu o fewn cyllidebau sy'n lleihau ac, o’r herwydd, mae cael cronfeydd wrth gefn yn bwysig. Mae'r sefyllfa yn cael ei monitro'n rheolaidd a’r cyngor yw i ymatal rhag defnyddio cronfeydd wrth gefn ar gyfer buddsoddiad pellach ar hyn o bryd o leiaf tan ddiwedd y gaeaf.
- Nododd y Pwyllgor na fydd modd cyflawni £511k (16.70%) o'r targedau arbedion yn 2016/17 ac nad yw £291k o'r rhain wedi cael eu cynnwys yn y canlyniad a ragwelir oherwydd diffyg gwybodaeth i asesu pa mor gyraeddadwy ydynt, ac os na fydd modd eu gwireddu, byddant yn golygu gorwariant ychwanegol o £291k yn y flwyddyn. Mynegodd y Pwyllgor ei bryder y bydd arbedion a gynlluniwyd ond na chawsant eu cyflawni yn 2016/17 yn trosglwyddo drosodd i 2017/18 ac yn effeithio ar y man cychwyn ar gyfer cyllideb 2017/18 yn ogystal â gwaethygu'r sefyllfa o ran yr arbedion y byddai’n rhaid eu gwneud yn y flwyddyn honno.
- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar y £2m o hawliadau Tâl Cyfartal y bydd raid talu amdanynt o ddeall bod cronfa wedi ei neilltuo’n benodol i gwrdd â chostau Tâl Cyfartal. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a’r Swyddog Adran 151 fod y gronfa wedi ei sefydlu i gwrdd ag elfennau eraill y Cytundeb Statws Sengl. Er bod rhai hawliadau Tâl Cyfartal wedi cael eu talu, mae ail gyfres o hawliadau sy'n werth tua £2 filiwn ac mae’r Awdurdod yn ceisio cyfarwyddyd gan Lywodraeth Cymru o ran cyfalafu’r costau. Cadarnhaodd yr Aelod Portffolio Cyllid bod cyllid wedi ei roi o'r neilltu fel cronfa wrth gefn ar gyfer y broses Arfarnu Swyddi, ond nad oedd wedi bod yn ddigonol.
- Nododd y Pwyllgor y pwysau parhaus ar gyllideb y Gwasanaethau Plant a phwysleisiodd bod angen mynd i'r afael â’r sefyllfa mewn ffyrdd heblaw drwy ymyrraeth ariannol, e.e. drwy newid dulliau gweithredu a diwylliant. Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Llywodraethiant a Thrawsnewid Prosesau Busnes) y bu cynnydd sylweddol yn nifer y plant sy'n derbyn gofal yn ystod y ddwy flynedd ddiwethaf a bod yr Awdurdod yn gweithio'n galed gyda phlant a'u teuluoedd i roi cefnogaeth. Mae Tîm Trothwy Gofal yn cael ei sefydlu ac mae rhai elfennau o'r Tîm o Amgylch y Teulu yn cael eu trosglwyddo o’r Gwasanaeth Addysg i'r Gwasanaethau Plant. Bydd hyn yn cryfhau'r ymyrraeth gynnar a gwaith ataliol gyda theuluoedd sy'n elfen

statudol ond bydd hefyd yn cynorthwyo teuluoedd a thrwy hynny'n galluogi plant i aros yn eu cartrefi. Er na fydd y cynnydd yn nifer y Plant sy'n Derbyn Gofal yn cael ei wrthdroi dros nos, mae'r Awdurdod yn ceisio gostwng y niferoedd yn ddiogel a thros amser.

**Penderfynwyd nodi'r sefyllfa o ran y perfformiad ariannol hyd yma fel y nodwyd yn yr adroddiad ysgrifenedig.**

**DIM CAMAU PELLACH YN CODI**

**6 MONITRO'R GYLLIDEB: CHWARTER 2, CYLLIDEB GYFALAF 2016/17**

Cyflwynwyd i'w ystyried gan y Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Adnoddau a'r Swyddog Adran 151 yn nodi perfformiad ariannol y gyllideb gyfalaf ar gyfer ail chwarter blwyddyn ariannol 2016/17

Dywedodd yr Aelod Portffolio Cyllid, er bod y gwariant a broffiliwyd hyd at ddiwedd yr ail chwarter ar gyfer y Gronfa Gyffredinol yn 95%, dim ond 30% o'r gyllideb flynyddol a wariwyd hyd yma. Fodd bynnag, rhaid pwysleisio bod nifer o'r cynlluniau cyfalaf yn gwario yn chwarter olaf y flwyddyn ariannol ac erbyn diwedd y flwyddyn ariannol, disgwylir y bydd 95% o'r gyllideb wedi ei wario.

Nododd y Pwyllgor mewn perthynas â'r Grant Lleoedd Llewyrchus Llawn Addewid (LlLlLlA) mai dim ond £0.380m o'r grant oedd wedi ei wario ar ddiwedd yr ail chwarter. Er y disgwylir y bydd y grant wedi ei wario'n llawn erbyn diwedd y flwyddyn, nododd y Pwyllgor, o ystyried lefel y gwariant y byddai ei angen yn ail hanner y flwyddyn ariannol, fod perygl na fyddir yn cyrraedd y lefel gwariant gofynnol, ac y collir y grant. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 fod y Grant yn cwmpasu tri phrif brosiect ac eglurodd eu cymhwyster ar gyfer derbyn cyllid a'r cam yr oedd pob un ohonynt wedi ei gyrraedd. Cadarnhaodd y Swyddog bod pob prosiect yn cael ei fonitro'n ofalus a bod cynlluniau wrth gefn ar gyfer pob un. Dywedodd y Prif Weithredwr Cynorthwyol (Partneriaethau, y Gymuned a Gwella Gwasanaethau) ei bod yn hyderus y byddai'r grant yn cael ei wario'n llawn erbyn diwedd y flwyddyn.

Nododd y Pwyllgor hefyd y dylid bod yn derbyn dychweliadau ariannol ar y buddsoddiad a wnaed yn y portffolio mân-ddaliadau erbyn hyn. Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 y bydd yr incwm rhent o'r stad mân-ddaliadau yn 2017/18 yn fwy na £ 500k ac y bydd £250k ohono'n cael ei neilltuo ar gyfer gwaith atgyweirio a chynnal a chadw bob blwyddyn, gyda'r gwarged yn cael ei ddefnyddio i helpu gyda phrif gyllideb y Cyngor.

**Penderfynwyd nodi'r gwariant a'r derbyniadau yn erbyn y gyllideb gyfalaf.**

**DIM GWEITHREDU PELLACH**

**7 LLYFRGELLOEDD YN GWNEUD GWAHANIAETH: Y PUMED FFRAMWAITH ANSAWDD O SAFONAU LLYFRGELLOEDD CYHOEDDUS CYMRU AR GYFER 2014-17, ADRODDIAD BLYNYDDOL YNYS MÔN AM 2015/16**

Cyflwynwyd i sylw'r Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Dysgu a oedd yn ymgorffori Adroddiad Blynyddol Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2015/16 ynghyd ag asesiad Llywodraeth Cymru (MALD) o Adroddiad Blynyddol y Gwasanaeth Llyfrgelloedd gyfer 2015/16.

Adroddodd y Rheolwr Gwasanaethau Llyfrgell fod yr Adroddiad Blynyddol (Atodiad 2) yn cynnwys crynodeb o berfformiad y Gwasanaeth Llyfrgell a Gwybodaeth yn ystod 2015/16 a'i fod wedi ei gyflwyno i MALD ar ffurf ddrafft. Mae'r asesiad yn dangos bod y gwasanaeth yn perfformio'n dda a'i fod wedi cyfarfod 17 o'r hawliau craidd yn llawn ac wedi cwrdd yn rhannol â'r un a oedd ar ôl fel yr ymhelaethodd y Swyddog. O'r 7 dangosydd ansawdd sydd â thargedau, llwyddodd Ynys Môn i gyflawni 4 ohonynt yn llawn a 3 yn rhannol, sydd yn debyg i berfformiad 2014/15. Fodd bynnag, mae MALD yn mynegi pryder am rai meysydd, yn enwedig o ran y safon sy'n ymwneud â chyfanswm nifer y staff sydd ar y sefydliad a nifer y staff proffesiynol fesul pen o'r boblogaeth sydd, fel y mae MALD yn nodi, yn safonau sydd gryn bellter o fod wedi eu cyflawni. Dywedodd y

Swyddog fod perfformiad yn gyffredinol debyg i berfformiad y llynedd, gyda rhai gwelliannau amlwg o ran pa mor gyflym y gellir cyflawni'r hyn y gofynnir amdano a chwrdd â hawliau craidd. Mae'r mater staffio isel yn parhau ac mae'n cael ei amlygu gan MALD.

Gofynnodd yr Aelodau am eglurhad ar rai o'r dangosyddion a'r hyn a ddisgwylir ganddynt. Nododd y Pwyllgor fod perfformiad y Gwasanaeth Llyfrgell yn dda ar y cyfan yn enwedig o ystyried y cyd-destun o orfod cwrdd a chynnal y safonau gydag adnoddau sy'n lleihau. Mynegodd y Pwyllgor bryder ynghylch y sefyllfa staffio sy'n parhau, yn enwedig o ran staff proffesiynol, a cheisiodd sicrwydd ynghylch cadernid y gwasanaeth o ran ei allu i barhau i fodloni'r disgwyliadau arno. Holodd y Pwyllgor a oedd modd recriwtio i ddiogelu rhag dirywiad yn safon y gwasanaeth yn y dyfodol. Dywedodd y Pennaeth Dysgu nad oedd yr Awdurdod mewn sefyllfa i ystyried ychwanegu at ei gyflenwad o staff proffesiynol a bod y Gyfadran Dysgu Gydol Oes o dan bwysau i fod mor effeithiol ac effeithlon ag y bo modd, a bod hynny'r un mor berthnasol i'r Gwasanaeth Llyfrgell ag ydyw i wasanaethau eraill o fewn y gyfadran. Mae'r Gwasanaeth Llyfrgelloedd wedi cynnig rhai arbedion, a hynny o fewn cyd-destun o wasanaeth sydd eisoes wedi ei gwtogi. Y gobaith yw y bydd yr ailfodelu arfaethedig o gymorth i daclo a goresgyn rhai o'r problemau sy'n wynebu'r gwasanaeth.

**Penderfynwyd -**

- **Derbyn Adroddiad Blynyddol Safonau Llyfrgelloedd Cyhoeddus Cymru ar gyfer 2015/16.**
- **Nodi asesiad Llywodraeth Cymru (MALD) o Adroddiad Blynyddol 2015/16 y Gwasanaeth Llyfrgell a materion sy'n codi.**

**DIM GWEITHREDU PELLACH**

**8 NEWIDIADAU I'R POLISI CODI TÂL - GWASANAETHAU GOFAL CARTREF**

Cyflwynwyd er ystyriaeth a sylwadau'r Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion yn nodi'r opsiynau ar gyfer gweithredu newidiadau i'r polisi codi tâl am wasanaethau gofal cartref. Mae'r adroddiad yn amlinellu'r cefndir, y sefyllfa bresennol, yn ogystal â'r sail gyfreithiol ar gyfer codi tâl am ofal.

Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion gyflwyniad gweledol gan amlygu'r ystyriaethau allweddol a'r rhesymeg dros newid fel a ganlyn:

- Bod pedwar opsiwn ar gael (yn unol â pharagraff 2 o'r adroddiad ysgrifenedig) y bwriedir ymgynghori arnynt rhwng mis Tachwedd, 2016 ac Ionawr 2017.
- Mae gan Ynys Môn bolisi hanesyddol a hynod o godi £15 yr wythnos ar unigolion sy'n derbyn budd-daliadau penodol. Mae hyn yn is na'r gyfradd a nodir yn y canllawiau.
- Bod yr egwyddorion ar gyfer newid yn seiliedig ar gydymffurfio â chanllawiau statudol; yr angen i sefydlu strwythur codi tâl tecach a mwy cynaliadwy fel bod unigolion yn talu tâl priodol, a'r angen i'r Awdurdod adennill y gost o ddarparu gwasanaethau yn unol â'r Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant.
- Bod gofal cartref yn costio £4.45m ar hyn o bryd a bod £462k ohono'n incwm.
- Yn dilyn ymlaen o'r broses arbedion, nodwyd bod angen i'r Awdurdod godi ffioedd priodol am y gwasanaethau a ddarperir. .
- Yn seiliedig ar weithredu dull bandio (y mae angen ei fabwysiadu er mwyn cydymffurfio â pharamedrau gweithredol system gorfforaethol y Cyngor ar gyfer asesiadau ariannol a thaliadau / anfonebau), bydd 68 o ddefnyddwyr gwasanaeth yn gweld cynnydd yn y tâl a godir arnynt a byddai 18 yn talu llai.
- Nid oes a wnelo'r newidiadau arfaethedig ddim â'r cynnydd cenedlaethol y disgwylir i Lywodraeth Cymru ei gyflwyno yn y tâl uchaf y gellir ei godi am ofal cartref o fis Ebrill, 2017.

Ystyriodd y Pwyllgor yr adroddiad a gwnaeth y pwyntiau canlynol -

- Gofynnodd y Pwyllgor am eglurhad ar y gwahaniaethu mewn cyfraddau budd-daliadau i bobl dros yr oed pensiwn a phobl dan oed pensiwn. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod pobl o dan oed pensiwn yn cael eu diffinio'n genedlaethol fel pobl sy'n gallu gweithio a chael mynediad i fudd-daliadau ychwanegol sy'n gysylltiedig ag anabledd. **Gofynnodd y Pwyllgor fod yr esboniad am y gwahaniaeth hwn yn cael ei egluro yn yr ymgynghoriad.**
- Nododd y Pwyllgor, yn ôl y cyfraddau budd-daliadau a thaliadau gwasanaeth a nodwyd ym mharagraff 1.5 yr adroddiad, y bydd rhai defnyddwyr gwasanaeth ar eu hennill o ganlyniad i'r newidiadau a bod hynny'n groes i'r syniad o gyflwyno system sy'n fwy cyson a theg. Cydnabu'r Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod hynny'n bosibilrwydd a dywedodd y byddai'r gwasanaeth yn cyflwyno mesurau diogelu i atal hynny rhag digwydd ac y byddai'n diwygio'r tabl yn unol â hynny. **Gofynnodd y Pwyllgor am gopi o'r cyfraddau a'r taliadau diwygiedig.**
- Ceisiodd y Pwyllgor eglurhad ynghylch a oedd y nod o gyflwyno cysondeb o ran taliadau yn golygu y bydd cysondeb hefyd yn y ddarpariaeth ledled Cymru. Nododd y Pwyllgor bod defnyddwyr yn derbyn 3 ymweliad gofal cartref yn Ynys Môn o gymharu â 4 mewn awdurdod cyfagos. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod dull Ynys Môn yn seiliedig ar 3 ymweliad ynghyd â gwasanaeth pryd ar glud dros amser cinio ar gyfer y rhan fwyaf o ddefnyddwyr. Nid yw hon o reidrwydd yn rheol gaeth a gellir apelio; mae'n dibynnu ar yr asesiad o angen yr unigolyn.
- Nododd y Pwyllgor gyda phryder y bydd cynnydd yn y tâl o £15 i £60 yr wythnos yn siŵr o gael effaith ar y rheini fydd yn gorfod talu ac y gallai arwain at galedi mewn rhai achosion. **Argymhellodd y Pwyllgor y dylid ychwanegu pumed opsiwn at y tabl o opsiynau ar gyfer ymgynghoriad ym mharagraff 1.6 - sef cynnydd graddol o 33% y flwyddyn dros 3 blynedd a fyddai'n lliniaru ymhellach effaith y cynnydd ar ddefnyddwyr gwasanaethau.**
- Gofynnodd y Pwyllgor a oedd y cyfnod ymgynghori yn ddigonol i fedru ymgysylltu gyda'r holl ddefnyddwyr a fydd cael eu heffeithio ac a fyddai'n eu galluogi i lawn sylweddoli effaith y cynigion ac ymateb iddynt. Dywedodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion fod yr amserlen arfaethedig yn cydymffurfio â chanllawiau statudol ac ystyrir ei bod yn rhesymol a'i fod yntau hefyd, fel swyddog proffesiynol, o'r farn ei bod yn amserlen resymol.
- Roedd gan y Pwyllgor amheuon difrifol ynghylch cychwyn proses ymgynghori ar daliadau uwch, nid yn unig yn y cyfnod yn union cyn y Nadolig ond, yn fwy arwyddocaol na hynny, cyn y cyhoeddiad a ddisgwylir gan Lywodraeth Cymru am gynnydd na wyddys ei faint hyd yma yn yr uchafswm o £60 y gellir ei godi. Byddai hyn felly'n golygu y byddai'r cynnydd ar gyfer defnyddwyr sy'n talu £15 yr wythnos ar hyn o bryd hyd yn oed yn fwy, gan gael mwy o effaith ar ddefnyddwyr gwasanaethau na fyddant wedi cael eu rhybuddio ymlaen llaw. **Argymhellwyd yn gryf bod yr ymgynghoriad hefyd yn egluro bod newid pellach yn y tâl uchaf y gellir ei godi (£60 ar hyn o bryd), o bosib i £70, £80 neu £90, yn debygol o gael ei gadarnhau gan Lywodraeth Cymru cyn diwedd y flwyddyn ariannol gyfredol.** Dywedodd y Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) a'r Swyddog Adran 151 bod angen gwneud penderfyniad ar bolisi codi tâl yr Awdurdod am ofal cartref, a hynny er mwyn cyfrannu at y broses o osod y gyllideb; sut bynnag, nid oes unrhyw arwydd o ba bryd yn union y gallai Llywodraeth Cymru wneud ei chyhoeddiad ar y cynnydd yn y tâl.
- Nododd y Pwyllgor fod yna risg y gall y rheini y mae eu taliadau yn codi o £15 i £60 yr wythnos yn dewis peidio â thalu ac y gallant dynnu'n ôl o'r gwasanaeth yn gyfan gwbl ac y byddai gan hynny oblygiadau posib i'w lles.
- Nododd y Pwyllgor nad ymgynghorwyd ynghylch y newidiadau gydag Eiriolydd y Cyngor dros Bobl Hŷn.

**Penderfynwyd cytuno bod Swyddogion yn ymgynghori am gyfnod gyda'r defnyddwyr y bydd yr opsiynau a gynigir yn effeithio arnynt cyn cyflwyno argymhellion terfynol i'r Pwyllgor Gwaith yn amodol ar yr isod -**

DRAFT

- **Ychwanegu pumed opsiwn at yr opsiynau a gynigir, sef cynnydd graddol o 33% y flwyddyn dros dair blynedd**
- **Bod yr ymgynghoriad yn cynnwys gwybodaeth am gynnydd pellach gan Lywodraeth Cymru yn y tâl uchaf y gellir ei godi i £70, £80 neu £90 o bosib.**

**CAM GWEITHREDU: Y Pwyllgor i gael copi o'r taliadau diwygiedig cyn rhyddhau'r wybodaeth ar gyfer ymgynghori.**

**9 NEWIDIADAU I'R POLISI CODI TÂL - GWASANAETHAU TELEOFAL**

Cyflwynwyd er ystyriaeth a sylwadau'r Pwyllgor, adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion yn nodi'r opsiynau ar gyfer newid y polisi codi tâl ar gyfer gwasanaethau teleofal.

Rhoddodd y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion gyflwyniad gweledol ar y sefyllfa bresennol a'r rhesymeg dros newid. Dywedodd y Swyddog, o ganlyniad i wahanol resymau hanesyddol, fod amryw o daliadau'n gysylltiedig â Gwasanaethau Teleofal a bod angen ailiniad graddol i sicrhau tegwch a chydraddoldeb i bob defnyddiwr gwasanaeth. Mae'r trefniadau ar gyfer y ffioedd cyfredol yn gymhleth ac mae'r Gwasanaeth o'r farn y dylid safoni ffioedd i sicrhau tegwch a lleihau'r gwaith gweinyddol sy'n gysylltiedig â'r system gyfredol.

**Penderfynwyd cytuno bod Swyddogion yn ymgynghori am gyfnod gyda'r defnyddwyr a effeithir ynghylch y pedwar opsiwn a amlinellir yn yr adroddiad cyn cyflwyno argymhellion terfynol i'r Pwyllgor Gwaith.**

**DIM GWEITHREDU PELLACH**

**10 EITEM ER GWYBODAETH - GWASANAETH ANABLEDD DYSGU CYMUNEDOL**

Yn unol â'r cais a wnaed gan y Pwyllgor yn ei gyfarfod ym Mawrth 2016, cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Gwasanaethau Oedolion yn amlinellu'r sefyllfa a'r cynnydd gyda'r Rhaglen Drawsnewid o fewn y Gwasanaeth Anableddau Dysgu. 'Roedd yr adroddiad yn amlinellu'r gweithgareddau hyd yma sydd o fewn cwmpas y prosiectau unigol a restrir ym mharagraff 2.2 yr adroddiad, ynghyd â'r cynllun gwaith i'r dyfodol ar gyfer pob un o'r prosiectau a'r gweithgareddau allweddol yn eu sgil.

Awgrymwyd y dylid rhoi proffil uwch i'r Gwasanaeth Anabledd Dysgu o ran busnes y Pwyllgor hwn ac fel maes ar gyfer sgriwtini ynddo'i hun. Cytunwyd y dylid ei argymell fel pwnc i gael sylw mewn sesiwn friffio i Aelodau yn y Flwyddyn Newydd a bod y Pwyllgor yn penderfynu wedyn a ddylid ei dilyn i fyny fel maes ar gyfer sgriwtini.

**Penderfynwyd derbyn yr adroddiad fel datganiad sefyllfa ar y Gwasanaeth Anabledd Dysgu a chymeradwyo'r datblygiadau arfaethedig o fewn y gwasanaeth.**

**CAM GWEITHREDU YN CODI: Y Gwasanaeth Anabledd Dysgu i gael ei gynnwys fel pwnc ar gyfer sesiwn friffio i'r Aelodau yn y Flwyddyn Newydd.**

**11 EITEM ER GWYBODAETH – Y FLAENRAGLEN WAITH**

Cyflwynwyd er gwybodaeth, adroddiad y Rheolwr Sgriwtini Dros Dro a oedd yn ymgorffori Blaenraglen Waith y Pwyllgor hyd at Ebrill, 2017.

Nododd y Pwyllgor bod nifer o eitemau sylweddol ar raglen y cyfarfod a gynhelir ym Mawrth 2017. Dywedodd y Cadeirydd y gellir adolygu'r sefyllfa yn dilyn cyfarfod y Pwyllgor ym mis Chwefror, 2017 ac y gellir trefnu cyfarfod arbennig os bydd angen.

**Penderfynwyd derbyn a nodi'r adroddiad.**

**Y Cynghorydd R. Meirion Jones**
**Cadeirydd**

DRAFT

DRAFT

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **PWYLLGOR:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **DYDDIAD:** | **6 Chwefror 2017** |
| **PWNC:** | **Bwrdd Diogelu Corfforaethol – Enwebu Aelod Sgriwtini** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Cynghorydd Aled Morris Jones** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **D/B** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>**Ffôn:**<br>**E-bost:** | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini Dros dro**<br>**01248752578**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |

**1.0 ARGYMHELLIAD**

1.1 Gofynnir i'r Pwyllgor enwebu un aelod o'r pwyllgor i fod yn aelod o'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol.

**2.0 CEFNDIR A CHYD-DESTUN**

2.1 Ar 12 Medi, 2016 derbyniodd y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol adroddiad gan ei Banel Diogelu Canlyniadau Sgriwtini. Sefydlwyd y Panel gan y Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol er mwyn adolygu'r trefniadau sy'n bodoli er mwyn sicrhau bod y Cyngor yn gallu cyflawni ei gyfrifoldebau diogelu statudol. Roedd aelodau'r Panel yn cynnwys y Cynghorwyr R Meirion Jones (Cadeirydd), Llinos Medi Huws a Jim Evans.

2.2 Yn dilyn ystyried adroddiad y Panel, penderfynodd y Pwyllgor (12 Medi, 2016) y dylid:

- cymeradwyo adroddiad terfynol y panel canlyniadau sgriwtini ynghyd â'i argymhellion
- cyflwyno'r adroddiad terfynol, fel adroddiad pwyllgor sgriwtini wedi'i fabwysiadu, i gyfarfod nesaf y Pwyllgor Gwaith.

2.3 Yn dilyn hynny, ystyriwyd adroddiad y Panel Canlyniadau Sgriwtini gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 17 Hydref 201. Cymeradwywyd yr adroddiad a'i argymhellion gan y Pwyllgor Gwaith. Mae angen i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol weithredu'r argymhelliad canlynol:

**"…. <u>Argymhelliad 7 (iii)</u>**
Fe ddylai Aelodaeth o'r Bwrdd Diogelu Corfforaethol gynnwys aelod o'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol er mwyn gwella cyfathrebu rhwng y Bwrdd a'r Pwyllgor..."

Mae copi o Gylch Gorchwyl y Bwrdd Diogelu Corfforaethol wedi'i atodi fel sylfaen i drafodaethau'r Pwyllgor **(ATODIAD 1).**

| **ATODIAD** |
| --- |
| Cylch Gorchwyl – Bwrdd Diogelu Corfforaethol |

Awdur: Anwen Davies
Teitl Swydd: Rheolwr Sgriwtini Dros dro
Dyddiad: 25 Ionawr 2017

**ATODIAD 1**

## Bwrdd Trefniadau Diogelu Corrfforaethol Cyngor Sir Ynys Môn

## Cydlynu Trefniadau Diogelu

## Maes Llafur

**Bwriad:** **Sicrhau bod gan Gyngor Sir Ynys Môn drefniadau mewn lle ar gyfer gwarantu bod gwasanaetha'r Cyngor yn cyflawni eu dyletswyddau diogelu yn unol â gofynion cyfreithiol a Pholisïau'r Cyngor a Gweithdrefnau Amddiffyn Plant ac Oedolion Bregus ('mewn perygl' o dan Deddef Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014.**

1) **Aelodaeth:**

   **Dirprwy Brif Weithredwraig / Cyfarwyddwr Y Gwasanaethau Cymdeithasol) (Cadeirydd)**

   Cyfrifoldeb - Sicrhau trosolwg ac atebolrwydd corfforaethol a hwyluso datrys anawsterau ac uchafu cyfleoedd hyrwyddo ymarfer da.

   **Penaethiaid Gwasanaeth Plant ac Oedolion**
   **Pennaeth Addysg**
   **Pennaeth Democratiaeth a Chyfreithiol**
   **Pennaeth Adnoddau Dynol**
   **Pennaeth Gwasanaeth Tai**
   **Pennaeth Datblygu Economaidd, Gwarchod Y Cyhoedd a Gwasanaethau Rheoleiddio**
   **Rheolwr gwasanaeth Diogelu a gwarantu Ansawdd**
   **Deilydd Portffolio**
   **Arweinydd**
   **Cadeirydd y Pwyllgor Craffu**

   Gwahoddi'r swyddogion eraill a/neu bartneriaid yn ddibynnol ar rhaglen waith ac agenda

2) **Atebolrwydd:**

   Cyflwynnir adroddiad yn flynyddol i'r Prif Bwyllgor Sgriwtini trwy'r Aelod Portffolio Gwasanaethau Cymdeithasol.

   Cyflwynnir canfyddiadau o'r drefn adrodd i'r Grwp Diogelu Gweithredol (Plant ac Oedolion) Môn a Gwynedd a'r byrddau diogelu rhanbarthol ar gyfer plant ac oedolion.

**3) Amlder Cyfarfodydd:**

Pob deufis er mwyn:

i) Sicrhau bod rhaglen waith y Cyngor ( o fewn y Cynllun Tair Blynedd) a chwrdd â gofynion a blaenoriaeth diogelu ac
ii) adolygu cynnydd.

Cynhelir cyfarfodydd ychwanegol yn ddibynnol ar y rhaglen waith.

**4) Grwpiau Gorchwyl:**

Sefydlu grwpiau gorchwyl penodol gydag awdurdod y Cyfarwyddwr Corfforaethol.

**5) Cylch Gorchwyl:**

- Sicrhau bod canllawiau a pholisïau'r Cyngor yn gyfredol ac yn cwrdd â disgwyliadau Llywodraeth Cymru a blaenoriaethau'r Cyngor.
- Hyrwyddo ymarfer da a diwylliant o ddysgu parhaus gan gyfrannu a dylanwadu ar ymarfer yn lleol a chenedlaethol.
- Adnabod a sicrhau cydymffurfiaeth â pholisïau'r Cyngor;
- hyrwyddo diogelwch plant ac oedolion mewn meysydd allweddol megis:
  a. Penodi a gwerthuso staff (DBS/geirda)
  b. Trefniadau disgyblu gyda chyfeiriad penodol at sefyllfaoedd ble bo ystyriaethau diogelu plant ac oedolion a honiadau yn erbyn staff proffesiynol.

**6. Gweinyddiaeth**

**Darperir cefnogaeth weinyddol gan Y Gwasanaethau Cymdeithasol ar gyfer trefnu a choofnodi cyfarfodydd. Trefnir y rhaglen a'r papurau ar gyfer y cyfarfodydd gan y Rheolwr gwasanaeth Diogelu mewn ymgynghroiad gyda'r Cadeirydd a Phennaeth Gwasanaethau Plant.**

**Cylchredir y rhaglen a'r papurau (yn y ddwy iaith ble bo'n bosibl) at aelodau'r Bwrdd o leiaf 7 diwrnod cyn y cyfarfod. Bydd y cofnodion yn cael eu cylchredeg o fewn 10 diwrnod gwaith o gynnal y cyfarfod.**

**Cymeradwywyd:** **Ionawr 2015**

**Adolygiad:** **Ebrill 2016**

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol** |
| **Dyddiad:** | **6 Chwefror 2017** |
| **Pwnc:** | **Gosod Cyllideb 2017/18 (Refeniw a Chyfalaf)** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y Cynghorydd Hywel Eifion Jones** |
| **Pennaeth Gwasanaeth** | **Marc Jones, Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Ffôn:<br>E-bost: | **Anwen Davies, Rheolwr Sgriwtini Dros Dro**<br>**01248 752578**<br>**AnwenDavies@ynysmon.gov.uk** |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad/argymhellion a rheswm/rhesymau**

**1. CEFNDIR**

1.1 Bob blwyddyn mae'r Cyngor wedi parhau i ddatblygu ei broses ar gyfer gosod y gyllideb ac nid yw cyllideb 2017/18 yn eithriad. Unwaith eto mae hyn wedi caniatáu dilyn trywydd mwy systematig o ran sgriwtini ariannol, sy'n elfen hanfodol o ran rheolaeth a llywodraethiant ariannol gadarn.

1.2 Cyflwynwyd adroddiad y Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 i'r Pwyllgor Sgriwtini ar 19 Hydref 2016 er ystyriaeth a sylwadau. Roedd yr adroddiad hwnnw'n amlinellu'r cynigion drafft cychwynnol ar gyfer cyllideb 2017/18 mewn perthynas â'r arbedion a nodwyd hyd yma. Dosbarthwyd rhestr yn y cyfarfod o'r arbedion effeithlonrwydd arfaethedig fesul gwasanaeth. Bydd Aelodau'n cofio bod y Pwyllgor wedi ystyried y cynigion effeithlonrwydd yng nghyd-destun tair ystyriaeth benodol:

A yw unrhyw un o'r cynigion drafft sy'n deillio o'r broses hyd yma -

i. yn effeithio ar allu'r Cyngor i gyflawni deilliannau Cynllun Corfforaethol y Cyngor mewn modd amserol
ii. yn peri pryder sylweddol i'r Pwyllgor yn ei gyfanrwydd
iii. angen eu hail-ddrafftio er mwyn eu symleiddio a chrynhoi eu hystyr at ddibenion ymgynghori.

Yn ogystal, derbyniodd y Pwyllgor adroddiad gan y Pennaeth Trawsnewid yn amlinellu'r cynllun ymgynghori ar gyllideb 2017/18.

Mae crynodeb o drafodaethau'r Pwyllgor i'w gweld yng nghofnodion cyfarfod y Pwyllgor.

1.3 Bydd aelodau'n ymwybodol bod cyllid yn holl bwysig i'r gwasanaethau a ddarperir gan y Cyngor a bod oblygiadau pellgyrhaeddol i'r materion ariannol

sy'n ein hwynebu fel awdurdod lleol – o ran y gwasanaethau mae'r cyhoedd yn eu derbyn a'r Dreth Gyngor neu'r taliadau a'r ffioedd y maent yn eu talu[1]. Wrth iddi fynd yn anoddach canfod yr arbedion sydd eu hangen drwy wneud arbedion effeithlonrwydd, bydd rhaid i'r Cyngor roi ystyriaeth fanwl i'r dewisiadau sydd gennym. Bydd hyn yn golygu parhau i ofyn cwestiynau heriol ynglŷn â pha wasanaethau i'w cynnig yn y dyfodol ac i ba raddau mae dulliau presennol o gyflenwi gwasanaethau yn parhau i fod yn addas. Ystyriaeth arall yw beth yw'r ffordd orau o reoli disgwyliadau (yn fewnol ac yn allanol) wrth wneud y newidiadau sy'n angenrheidiol.

1.4 Wrth ystyried ei ymateb i'r cynigion cyllideb terfynol, bydd angen i aelodau'r Pwyllgor Sgriwtini ystyried y cynigion yn nhermau sefyllfa gyllidol hir dymor, ehangach y Cyngor (fel yr amlinellir yn y Cynllun Ariannol Tymor Canol) a hefyd amcanion hir dymor y Cyngor (yn y Cynllun Corfforaethol).

## 2. GOSOD CYLLIDEB Y CYNGOR AR GYFER 2017/18

2.1 Ynghlwm mae adroddiadau'r Pennaeth Adnoddau a Swyddog Adran 151 ar y cyllidebau refeniw a chyfalaf arfaethedig ar gyfer 2017/18 (**ATODIAD 1 a 2**) sy'n rhoi datganiad sefyllfa ar y materion canlynol:

i. Cynigion cyllideb cychwynnol y Pwyllgor Gwaith
ii. Setliad terfynol Llywodraeth Leol
iii. Sefyllfa ddiwygiedig ar gyfer cyllideb 2017/18
iv. Y Dreth Gyngor
v. Cronfeydd Wrth Gefn a balansau cyffredinol
vi. Premiwm ar ail gartrefi
vii. Cynigion arbedion
viii. Pwysau ar y gyllideb
ix. Risgiau.

## 3. SGRIWTINI ARIANNOL – GOSOD CYLLIDEB 2017/18

3.1 Yn yr hinsawdd economaidd bresennol, mae Aelodau angen sicrwydd bod y Cyngor yn gwneud y defnydd gorau o adnoddau, sy'n prinhau, yn arbennig adnoddau ariannol:

*"… Mae craffu effeithiol yn bwysicach fyth wrth i wasanaethau cyhoeddus ymateb i her y sefyllfa ariannol fyd-eang tra'n parhau i geisio gwella gwasanaethau. Gall craffu effeithiol wella sail y dystiolaeth ar gyfer penderfyniadau ar ddyrannu adnoddau yn ogystal â sicrhau bod penderfyniadau yn dryloyw ac yn cael eu gwneud yn unol ag anghenion y gymuned leol..."*[2]

Sut fedrwn ni ychwanegu gwerth yw'r cwestiwn allweddol y dylid ei ofyn o safbwynt sgriwtini ariannol a sut fedrwn ni ddangos bod gwerth wedi ei ychwanegu ym mhob cam o'r broses ariannol? Mae'r **broses gosod cyllideb** ynddi'i hun yn un o'r camau allweddol yn y broses hon.

[1] Disgwyliadau Uwch – craffu ariannol mewn cyfnod heriol. Arweiniad ar gyfer awdurdodau lleol Cymru (Canolfan Craffu Cyhoeddus, Mehefin 2014)
[2] Craffu Da? Cwestiwn Da! Astudiaeth wella Archwilydd Cyffredinol Cymru: Craffu mewn Llywodraeth Leol, Mai 2014

3.2 Mae sgriwtini ariannol yn golygu llawer mwy nag ychwanegu gwerth i benderfyniadau'r Pwyllgor Gwaith yn unig. Mae'n ymwneud â sicrhau bod proses sgriwtini briodol yn cael ei gweithredu wrth gynllunio, gweithredu a dilyn i fyny ar benderfyniadau allweddol sy'n cael effaith ar drethdalwyr a chymunedau lleol. O'r herwydd dylai sgriwtini;

- Gynnig her effeithiol
- Ddal y sawl sy'n gwneud penderfyniadau i gyfrif; a
- Cynorthwyo'r Pwyllgor Gwaith i ddatblygu cyllideb gadarn ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod drwy herio sut mae penderfyniadau ynglŷn â dyrannu adnoddau'n cael eu gwneud a pha mor dda mae adnoddau'n cael eu defnyddio i gyflawni ein hamcanion polisi.

## 4. PRIF NEGESEUON O'R YMGYNGHORIAD CYHOEDDUS

4.1 Ynghlwm mae adroddiad y Rheolwr Cynllunio Busnes, Rhaglen a Pherfformiad yn crynhoi'r prif negeseuon a ddeilliodd o'r Ymgynghoriad Cyhoeddus diweddar (**ATODIAD 3).**

4.2 Gwelwyd ymarferiad ymgynghori eleni'n adeiladu ar sylfeini cadarn a osodwyd dros y 2 flynedd diwethaf o dan arweiniad y Bwrdd Ymgysylltu ac Ymgynghori ar y Cyd, sydd wedi'i sefydlu gyda phartneriaid 3ydd Sector.

4.3 Mae'r ymgynghoriad wedi derbyn ymateb gwell eto eleni, gyda dros 1% o'r boblogaeth yn ymateb drwy nifer o wahanol sianelau. Gwelwyd y rhanfwyaf o'r atebion a goladwyd yn dod drwy arolygon ar-lein ond mae'n deg dweud i ganran uwch na'r llynedd gael eu coladu drwy sianelau cyfryngau cymdeithasol. Mae hyn yn pwysleisio'r pwysigrwydd cynyddol o sicrhau y gallai dinasyddion gysylltu a thrafod efo'r Cyngor ar amser ac o leoliad sy'n gyfleus iddynt hwy.

4.4 O'r adborth a dderbyniwyd, mae'r prif negeseuon a'r meysydd sy'n peri consyrn wedi'u manylu yn yr adroddiad ynghlwm (**ATODIAD 3**) ac wedi'u crynhoi ym mharagraff 6.3 (vi) isod.

## 5. LLAIS NI (CYNGOR IEUENCTID YNYS MÔN)

5.1 Rhoddwyd trefniadau mewn lle hefyd i gryfhau cysylltiadau rhwng Sgriwtini gan Aelodau Etholedig a dinasyddion fel cyfrwng o alluogi'r cyhoedd i gymryd rhan mewn trafodaeth ddemocrataidd ynglŷn â sut mae gwasanaethau cyhoeddus yn cael eu cyflwyno ar hyn o bryd a sut mae gwneud hynny yn y dyfodol[3]. Ein nod ni yn ystod y broses gosod cyllideb bresennol yw bod Sgriwtini yn sicrhau bod llais plant a phobl ifanc lleol yn amlwg yn y broses o wneud penderfyniadau a llunio polisi.

5.2 Fel cam cyntaf, gwahoddodd y Cyngor y Cyngor Ieuenctid i gyflwyno sylwadau ar yr arbedion effeithlonrwydd. Mynychodd y Pencampwr Pobl Ifanc (Y Cynghorydd Llinos Medi Huws), y Pennaeth Adnoddau a'r Rheolwr Sgriwtini Dros Dro weithdy (03/12/16) a drefnwyd gan Swyddog Datblygu Llais Ni i gasglu barn y Cyngor Ieuenctid.
Ynghlwm mae adroddiad Swyddog Datblygu Llais Ni yn crynhoi ymateb y bobl

[3] Craffu Da? Cwestiwn Da! Astudiaeth wella Archwilydd Cyffredinol Cymru: Craffu mewn Llywodraeth Leol, Mai 2014.

ifanc a gymerodd ran yn yr ymarferiad hwn (**ATODIAD 4**).

## 6. PRIF FATERION SGRIWTINI

6.1 Mae'r broses gosod cyllideb ar gyfer 2017/18 wedi rhoi cyfle i Aelodau Etholedig drafod ac archwilio oblygiadau'r cynigion effeithlonrwydd drafft. Yn arbennig, roedd y gyfres o weithdai cyllideb a gynhaliwyd yn ystod yr Hydref yn cynnig cyfle i Aelodau roi ystyriaeth fanwl i bob un o'r cynigion cyllidebol ar draws holl wasanaethau'r Cyngor. Yn awr, yn ystod y cam hwn yn y broses, gofynnir i'r Pwyllgor Sgriwtini Corfforaethol roi ystyriaeth i farn derfynol ar y gyllideb ddrafft ar gyfer 2017/18 cyn i'r Pwyllgor Gwaith[4] ystyried ei gyllideb ddrafft terfynol ar 14 Chwefror.

6.2 O ganlyniad i'r broses ar gyfer gosod cyllideb 2017/18 hyd yma, argymhellir y dylai'r Pwyllgor:

i. Roi ystyriaeth i'r prif negeseuon sy'n codi o'r ymgynghoriad cyhoeddus ar gynigion cyllideb 2017/18
ii. Archwilio mewn mwy o fanylder effeithiau'r cynigion a oedd yn peri consyrn yn yr ymgynghoriad cyhoeddus diweddar
iii. Ystyried y gyllideb gyfalaf arfaethedig ar gyfer 2017/18 a thu hwnt.

**<u>CWESTIYNAU SGRIWTINI</u>**

**13.**4 Mae Tabl 9 yn dangos y senario waethaf gyda thoriadau sylweddol yn yr AEF ar gyfer 2018/19 a 2019/2020 a chwyddiant a dyfarniadau cyflog yn cynyddu’n gyflym (a’r rhagdybiaeth y bydd chwyddiant yn cyrraedd 3% am y tair blynedd a dyfarniadau cyflog yn cynyddu’n raddol dros y cyfnod o 3 blynedd o 1.5% i 2.5%). Mae’r model hwn yn rhagdybio y bydd cynydd o 4% y flwyddyn yn y Dreth Gyngor.

**Tabl 9**

**Strategaeth Ariannol ar gyfer y Tymor Canol 2018/19-2020/21 (Senario Waethaf)**

| | 2018/19 £’m | 2019/20 £’m | 2020/21 £’m |
|---|---|---|---|
| **Cyllideb Refeniw Net D / Y (ar ôl addasu ar gyfer defnydd o arian wrth gefn)** | **126.16** | **125.09** | **124.05** |
| Pwysau Cyllideb a Chwyddiant | 2.30 | 2.51 | 3.38 |
| **Cyllideb ddiwygiedig** | **128.46** | **127.60** | **127.43** |
| Cyllid Allanol Cyfun (AEF) | (90.24) | (87.81) | (87.81) |
| Y Dreth Gyngor | (34.85) | (36.24) | (37.69) |
| **Cyfanswm Cyllid** | **(125.09)** | **(124.05)** | **(125.50)** |
| | | | |
| **Arbedion Angenrheidiol** | **3.37** | **3.55** | **1.93** |

**13.5.** Mae Tabl 10 yn dangos senario mwy optimistaidd lle mae’r gostyngiad yn yr AEF ar gyfer y cyfnod tair blynedd yn llai (1% yn y ddwy flynedd gyntaf a dim gostyngiad yn y drydedd), chwyddiant yn codi i 2% ac yn aros ar y lefel honno am y tair blynedd a dyfarniadau cyflog yn aros ar 1% am y ddwy flynedd gyntaf ac yn codi i 1.5% yn 2020/21. Unwaith eto, tybir y bydd codiad o 4% y flwyddyn yn y Dreth Gyngor.

**Tabl 10**

**Strategaeth Ariannol ar gyfer y Tymor Canol 2018/19 - 2020/21 (Senario Optimistaidd)**

| | 2018/19 £'m | 2019/20 £'m | 2020/21 £'m |
|---|---|---|---|
| **Cyllideb Refeniw Net D / Y (ar ôl addasu ar gyfer defnydd o arian wrth gefn)** | **126.16** | **126.58** | **127.05** |
| Pwysau Cyllideb a Chwyddiant | 1.61 | 1.48 | 2.49 |
| **Cyllideb ddiwygiedig** | **127.77** | **128.06** | **129.54** |
| Cyllid Allanol Cyfun (AEF) | (91.73) | (90.81) | (90.81) |
| Y Dreth Gyngor | (34.85) | (36.24) | (37.69) |
| **Cyfanswm Cyllid** | **(126.58)** | **(127.05)** | **(128.50)** |
| | | | |
| **Arbedion Angenrheidiol** | **1.19** | **1.01** | **1.04** |

**13.6.** Bydd diweddariad ar y Strategaeth Ariannol Tymor Canol yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith fel y daw gwybodaeth ar setliadau yn y dyfodol yn gliriach.

## 14. ARGYMHELLION

**14.1.** Argymhellir bod y Pwyllgor Gwaith yn cymeradwyo'r cynigion terfynol ar gyfer y gyllideb fel y nodir ym Mharagraff 10 i gyfarfod llawn y Cyngor ar 28 Chwefror 2017.

**ATODIAD 2**

**Ymateb i Gynigion Cychwynol ar gyfer Cyllideb y Pwyllgor Gwaith – Cwrdd a'r Heriau 2016**

**CYNGOR SIR YNYS MÔN**

**Ionawr 2017**

**Dadansoddwr – Alwyn Williams, Dadansoddwr Perfformiad**

**Awdur – Gethin Morgan, Rheolwr Cynllunio Busnes, Rhaglen a Perfformiad**

**Pennaeth Gwasanaeth – Scott Rowley, Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol**

## *1. Rhagarweiniad*

**1.1.** Ymgynghorodd y Cyngor yn ddiweddar ar gynigion cyllidebol cychwynnol y Pwyllgor Gwaith - 'Cwrdd â'r Heriau' rhwng 11 Tachwedd a 16 Rhagfyr, 2016. Roedd y cyfnod ymgynghori o 5 wythnos yn canolbwyntio ar oddeutu 50 o gynigion.

**1.2.** Allbwn y broses gyllidol blynyddol oedd y cynigion arfaethedig yma. Cawsant eu cyflwyno gan y gwasanaethau yn ystod tymor yr Hydref pan fu iddynt hefyd gael eu herio a'i cytuno i bwrpas ymgynghori gan Aelodau Etholedig pob grwp gwleidyddol y Cyngor.

**1.3.** Rhannwyd y 50 i mewn i 6 thema fel yr amlinellir isod, sef:

- Atal neu Trosglwyddo Gwasanaeth i Eraill
- Cynyddu Incwm
- Lleihad mewn costau di-addysg ysgolion
- Trawsnewid Gwasanaethau neu gwneud newid yn y ffordd o ddarparu
- Ail-strwythuro staff neu dileu swyddi gwag
- Cynigion Effeithlonrwydd cyffredin a toriadau i gyfraniadau

**1.4.** Yn ogystal eleni am y tro cyntaf, ymgynghorwyd ar gynlluniau gwariant mawr y Cyngor dros y 12 mis nesa' yn ogystal a'r bwriad drwy'r cynllun ariannol tymor canol i godi treth y Cyngor o 3% am 2017/18.

**1.5.** Ystyriwyd amrywiaeth helaeth o arbedion lle'r oedd yr her a chytundeb fewnol wedi arwain at gynigion oedd yn amrywio o faterion parthed cynyddu costau prydau ysgol, buddsoddi mewn gwaith atall llifogydd a trawsnewid darpariaethau ieuenctid a llyfrgelloedd y Cyngor. Marchnatwyd y cynigion yma mewn nifer o ffyrdd;

**1.5.1.** Sesiwn briffio i'r wasg lleol
**1.5.2.** Datganiadau ac erthyglau yn y wasg
**1.5.3.** Cyhoeddiad o'r cynigion ar dudalen cartref gwefan y Cyngor Sir oedd hefyd wedi'i alinio gyda fideo pwrpasol yn amlygu'r angen am arbedion
**1.5.4.** Defnydd helaeth o'r cyfryngau cymdeithasol Twitter, Facebook a Youtube i'w hyrwyddo i ystod mwy eang o drigolion
**1.5.5.** E-byst perthnasol yn tynnu sylw a gwahodd trigolion i drafodaethau pwrpasol
**1.5.6.** Amryw gyfweliadau gan yr Arweinydd ar MônFM dros gyfnod yr ymgynghoriad gan gynnwys cyfweliad byw gan bobl ifanc ar y materion o bwys

Roedd pob un o'r sianeli uchod wedi'u hanelu at hysbysu ac ennyn brwdfrydedd dinasyddion a staff i ymgysylltu ac ymateb i'r cynigion cychwynnol.

**1.6.** Gofynnwyd i ddinasyddion, partneriaid a staff ymateb i'r ymgynghoriad drwy wahanol ddulliau gan gynnwys: -

- Dau arolwg ar-lein ar ein gwefan
  - Arolwg ar gyfer pawb
  - Arolwg yn benodol ar gyfer yr ifanc (gweler isod)
- E-bostio neu ysgrifennu atom

**1.7.** Yn ogystal â'r uchod, cynhaliodd y Cyngor:-

- Sesiynau grŵp ffocws ar gyfer pobl o dan 25 oed yn ysgolion uwchradd David Hughes, Llangefni a Bodedern, fforwm ffermwyr ifanc a chlybiau ieuenctid yn Bodedern a Chaergybi
- Arolygon ar-lein a gynllunwyd gyda Medrwn Môn a Llais Ni i bobl o dan 25, pobl hyn a phobl gydag anableddau
- Sesiwn a gynhaliwyd yn y Cyngor ar gyfer nifer o partneriaethau fel yr Heddlu, Gwasanaeth Tan, Iechyd, Cynghorau Tref a Chymuned, cyrff y 3ydd Sector ac asiantaethau arall.
- Fforwm Pobl Hyn a gynhaliwyd yn Neuadd y Dref gyda rhanddeiliaid a phartneriaid y gwasanaseth Oedolion (55 yn bresennol)
- Sesiwn gyda Prifathrawon ac Uwch Reolwyr ysgolion yr Ynys ar y 1af o Ragfyr, 2017 (33 ysgol yn bresennol)
- Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned ar y 24ain o Dachwedd, 2016

**1.8.** Yn wahanol i llynedd ni gynhaliwyd sesiynau galw i mewn, gan fod yr ymateb yn 2016/17 wedi bod yn isel ac roedd Aelodau'r Cyngor yn unfrydol o'r farn nad oedd angen y fath ymgynghoriad eleni.

Ag eithrio pwynt 1.5 roedd yr ymgynghoriad eleni yn dilyn digwyddiadau ymgynghori tebyg a gynhaliwyd dros y blynyddoedd diwethaf.

2. ***Canlyniadau***

**2.1.** Roedd yr ymateb i'r cynigion cyllidebol cychwynol ar gyfer 17/18 dros cyfnod o 5 wythnos yn weddol gadarnhaol. Mae dros 700 o ymatebion (1% o'r boblogaeth) wedi'i dderbyn oddi draws yr amryw sianelau a amlinellwyd uchod gydag ymatebwyr yn ymgysylltu ar draws pob dull.

**2.2.** Y ffordd fwyaf llwyddiannus o gasglu ymatebion eleni oedd yr arolwg ar-lein gyda thua 67% yn ymateb drwy'r sianel yma. Mae hyn yn gynnydd sylweddol dros ein ymateb y llynedd lle gwelwyd y mwyafrif yn ymateb drwy'r grwpiau ffocws a'r sesiynau cysylltiedig. Eleni, dyma'r ail-ddull mwya' poblogaidd gyda'r gweddill yn cysylltu drwy Facebook (FB) a dulliau traddodiadol megis e-byst a llythyrau papur.

**2.3.** Derbyniwyd ymatebion gan gyrff tebyg I gynghorau tref, cyrff llywodraethu ysgolion, pobl hyn ac anabl, yr ifanc, athrawon, a thrigolion eraill na ellid eu grwpio i unrhyw grwp penodol.

**2.4.** Am y tro cyntaf eleni, rydym hefyd wedi medru casglu'r ymatebion a ddaethpwyd ein ffordd fel Cyngor drwy FB. Drwy hyrwyddo'r ymgynghoriad drwy'r cyfrwng FB bu inni gyrraedd oddeutu 44,339 o bobl. (3,849 o bobl drwy posts Cymraeg a 40,490 o bobl drwy'n posts Saesneg).

**2.5.** Bu inni 'bostio'r ymgynghoriad ar y cyfryngau cymdeithasol (neu ei hyrwyddo) 50 o weithiau (25 yn y gymraeg a 25 yn y saesneg) dros y cyfnod dan sylw (5 wythnos) sydd yn golygu fod bob un o'n posts corfforaethol wedi cyrraedd oddeutu 887 o bobl ar gyfartaledd.

**2.6.** Nid yw'r ffaith ein bod wedi cyrraedd cynifer yn cadarnhau eu bod wedi ymweld a'r dudalen ei hun ond maen't heb os yn dangos eu bod yn ymwybodol o'r ymgynghoriad oedd wrth waith.

**2.7.** Mae'r pwynt hyn yn cael ei amlygu yn y niferoedd a ymwelodd a'n safle we corfforaethol gydag unigolion yn ymweld a'r arolwg o wledydd megis –

**2.7.1.** Unol Daliaethau America
**2.7.2.** India
**2.7.3.** Curaco
**2.7.4.** Sweden
**2.7.5.** Hong Kong.

Wedi dweud hynny roedd mwyafrif yr ymweliadau i'n gwefan gan unigolion o'r Deyrnas Unedig (dros 96%).

**2.8.** Derbyniwyd 129 o ymatebion drwy FB. Yn wahanol i'r arolwg ar-lein, roedd y trafodaethau drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn aml yn defnyddio'r cyfrwng i gwestiynu gwaith y Cyngor yn gyffredinol a'r 'methiannau' arfaethedig sydd wedi bod yn gysylltiedig a'n darpariaerth gwastraff yn ddiweddar yn ogystal a nodi sylwadau ar yr ymgynghoriad ei hun.

**2.9.** Er hyn, drwyddi draw o'r sianelau i gyd, y prif feysydd ffocws o'r ymatebion oedd fel a ganlyn a gellir eu dychmygu drwy ddefnyddio'r wordle isod ar lun 1:

**2.9.1.** Codi ffioedd prydau ysgol


**2.9.2.** Cynyddu costau bws i blant sy'n byw o fewn 2 i 3 milltir o'i hysgol presennol

**2.9.3.** Datblygu safle parhaol i sipsiwn a theithwyr

**2.9.4.** Cynnydd arfaethedig mewn treth Cyngor o 3%

**2.9.5.** Lleihad yng nghostau glanhau ysgolion

**2.9.6.** Lleihad mewn costau drwy ail-strwythuro a peidio a llenwi swyddi gwag




Llun 1.

**2.10.** Yn gyffredinol, roedd yr ymateb eto eleni yn rhoi ystyriaeth gytbwys o'r dasg anodd sy'n wynebu'r Cyngor gydag amryw o syniadau pellach yn cael ei cynnig yn rhan o’r ymatebion a dderbyniwyd.

**2.11.** Mae gweddill y ddogfen hon yn canolbwyntio ar y meysydd o arbedion a nodwyd yn 1.3 gan dynnu sylw at y canfyddiadau mwyaf cyffredin a nodi rhai awgrymiadau a gynnigir gan drigolion yr Ynys drwy’r ymatebion a dderbynwyd i’r arolwg.

**2.11.1. Rhoi’r Gorau neu Trosglwyddo Gwasanaethau i Eraill**

Roedd gennym 7 cynnig yn gysylltiedig ar maes yma yn amrywio o drosglwyddo rheolaeth ein atyniadau diwylliannol i derfynnu les ein lleoliad hyfforddiant yn Nhy William Jones.
Yn fras roedd yr ymatebion yn cytuno gyda mwyafrif y cynigion a roddwyd ymlaen ond un o’r pryderon mwyaf cyffredin oedd yr angen i’r Cyngor fod yn wyliadwrus iawn wrth drosglwyddo asedau sydd yn ran anatod o’n cynnig i dwristiaid. Roedd yr elfen o dwristiaeth yn cael ei amlygu drosodd a throsodd fel un o’n prif gryfderau fel Ynys ac roedd yr ymateb yn pryderu na fydde trosglwyddiad yn sicrhau eu dyfodol.

Awgrymir gan rai medru cefnogi’r troslwyddiad yn ariannol am gyfnod byr, i helpu sefydlogi’r ddarpariaeth i’r dyfodol.

Nodwyd hefyd bod angen bod yn ofalus os am uwchraddio cyfleusterau cyhoeddus cyn eu trosglwyddo gydag un awgrym yn nodi mai falle'r ffordd orau o'i trosglwyddo yw eu trosglwyddo fel ag y maent gan adael i unrhyw un fydde eisiau eu cymryd drosodd 'as found'. Bydde'r gwariant arfaethedig ar uwchraddio wedyn yn medru cael ei ddefnyddio fel arbediad blynyddol.

**2.11.2. Cynyddu Incwm**

Roedd nifer o'r sylwadau yn gadarnhaol parthed y cynigion (9 ohonynt) oedd yn cael sylw yn y maes yma. Yn wir, roedd yna deimlad y gellid ei grynhoi yn nodi pam nad oeddem yn gwneud hyn yn barod gyda nifer o'r cynigion arfaethedig.
Y ddau gynnig oedd falle yn mynd yn erbyn yr elfen ar ymdeimlad cadarnhaol yma oedd y ddau oedd yn gysylltiedig a chynnydd yng nghostau prydau ysgol a cynyddu costau bws i'r plant hynny sydd yn byw o fewn 2 i 3 milltir o'i hysgol presennol.

Yn wir, roedd gwrthwynebiad amlwg i'r ddau gynnig yma gyda sylwadau yn nodi pryderon am gynaliadwyedd y fath newid oherwydd yr effaith y byddai'n ei gael ar deuluoedd bregus a'r rhai hynny oedd gyda mwy nag un o blant. Nodwyd mewn un ymateb er engraifft y byddai newid o'r fath (cost bws ysgol) yn golygu y byddai'r teulu yn gorfod talu oddeutu £1,000 yn fwy i'r Cyngor yn flynyddol am fynd a'i phlant i'r ysgol.

Roedd amryw un hefyd yn pryderu am y llif traffic sydd am gynyddu o gwmpas ysgolion (yn enwedig y rhai Uwchradd) gan y bydd nifer o ganlyniad i'r fath newid yn cymryd eu plant i'r ysgol eu hunain. Canlyniad y cynnydd hyn mewn ceir, sydd angen ei gysidro yw'r effaith a geir ar ddiogelwch plant o gwmpas ysgolion yr Ynys.

Un pwynt a cynnig a nodwyd sy'n gysylltiedig a'r cynigion yma (symud plant o un ysgol i'r llall mewn tacsi) oedd y ffaith fod angen i'r arlwy addysg ol-16 gael ei adolygu gan nad oedd yr ymateb yn credu bod 5 ysgol uwchradd yn cynnig arlwy 6ed dosbarth o ansawdd yn gynaliadwy o gofio bod Coleg Menai yng nghanol yr Ynys.

Cynnig lle roedd y ddwy ochr I'r stori yn medru cael ei amlygu oedd yr ymgynghoriad gyda'r grwp o bobl hyn parthed gofal cartref. Roedd yna ddealltwriaeth o'r angen i gynyddu'r ffioedd am ofal cartref a tra bod amryw yn derbyn yr argymhelliad yn ddibynol ar y gallu I dalu roedd rhai hefyd yn bryderus. O'r rhai a ymatebodd dim ond 3.8% ohonynt fydda'n ail-feddwl yr angen am ofal cartref petai'r newid yn digwydd. Mae'n bwysig nodi'r o'r ymatebion yma, mai aros yr un peth parthed costau oedd yr opsiwn ffafredig gydag opsiynau o gynnydd blynyddol bychan yn dilyn.

**2.11.3. Lleihad mewn costau di-addysg Ysgolion**

Mae'r ymateb i'r cynigion yma (4 ohonynt) yn gyffredinol yn codi pryderon dros effaith y byddai'r arbedion sy'n cael eu cynnig yn ei gael ar safonnau a chyrhaeddiad plant yr Ynys. h.y. un o'r pwyntiau mwya' cyffredin sydd yn dod i'r amlwg yw'r cwestiwn ynglyn a torri'r gyllideb glanhau yn yr ysgolion; os wneir hyn a fydd yr ysgol yn cynyddu yn ei debygolrwydd o heintiau ac o ganlyniad yn gweld absenoldebau salwch nid yn unig plant ond athrawon yn cynyddu o ganlyniad.

Un mesur i liniaru'r pryder uchod sydd yn cael ei gynnig yw'r cyfle i gynnig brechiadau ffliw i nid yn unig athrawon yr Ynys ond hefyd plant fydde o ganlyniad yn atal unrhyw salwch cyson yn ystod y tymhorau gaeafol.

Mae'r ymateb parthed arbedion salwch athrawon yn gweld y ddwy ochr. Rhai yn nodi os yw'r athrawon yn iach yna bydd y gofyn am athrawon llanw yn disgyn a caiff plant yr ysgolion eu haddysg yn rheolaidd gan athrawon llawn amser. Eraill yn nodi os yw'r athrawon yn sal yna cwestiynu beth arall ellid ei wneud.

Gofynnir hefyd drwy'r ymateb I'r maes yma, i'r Cyngor feddwl yn ddwys am yr arbediad sy'n gysylltiedig a chefnogaeth ychwanegol i blant. Noder y pryder, mai ond cynyddu'r galw ar staff rheng flaen (athrawon a cymhorthyddion) fydd hyn yn ei wneud. Y canlyniad fydd, effaith niweidiol ar lefelau salwch staff.

Ar y llaw arall cwestiynir a oes yna ormodedd o gymhorthyddion yn bresennol mewn ysgolion gan mai yn hanesyddol nid dyma oedd y model. Gofynnir oes lle i ddysgu o'r gorffennol?

Un awgrym gan y cyhoedd yw dylsa'r Cyngor drwy'r ysgolion (ac wedi gwirio'r elfen ddiogelu) ofyn os oes cymorth ar gael drwy neiniau a theidiau'r ynys I helpu plant gyda darllen a falle cymorth un i un.

Awgrym pellach sy'n cael ei nodi gan staff ysgol yn yr ymateb yw, os oes lleihad yn y gyllideb ei angen, yna dylsa'r Cyngor edrych ar leihau'r 'gyllideb gyffredinol a ddyrennir i ysgolion gan osgoi toriad trwm mewn un penawd cyllidol'. Bydda hyn wedyn yn arfogi'r Pennaeth neu'r Penaethiaid i benderfynnu sut i wneud y toriad yn eu hysgol hwy.

Nodwyd drwy'r fforwm cyllid ysgolion y dylai'r Cyngor roi arweiniad tair blynedd i ysgolion yr Ynys parthed yr arbedion disgwyliedig, fydd yn eu galluogi i gynllunio'n fwy cadarn i'r dyfodol.

**2.11.4. Trawsnewid Gwasanaethau neu gwneud newid yn y ffordd o ddarparu**

Roedd 16 o gynigion cychwynol yn perthyn i'r thema yma ac roeddent yn amrywio o drawsnewid ein darpariaeth ieuenctid I edrych ar opsiynau parthed rhesymoli trefniadau ciniawa mewn cartrefi henoed.

Yn fras, roedd yr ymateb i'r cynigion hyn yn led-cadarnhaol gyda dim ond un o'r cynnigion oedd yn cael ei godi fel pryder gan fwy nag un. Cynnig parthed ein darpariaeth I'r Ieuenctid oedd hwnnw lle roedd amryw un yn pryderu am ei ddyfodol tra bod eraill yn cwestiynu'r newidiadau i ofal cartref gyda'r pryder fod gymaint o newidadau yn y gwasnaeth gofal cymdeithasol yn ormod i'w ofyn o wasanaeth sydd yn gweld cynnydd yn y gofyn.

Yn ychwanegol i'r rhain roedd y mater o allanoli'r casglu o'r meysydd parcio yn cael cryn sylw gyda nifer yn dweud y dylsa'r Cyngor ei allanoli yn ei gyfanrwydd lle bod eraill yn pryderu am yr effaith y gall ei allanoli i gwmni preifat ei gael ar ddefnyddwyr.

Unwaith yn rhagor, roedd barn y bobl hyn a ymgynghorwyd a hwy yn medru deall yr angen am newid yn y ffordd yr oedd Telecare yn cael ei ariannu ac roeddent yn grediniol na fydda cynydd mewn costau yn arwain atynt yn peidio a gofyn am y gwasanaeth. Yn wir, ychydig yn wahanol I'r opsiwn am ofal cartref roedd y mwyafrif (60%) o ymatebwyr yma yn gweld yr angen ac yn cytuno byddai codiad blynyddol rheolaidd (phased implementation) yn well na un codiad mawr eleni.

Roedd amryw un yn falch ac yn gweld budd ehangach o'r cynnig i ddatblygu gwasanaeth arbennigol yng Ngharreglwyd, Caergybi.

**2.11.5. Ail-strwythuro staff neu dileu swyddi gwag**

Roedd amryw o gynigion yma yn amrywio o wasanaeth i wasanaeth.

Cadarnhaol oedd yr ymateb gyda'r ethos o beth oedd yn cael ei roi 'mlaen gyda chydig yn datgan falle nad oedd y Cyngor yn bod yn ddigon uchelgeisiol gyda'r maes yma. Roedd yr ymateb yn cydnabod bod cyfanswm y ffigwr a roddwyd ymlaen fel arbediad ond yn cyfateb i 11 swydd ar gyfartaledd cost o £35,000 yr un allan o oddeutu 3,000 o swyddi oedd yn cael eu cyflogi gan y Cyngor.

Cwestiynwyd yr angen am adolygiad o'r sefyllfa staffio ymhellach gyda'r disgwyliad gan y mwyafrif y gellid gwneud mwy o arbedion o'r maes yma os fydda'r gwaith hynny yn cael ei wneud yn rheolaidd.

Yn ogystal, nodwyd fod angen i'r Cyngor ymrafael ar mater o salwch hefyd gydag un sylwebydd yn nodi ffigyrau a ddefnyddwyd gan y wasg lleol dros gyfnod yr haf.

Un pwynt pellach a nodwyd ynglyn a'r maes yma oedd yr angen i fod yn fwy tryloyw parthed yr arbediad yn ei gyfanrwydd a nodi'r effaith y bydda arbediad o'r fath yn ei gael ar y gwasanaeth a gynigir gan y Cyngor.

Falle bod hyn yn bwynt i'w gadw mewn cof parthed ymgynghoriadau corfforaethol pellach gan y Cyngor Sir.

**2.11.6. Cynigion Effeithlonrwydd cyffredin a toriadau i gyfraniadau**

Yn gyffredinol roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn cytuno gyda'r cynigion a roddwyd ymlaen fel rhan o'r maes yma (13 ohonynt). Roedd dau eithriad yn amlygu 'i hunan i'r ymdeimlad cadarnhaol yma –

(i) cyfraniadau i'r ifanc
(ii) gostwng cyllideb y Public Rights Of Way (PROW).

Roedd yr ymateb parthed gostwng cyfraniadau i'r ifanc (Mudiad Ysgolion Meithrin) yn canolbwyntio ar yr effaith dilynol, gydag amryw un yn nodi y bydda cylchoedd yn cau. Canlyniad hyn yn ol yr ymateb (gan gynnwys ymateb y Mudiad ei hun) fydda lleihau'r ddarpariaeth, nid yn unig i blant ond hefyd i rieni fydda wedyn yn lleihau'r cyfleoedd a'r adnoddau sydd yn gosod seiliau cadarn I gychwyn byd addysgol plant.

Roedd yr ymateb parthed gostwng cyllideb PROW yn cwestiynu faint o ostyngiad oedd hyn gyda'r feirniadaeth bod ei gynnig heb rhoi'r pictiwr cyflawn yn ei gwneud yn anodd i bobl ddeall yr oblygiadau.

Roeddent hefyd yn gweld y gostyngiad yn rhywbeth a all effeithio ar dwristiaeth, iechyd, amgylchedd ac addysg.

**2.11.7. Cynlluniau Gwariant Sylweddol**

Drwy'r ymgynghoriad am y tro cyntaf eleni bu i'r Cyngor ymgynghori ar ei gynlluniau gwariant sylweddol (neu'r gwariant cyfalaf) sydd yn yr arfaeth ar gyfer 2017/18.

Y gred yw bod hwn yn gam i'r cyfeiriad cywir ac yn dangos i drigolion yr Ynys beth sydd ar y gweill ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod nid yn unig o safbwynt arbedion ond hefyd bellach o safbwynt gwariant ar welliannau i'r dyfodol.
Unwaith yn rhagor, mae'r ymateb i'r cynlluniau yma yn led-gadarnhaol gydag amryw i fan sylwadau yn cael eu pasio ar amryw un.

O'r sylwadau a dderbyniwyd i'r gwrthwyneb y pwynt mwya cyffredin sydd yn cael ei gwestiynu / feirniadu yw'r ffaith bod cynlluniau i wario yn agos am £1miliwn ar safleoedd i sipsiwn a theithwyr. Y gred yw bod hyn yn ddiffygiol yn yr hinsawdd sydd ohoni ac os mai Llywodraeth Cymru sydd yn arwain yna dylsa'r llywodraeth ei ariannu.

**2.12.** Mae'r uchod hefyd yn dangos ac yn datgan ar amryw o adegau y diffyg ymwybyddiaeth sydd yn bodoli o fewn y drafodaeth ehangach ar arbedion a cynlluniau gwariant (cyfalaf) ar beth a pham fod y cynigion yn cael eu cynnig. Falle bod lle i gyfleu hyn yn wahanol i'r dyfodol gan hysbysu'r trigolion pam na ellid defnyddio cyllid cyfalaf i wneud arbedion refeniw. Bydde hwn yn wers i'w dysgu i'r dyfodol.

**2.13.** Fel rhan o'r ymgynghoriad, cafwyd ymateb ffurfiol gan ddau Gyngor Tref –

**2.13.1.** Cyngor Tref Beaumaris a
**2.13.2.** Chyngor Tref Amlwch.

Roedd ymateb Cyngor Tref Beaumaris yn pryderu am effeithiau'r newidiadau a nodwyd ynghynt yn yr adroddiad ac roeddent yn cyd-fynd a'r pryder sydd wedi ei nodi eisoes parthed cynnydd mewn prisiau cinio ysgol / costau bws / lleihad yn y gyllideb glanhau ysgolion ynghyd a'r cynnig arfaethedig o gynyddu'r treth Cyngor o 3%.

**2.14.** Parthed yr ymateb eang a gafwyd yn gysylltiedig ar treth Cyngor roedd y mwyafrif o ymatebwyr yn erbyn unrhyw fath o godiad, er bod rhai yn medru gweld y rhesymeg pam fod y fath godiad yn cael ei wyntyllu fel cynnig ac y byddai'n well ganddynt hwy dalu'r codiad na gweld gwasanaethau yn cael eu torri ymhellach.

**2.15.** Roedd Cyngor Tref Amlwch ar y llaw arall yn tynnu sylw at y ffaith ac yn pryderu nad oedd y cynlluniau cyfalaf presennol yn edrych i adeiladu a chynnig unedau diwydiannol ychwanegol yn y dref a fyddai yn eu tyb hwy yn galluogi busnesau i ehangu yn ogystal a bod yn ffordd o ddenu busnesau newydd i'r ardal, yn enwedig gyda datblygiadau Wylfa Newydd ar y gorwelion. Yr oeddent hefyd o'r farn y dylsa costau teithio aelodau (i Langefni) gael eu cwtogi fel rhan o'r cynigion.

**2.16.** I gloi felly, mae'r ymateb wedi bod yn gynhwysfawr ac ymatebion wedi ei dderbyn drwy nifer o ffyrdd gwahanol. Mae'r ymateb drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn cynyddu ac mae'r gwaith a wnaed gan swyddogion ac aelodau wedi medru sicrhau bod llais yr ifanc / y defnyddiwr / y bobl hyn a grwpiau anodd I'w cyrraedd wedi cael ei glywed fel rhan o'r ymgynghoriad yma.

**2.17.** Mae gwersi wedi ei dysgu ac mae lle inni fod yn datblygu'r rhain ac yn gwella ymhellach I'r dyfodol yn ein ymgynghoriadau rheolaidd.

## ARBEDION I'W GWEITHREDU YN 2017/18 - SAVINGS TO BE IMPLEMENTED IN 2017/18

| Gwasanaeth / Service | Cyllideb / Budget | Gweithred / Action | Categori / Category | Savings to be Implemented / Ardebion i'w weithredu 2017/18 £'000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Addysg Ysgolion / Education Schools | Ysgolion Cynradd ac Uwchradd / Primary and Secondary Schools | Lleihau y costau Cytundeb Glanhau 50% / Reduce the cleaning contract costs by 50% | Lleihad mewn costau ysgol nad ydynt yn costau dysgu / Reduction in non teaching school costs | 116 | Bydd angen gwneud Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb / An Equalities Impact Assessment will need to be done. |
| Addysg Ysgolion / Education Schools | Ysgolion Cynradd / Primary Schools | Arbedion trwy wneud defnydd gwell o gontractau corfforaethol (caffael) e.e. ynni, papur, defnydd swyddfa, dodrefn / Savings from making better use of corporate contracts (procurement) e.g. energy, paper, office supplies, furniture | Ail Dendro neu arbedion Caffael / Re-tendering or procurement savings | 170 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |

| Gwasanaeth / Service | Cyllideb / Budget | Gweithred / Action | Categori / Category | Savings to be Implemented / Ardebion i'w weithredu 2017/18 £'000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Addysg Ysgolion / Education Schools | Staffio - Ysgolion Cynradd ac Uwchradd / Staffing - Primary and Secondary | Lleihau lefel o Salwch - Lleihau Costau athrawon llanw (torri premiwm 10%) / Reduce sickness level - reduce cost of supply teachers (cut the premium 10%) | Lleihad mewn costau ysgol nad ydynt yn costau dysgu / Reduction in non teaching school costs | 100 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| Addysg / Education | Ieuenctid / Youth | Trawsnewid Gwasanaeth Ieuenctid / Youth Service Transformation | Trawsnewid Gwasnaeth / Service Transformation | 50 | Bydd angen gwneud Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb / An Equalities Impact Assessment will need to be done. |
| Addysg / Education | Prydau Ysgol/ School Meals | Cynyddu y prisiau at lefel awdurdodau eraill sef o £2.10 y diwrnod i £2.20 / Increase the price to the same level as other authorities i.e. from £2.10 per day to £2.20 | Cynhyrchu Incwm / Income Generation | 60 | Bydd angen gwneud Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb / An Equalities Impact Assessment will need to be done. |
| Addysg / Education | Cynnal | Lleihau cyfraniad at gostau rheoli cwmni Cynnal / Reduce contribution towards the management costs of Cynnal | Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol / General Efficiency Savings | 30 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |

| Gwasanaeth / Service | Cyllideb / Budget | Gweithred / Action | Categori / Category | Savings to be Implemented / Ardebion i'w weithredu 2017/18 £'000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Addysg / Education | CBAC : WJEC | Torri Cyfraniad tuag at y CBAC / Reduce contribution towards WJEC | Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol / General Efficiency Savings | 20 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| Addysg / Education | William Mathias | Lleihau costau tuag at gwasanaeth cerdd William Mathias / Reduce costs towards William Mathias music service | Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol / General Efficiency Savings | 7 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| Addysg Ysgolion / Education Schools | Ysgolion Cynradd ag Uwchradd / Primary and Secondary Schools | Lleihau costau cymhorthyddion / Reduce Support Assistants' costs | Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol / General Efficiency Savings | 490 | Bydd angen gwneud Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb / An Equalities Impact Assessment will need to be done. |

| Gwasanaeth / Service | Cyllideb / Budget | Gweithred / Action | Categori / Category | Savings to be Implemented / Ardebion i'w weithredu 2017/18 £'000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Adnoddau / Resources | Staffio Cyffrifeg / Accountancy Staff | Yn dilyn ail strwythuro / Following restructure | Arbedion a gynhyrchir drwy ail strwythuro staff / Savings generated through staff restructure | 50 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| Adnoddau / Resources | Staffio R & B / Staff R & B | Yn dilyn ail stwythuro / Following restructure | Arbedion a gynhyrchir drwy ail strwythuro staff / Savings generated through staff restructure | 50 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| Adnoddau / Resources | Costau Postio / Postage | Stopio creu a postio slip cyflog papur. Staff yn cael mynediad i system electronig (Amdanafi)/ Stop creating and printing paper payslips. Staff to have access to electronic system (My View) | Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol / General Efficiency Savings | 21 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |

| Gwasanaeth / Service | Cyllideb / Budget | Gweithred / Action | Categori / Category | Savings to be Implemented / Ardebion i'w weithredu 2017/18 £'000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Busnes y Cyngor / Council Business | Costau Papur / Paper Costs | Lleihau cyllideb papur trwy ddefnyddio papurau Pwyllgor electronig / Reduce the paper budget as a result of using electronic Committee papers | Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol / General Efficiency Savings | 15 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| Busnes y Cyngor / Council Business | Ymchwil Scrwtini / Scrutiny Research | Dileu gyllideb sydd heb ei ddefnyddio / Delete an unused budget | Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol / General Efficiency Savings | 3 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |

| Gwasanaeth / Service | Cyllideb / Budget | Gweithred / Action | Categori / Category | Savings to be Implemented / Ardebion i'w weithredu 2017/18 £'000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd / Planning & Public Protection | Uned Polisi Cynllunio ar y Cyd / Joint Planning Policy Unit | Lleihau y gyllideb / Reduce the budget | Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol / General Efficiency Savings | 30 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd / Planning & Public Protection | Tîm Gweinyddol / Administration Team | Adolygu y strwythyr staffio ar draws y pump swyddogaeth / Review the staffing structure across the five functions | Arbedion a gynhyrchir drwy ail strwythuro staff / Savings generated through staff restructure | 24 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd / Planning & Public Protection | Iechyd Amgylcheddol a Safonau Masnach / Environmental Health and Trading Standards | Adolygu y sefyllfa staffio / Review Staffing position | Arbedion a gynhyrchir drwy ail strwythuro staff / Savings generated through staff restructure | 22 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |

| Gwasanaeth / Service | Cyllideb / Budget | Gweithred / Action | Categori / Category | Savings to be Implemented / Ardebion i'w weithredu 2017/18 £'000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Cynllunio & Gwarchod y Cyhoedd / Planning & Public Protection | Cofrestryddion, Genedigaethau, Marwolaethau, Priodasau / Registrars, Births, Deaths and Marriages | Codi lefel y gyllideb i gyd-fynd gyda'r gwir incwm / Raise the level of the budget to match the actual income | Cynhyrchu Incwm / Income Generation | 20 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| Cynllunio a Gwarchod y Cyhoedd / Planning & Public Protection | Rheoli Pla / Pest Control | Lleihau Costau / Reduce Costs | Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol / General Efficiency Savings | 10 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| Diwylliant / Culture | Melin Llynnon Mill | Trosglwyddo Melin Llynnon / Transfer Llynnon Mill | Rhoi'r Gorau neu Trosglwyddo Gwasanaeth / Cessation or Transfer of Service | 40 | Bydd angen gwneud Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb / An Equalities Impact Assessment will need to be done. |
| Dywilliant / Culture | Ynys Lawd / South Stack | Dod â'r cytundeb i ben / Terminate the agreement | Rhoi'r Gorau neu Trosglwyddo Gwasanaeth / Cessation or Transfer of Service | 13 | Bydd angen gwneud Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb / An Equalities Impact Assessment will need to be done. |

| Gwasanaeth / Service | Cyllideb / Budget | Gweithred / Action | Categori / Category | Savings to be Implemented / Ardebion i'w weithredu 2017/18 £'000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Diwylliant / Culture | Carchar a Llys / Gaol & Courthouse | Trosglwyddo yCarchar a'r Llys / Transfer Beaumaris Gaol & Courthouse | Rhoi'r Gorau neu Trosglwyddo Gwasanaeth / Cessation or Transfer of Service | 4 | Bydd angen gwneud Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb / An Equalities Impact Assessment will need to be done. |
| Economaidd. Hamdden a Morwrol / Economic, Leisure & Maritime | Incwm Nofio / Swimming Income | Cynyddu y targedau incwm / Increase Income Targets | Cynhyrchu Incwm / Income Generation | 35 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| Economaidd. Hamdden a Morwrol / Economic, Leisure & Maritime | Doc Pysgod Caergybi / Holyhead Fish Dock | Dileu y Gyllideb yn dilyn trosglwyddo'r ased o'r Cyngor yn 2016/ Removal of Budget following the transfer of the asset from the Council in 2016 | Rhoi'r Gorau neu Trosglwyddo Gwasanaeth / Cessation or Transfer of Service | 23 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |

| Gwasanaeth / Service | Cyllideb / Budget | Gweithred / Action | Categori / Category | Savings to be Implemented / Ardebion i'w weithredu 2017/18 £'000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Economaidd. Hamdden a Morwrol / Economic, Leisure & Maritime | Cynyddu Incwm / Arbedion mewn Canolfannau Hamdden / Increase Income Efficiency Savings at Leisure Centres | Lleihau oriau Glanhau yn y 3 canolfan / Reduce Cleaning hours at the 3 Centres | Trawsnewid Gwasnaeth / Service Transformation | 10 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| Economaidd. Hamdden a Morwrol / Economic, Leisure & Maritime | Staffio Hamdden / Staffing Leisure | Adolygu y sefyllfa staffio/ Review the staffing position | Arbedion a gynhyrchir drwy ail strwythuro staff / Savings generated through staff restructure | 6 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| Economaidd. Hamdden a Morwrol / Economic Leisure & Maritime | Cynyddu Incwm / Arbedion mewn Canolfannau Hamdden / Increase Income Efficiency Savings at Leisure Centres | Allanoli y Caffi yn Amlwch / Outsource the Café at Amlwch | Rhoi'r Gorau neu Trosglwyddo Gwasanaeth / Cessation or Transfer of Service | 5 | Ni fydd newid sylweddol yn y ddarpariaeth, er gall darparwyr newydd fod yn eu lle. / There will be no substantive change to provision although new providers may be in place |

| Gwasanaeth / Service | Cyllideb / Budget | Gweithred / Action | Categori / Category | Savings to be Implemented / Ardebion i'w weithredu 2017/18 £'000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Economaidd. Hamdden a Morwrol / Economic, Leisure & Maritime | Cymorth Cyllidol i weithgareddau Twristiaeth y Haf / Financial Support for Summer Tourism Events | Lleihau y Gyllideb / Reduce the Budget | Lleihad mewn grantiau / Reduction in Grants | 2 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| Oedolion / Adults | Henoed - Eraill / Other Elderly | Harmoneiddio ffioedd Teleofal/ Harmonisation of Telecare fees | Trawsnewid Gwasnaeth / Service Transformation | 10 | Bydd angen gwneud Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb / An Equalities Impact Assessment will need to be done. |
| Oedolion / Adults | Gofal preswyl/ Residential care | Datblygu gwasanaethau arbenigol yn Garreglwyd - arbedion o leoliadau allsirol/ Develop specialist services in Garreglwyd - savings from out-of-county placements | Trawsnewid Gwasnaeth / Service Transformation | 20 | Bydd angen gwneud Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb / An Equalities Impact Assessment will need to be done. |
| Oedolion / Adults | Gofal dydd/ Day care | Adolygu trefniadau trafnidiaeth gofal dydd/ Review Day care transportation arrangements | Trawsnewid Gwasnaeth / Service Transformation | 15 | Bydd angen gwneud Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb / An Equalities Impact Assessment will need to be done. |
| Oedolion / Adults | Gofal cartref/ Home care | Cynnydd mewn ffioedd Gofal cartref mewnol/ Increase in internal Home care fees | Cynhyrchu Incwm / Income Generation | 100 | Bydd angen gwneud Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb / An Equalities Impact Assessment will need to be done. |

| Gwasanaeth / Service | Cyllideb / Budget | Gweithred / Action | Categori / Category | Savings to be Implemented / Ardebion i'w weithredu 2017/18 £'000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Oedolion / Adults | Gofal cartref/ Home care | Prosiect Gofalwr Sengl/ Single Carer Project | Trawsnewid Gwasnaeth / Service Transformation | 75 | Bydd angen gwneud Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb / An Equalities Impact Assessment will need to be done. |
| Oedolion / Adults | Gofal cartref/ Home care | Taliadau Uniongyrchol/ Direct Payments | Trawsnewid Gwasnaeth / Service Transformation | 50 | Bydd angen gwneud Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb / An Equalities Impact Assessment will need to be done. |
| Oedolion / Adults | Gofal preswyl a gofal dydd/ Residential care & day care | Arbedion o fewn yr Uned Ddarparu/ Efficiency savings within the Provider Unit | Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol / General Efficiency Savings | 50 | Bydd angen gwneud Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb / An Equalities Impact Assessment will need to be done. |
| Oedolion / Adults | Llety cysgodol/ Sheltered accomodation | Dileu cyllideb sydd yn weddill ar gyfer y gwasanaeth Wardeiniad/ Remove remaining budget for Warden service | Dileu swyddi gwag / Delete vacant posts | 36 | Bydd angen gwneud Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb / An Equalities Impact Assessment will need to be done. |
| Oedolion / Adults | Gofal dydd/ Day care | Adolygu contractau gwasanaethau dydd i glientiaid gydag anableddau dysgu/ Review of day services' contracts for clients with learning disabilities | Trawsnewid Gwasnaeth / Service Transformation | 21 | Bydd angen gwneud Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb / An Equalities Impact Assessment will need to be done. |

| Gwasanaeth / Service | Cyllideb / Budget | Gweithred / Action | Categori / Category | Savings to be Implemented / Ardebion i'w weithredu 2017/18 £'000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Oedolion / Adults | Gofal preswyl a gofal cartref/ Residential care & home care | Model gofal - Penucheldre/ Care model - Penucheldre | Trawsnewid Gwasnaeth / Service Transformation | 2 | Bydd angen gwneud Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb / An Equalities Impact Assessment will need to be done. |
| Oedolion / Adults | Gofal preswyl / Residential care | Lleihau lleoliadau preswyl/ Reduce residential places | Trawsnewid Gwasnaeth / Service Transformation | 150 | Bydd angen gwneud Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb / An Equalities Impact Assessment will need to be done.. |
| Oedolion / Adults | Llety gyda chefnogaeth / Supported Accommodation | Pecynnau cymorth canlyniadau gyda ffocws penodol - byw gyda chefnogaeth/ Outcome focused support packages - supported living | Trawsnewid Gwasnaeth / Service Transformation | | |
| Oedolion / Adults | Arlwyo Cartrefi Preswyl / Catering Residential Care Homes | Asesu opsiynau a'i gwireddu i unai allanoli neu rhesymoli / Assess options and implement to either outsource or rationalise | Trawsnewid Gwasnaeth / Service Transformation | 30 | Ni fydd newid sylweddol yn y ddarpariaeth, er gall darparwyr newydd fod yn eu lle. / There will be no substantive change to provision although new providers may be in place |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo / Highways, Waste & Property | Rent ychwanegol ar gyfer y mân-ddaliadau / Additional Rents from Smallholdings | Increase Income Budget and reduce Repairs and Maintenance Budget | Cynhyrchu Incwm / Income Generation | 150 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |

| Gwasanaeth / Service | Cyllideb / Budget | Gweithred / Action | Categori / Category | Savings to be Implemented / Ardebion i'w weithredu 2017/18 £'000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Priffyrdd Gwastraff ac Eiddo / Highways, Waste & Property | Cyfleusterau Cyhoeddus / Public Conveniences | Allanoli Cyfleusterau Cyhoeddus a lleihau costau rhedeg y rhai sy'n cael eu cadw / Outsourcing Public Conveniences and reduce the running costs of those that are kept | Rhoi'r Gorau neu Trosglwyddo Gwasanaeth / Cessation or Transfer of Service | 26 | Bydd angen gwneud Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb / An Equalities Impact Assessment will need to be done. |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo / Highways, Waste & Property | Staffio Ystadau / Estates Staffing | Adolygu trefniadau staffio / Review staffing arrangements | Arbedion a gynhyrchir drwy ail strwythuro staff / Savings generated through staff restructure | 27 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo / Highways, Waste & Property | Contract Cynnal Ffyrdd / Highway Maintenance Contract | Lleihau'r gyllideb refeniw trwy defnyddio y gyllideb cyfalaf i sicrhau fod cyfanswm y gwariant yn cyrraedd yr isafswm sydd ei angen / Reduce the revenue budget by using the capital budget to ensure that the total expenditure reaches the minimum value required | Ail Dendro neu arbedion Caffael / Re-tendering or procurement savings | 50 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |

| Gwasanaeth / Service | Cyllideb / Budget | Gweithred / Action | Categori / Category | Savings to be Implemented / Ardebion i'w weithredu 2017/18 £'000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo / Highways Waste & Property | Staffio Cynnal a Chadw (Eiddo) / Maintenance Staffing (Property) | Adolygu trefniadau staffio / Review staffing arrangements | Arbedion a gynhyrchir drwy ail strwythuro staff / Savings generated through staff restructure | 35 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo / Highways, Waste & Property | Cynnal a Chadw / Repairs and Maintenance | Apwyntio swyddog i wneud gwaith cynnal a chadw cyffredinol yn hytrach na apwyntio contractwyr allanol / Appoint officer for general Repairs and Maintenance work, rather than to appoint an external contractor | Trawsnewid Gwasnaeth / Service Transformation | 5 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| Priffyrdd Gwastraff ac Eiddo / Highways Waste & Property | Trafnidiaeth Cymunedol Môn/ Mon Community Transport | Lleihau y gyllideb 10% / Reduce the budget 10% | Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol / General Efficiency Savings | 12 | Bydd angen gwneud Asesiad Effaith ar Gydraddoldeb / An Equalities Impact Assessment will need to be done. |

| Gwasanaeth / Service | Cyllideb / Budget | Gweithred / Action | Categori / Category | Savings to be Implemented / Ardebion i'w weithredu 2017/18 £'000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Priffyrdd Gwastraff ac Eiddo / Highways Waste & Property | Glanhau / Cleaning | Adolygu trefniadau glanhau y Pencadlys / Review Headquarters Cleaning arrangements | Trawsnewid Gwasnaeth / Service Transformation | 7 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo / Highways, Waste & Property | Lleihau Costau Dŵr / Reduced Water Charges | Lleihau cyllideb cyfleustodau / Reduction in Utilities budget | Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol / General Efficiency Savings | 6 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |

| Gwasanaeth / Service | Cyllideb / Budget | Gweithred / Action | Categori / Category | Savings to be Implemented / Ardebion i'w weithredu 2017/18 £'000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Priffyrdd Gwastraff ac Eiddo / Highways Waste & Property | Cytundeb Casglu Gwastraff / Waste Collection Contract | Arbedion cyffredinol ar y cytundeb Gwastraff / General saving on Waste Contract | Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol / General Efficiency Savings | 6 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| Priffyrdd Gwastraff ac Eiddo / Highways, Waste & Property | Patrôl Croesi ger Ysgolion / School Crossing Patrol | Adolygu Patrôl Croesi ger Ysgolion / Review School Crossing Patrol | Trawsnewid Gwasnaeth / Service Transformation | 5 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo / Highways, Waste & Property | Hawlio Tramwy Cyhoeddus / Public Right of Way | Lleihau Cyllideb Hawliau Tramwy Cyhoeddus / Reduce Public Rights of Way budget | Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol / General Efficiency Savings | 5 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |

| Gwasanaeth / Service | Cyllideb / Budget | Gweithred / Action | Categori / Category | Savings to be Implemented / Ardebion i'w weithredu 2017/18 £'000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Priffyrdd, Gwastraff ac Eiddo / Highways, Waste & Property | Rheoli Parcio/ Parking Management | Adolygu trefniadau gorfodi parcio / Review Parking Enforcment arrangements | Trawsnewid Gwasnaeth / Service Transformation | 5 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| Tai / Housing | Adnewyddiad Sector Breifat/Private Sector Renewal | Incwm drwy ymgymryd â gwaith Tystysgrifau Perfformiad Ynni / Income from undertaking Energy Performance Certificate work | Cynhyrchu Incwm / Income Generation | 19 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| Tai / Housing | Adnewyddiad Sector Breifat/ Private Sector Renewal | Ffî am waith y Swyddog Tai Gwag/ Fee for work undertaken by the Empty Homes Officer | Cynhyrchu Incwm / Income Generation | 10 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |

| Gwasanaeth / Service | Cyllideb / Budget | Gweithred / Action | Categori / Category | Savings to be Implemented / Ardebion i'w weithredu 2017/18 £'000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Tai / Housing | Adnewyddiad Sector Breifat/Private Sector Renewal | Incwm o arolygu ail-brynu cyn eiddo'r cyngor/ Income from assessing the repurchase of former Council houses | Cynhyrchu Incwm / Income Generation | 7 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| Tai / Housing | Digartrefedd/ Homelessness | Codi'r ffi gweinyddu Rhestr Aros Tai i Gymdeithasau Tai a'r Cyfrif Refeniw Tai / Increased fee for the Housing Register work to Housing Associations and the Housing Revenue Account | Cynhyrchu Incwm / Income Generation | 5 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| Trawsnewid / Transformation | Swyddi Gwag / Vacant Posts | Dileu y gyllideb am swyddi gwag tu fewn i'r gwasanaeth / Delete the budget for vacant posts within the service | Dileu swyddi gwag / Delete vacant posts | 50 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |

| Gwasanaeth / Service | Cyllideb / Budget | Gweithred / Action | Categori / Category | Savings to be Implemented / Ardebion i'w weithredu 2017/18 £'000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Trawsnewid / Transformation | Tŷ William Jones | Terfynnu Les Tŷ William Jones / End the Lease of Ty William Jones | Rhoi'r Gorau neu Trosglwyddo Gwasanaeth / Cessation or Transfer of Service | 20 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| Trawsnewid / Transformation | Cyfathrebu / Communications | Arbedion costau Cyfryngau / Media Cost Savings | Rhoi'r Gorau neu Trosglwyddo Gwasanaeth / Cessation or Transfer of Service | 2 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| Trawsnewid / Transformation | Agenda Lleol 21 / Local Agenda 21 | Dileu y Gyllideb - Dim ei angen bellach / Removal of Budget - No longer required | Dileu cyllidebau sydd heb eu defnyddio / Remove Unused Budgets | 3 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |

| Gwasanaeth / Service | Cyllideb / Budget | Gweithred / Action | Categori / Category | Savings to be Implemented / Ardebion i'w weithredu 2017/18 £'000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Trawsnewid / Transformation | Adnoddau Dynol / Human Resources | Lleihau cyllideb costau teithio / Reduce travel budget | Arbedion Effeithlonrwydd Cyffredinol / General Efficiency Savings | 2 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, peryglu cyfle cyfartal neu'n negyddol effeithio ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| Trawsnewid / Transformation | Newyddion Môn | Lleihau costau trwy peidio cynhyrchu fersiwn papur / Reduce costs by not producing a paper copy | Rhoi'r Gorau neu Trosglwyddo Gwasanaeth / Cessation or Transfer of Service | 2 | Ni fydd yr arbedion ariannol arfaethedig yn gwahaniaethu'n anghyfreithlon, effeithio'n andwyol ar grwpiau gwarchodedig, beryglu cyfle cyfartal na'n effeithio'n negyddol ar y berthynas rhwng gwahanol grwpiau./ The proposed financial saving will not unlawfully discriminate, impact adversely on protected groups, compromise equality of opportunity or negatively affect relations between different groups |
| | | | **CYFANSWM / TOTAL** | **2,444** | |

## ARBEDION NODWYD NA FYDDAI'N BOSIB EU GWEITHREDU / SAVINGS IDENTIFIED AS NOT POSSIBLE TO IMPLEMENT

| Gwasanaeth / Service | Cyllideb / Budget | Gweithred / Action | Categori / Category | Arbedion nad yw'n bosib eu gweithredu 2017/18 / Savings not possible to Implement 2017/18<br><br>£'000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Addysg Ysgolion / Education Schools | Ysgolion Cynradd a Uwchradd / Primary and Secondary Schools | Lleihau y costau Cytundeb Glanhau 50% / Reduce the cleaning contract costs by 50% | Lleihad mewn costau ysgol nad ydynt yn costau dysgu / Reduction in non teaching school costs | 114 | Yn dilyn adolygiad o'r ddarpariaeth ar ôl y cynnig cychwynnol o'r arbedion yn y gyllideb, nodwyd nad yw'n bosib i leihau'r gorbenion rheoli yn ogystal â gorbenion sefydlog arall i gyflawni'r arbediad gyfan. /<br>A review of the provision following the initial budget saving proposal has identified that it is not possible to reduce the management overheads as well as other fixed overheads to delivery the entire saving |
| Addysg / Education | Cludiant / Transport | Codi pris trafnidiaeth llai na 2 neu 3 milltir i adennill y gost yn llawn sef o £80 y flwyddyn i £465 / Increase the cost of transport for pupils who live within 2 or 3 miles to fully recover the cost i.e. from £80 per annum to £465 | Cynhyrchu Incwm / Income Generation | 13 | Addaswyd i lawr yr amcangyfrif o'r incwm ychwanegol posib y byddai'n cael ei greu gan y cynnydd. /<br>The estimate on the potential additional income that the increase would generate was revised downwards |
| Addysg / Education | Cludiant / Transport | Cludo disgyblion ôl 16 yn ol i'r Ysgol parhaol o'i lleoliad olaf y dydd, yn hytrach nag adref / Transport Post 16 pupils back to their permanent School, rather than to their home | Cynhyrchu Incwm / Income Generation | 48 | Mae'r newid yma eisoes wedi ei gyflwyno, felly, byddai'n gyfrif dwbl./ This change has already been introduced and, therefore, would be a double count. |

| Gwasanaeth / Service | Cyllideb / Budget | Gweithred / Action | Categori / Category | Arbedion nad yw'n bosib eu gweithredu 2017/18 / Savings not possible to Implement 2017/18 £'000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Diwylliant / Culture | Carchar a Llys / Gaol & Courthouse | Trosglwyddo y Carchar a'r Llys Biwmares / Transfer Beaumaris Gaol & Courthouse | Rhoi'r Gorau neu Trosglwyddo Gwasanaeth / Cessation or Transfer of Service | 2 | Y gyllideb gwirioneddol ar gyfer Carchar a Llys Biwmares oedd £4k, ddim £6k fel nodwyd yn gyntaf./ Actual budget was £4k for Beaumaris Gaol & Courthouse not £6k as was first noted. |
| Economaidd. Hamdden a Morwrol / Economic Leisure & Maritime | Doc Pysgod Caergybi / Holyhead Fish Dock | Dileu y Gyllideb yn dilyn trosglwyddo'r ased o'r Cyngor yn 2016 / Removal of Budget following the transfer of the asset from the Council in 2016 | Rhoi'r Gorau neu Trosglwyddo Gwasanaeth / Cessation or Transfer of Service | 5 | Angen cymryd £5k incwm allan o'r arbediad gwreithiol arfaethedig gan ei fod yn perthyn i wasanaeth arall (Eiddo). / £5k income needed to be taken out of the original saving proposal as it belonged to another service. (Property) |
| Oedolion / Adults | Gofal dydd/ Day care | Rhesymoli gwasanaethau dydd - Anableddau Dysgu/ Rationalisation of Day Services - Learning Disability | Trawsnewid Gwasnaeth / Service Transformation | 15 | Y gyllideb yn gorwario ar hyn o bryd, felly, nid yw'n bosib i gynnig arbediad. / Budget is currently overspending, therefore, it is not possible to propose this saving. |
| Priffyrdd Gwastraff ac Eiddo / Highways Waste & Property | Cyfleusterau Cyhoeddus / Public Conveniences | Allanoli Cyfleusterau Cyhoeddus a lleihau costau rhedeg y rhai sy'n cael eu cadw / Outsourcing Public Conveniences and reduce the running costs of those that are kept | Rhoi'r Gorau neu Trosglwyddo Gwasanaeth / Cessation or Transfer of Service | 24 | Yn dilyn gwaith a waned gan yr Adran Priffyrdd, ni fydd hi'n bosib i symud ymlaen gyda Chynlluniau Traeth Coch na Phorthdafarch. / Following work undertaken by the Highways Department, it will not be possible to move ahead with Traeth Coch or Porthdafarch Schemes at this time. |

| Gwasanaeth / Service | Cyllideb / Budget | Gweithred / Action | Categori / Category | Arbedion nad yw'n bosib eu gweithredu 2017/18 / Savings not possible to Implement 2017/18 £'000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Priffyrdd Gwastraff ac Eiddo / Highways Waste & Property | Staffio Ystadau / Estates Staffing | Adolygu trefniadau staffio / Review staffing arrangements | Arbedion a gynhyrchir drwy ail strwythuro staff / Savings generated through staff restructure | 37 | Yn dilyn adolygiad o'r strwythur, dim ond un swydd fydd hi'n bosib i'w dynnu o'r sefydliad. / Following the review of the structure, it will only be possible to remove one post from the establishment. |
| Priffyrdd Gwastraff ac Eiddo / Highways, Waste & Property | Staffio Cynnal a Chadw (Eiddo) / Maintenance Staffing (Property) | Adolygu trefniadau staffio / Review staffing arrangements | Arbedion a gynhyrchir drwy ail strwythuro staff / Savings generated through staff restructure | 15 | Dim ond £35k o'r arbedion effeithlonrwydd gwreiddiol arffaethedig o £50k sy'n bosib, gan fod £15k yn ymwneud â chyllidebau atgyweiriadau a cynnal a chadw sy'n eistedd yng ngwasanaethau arall. / Only £35k of the original proposed efficiency saving of £50k is possible as £15k relates to R & M budgets sitting in other services. |
| Trawsnewid / Transformation | Swyddi Gwag / Vacant Posts | Dileu y gyllideb am swyddi gwag tu fewn i'r gwasanaeth / Delete the budget for vacant posts within the service | Dileu swyddi gwag / Delete vacant posts | 40 | O'r £90k y cynigwyd yn wreiddiol, dim ond £50k y gellir ei gyflawni gan mai ond 1 o'r 2 swydd sydd ar y rhestr sefydliad, swydd tymor sefydlog odd y llall a ariannwyd drwy ffynonellau arall. / Of the £90k that was originally proposed only £50k can be achieved as only 1 of the 2 posts is on the establishment list the other post was a fixed term post funded through other sources. |

| Gwasanaeth / Service | Cyllideb / Budget | Gweithred / Action | Categori / Category | Arbedion nad yw'n bosib eu gweithredu 2017/18 / Savings not possible to Implement 2017/18<br><br>£'000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Trawsnewid / Transformation | Cyfathrebu / Communications | Arbedion costau Cyfryngau / Media Cost Savings | Rhoi'r Gorau neu Trosglwyddo Gwasanaeth / Cessation or Transfer of Service | 1 | Arbediad effeithlonrwydd arfaethedig gwreiddiol odd £3k, fodd bynnag, dim ond £2k oedd y gyllideb.<br>Original efficiency saving proposal was £3k however the budget was only £2k. |
| | | | **CYFANSWM / TOTAL** | **314** | |

**CYNIGION ARBEDION HEB EU CYNNWYS YN Y GYLLIDEB ARFAETHEDIG TERFYNOL**
**SAVINGS PROPOSALS NOT INCLUDED IN THE FINAL BUDGET PROPOSALS**

| Gwasanaeth/ Service | Cyllideb / Budget | Gweithred / Action | Categori/ Category | Arbedion ddim yn cael eu gweithredu 2017/18 / Savings not Implemented 2017/18 £'000 | |
|---|---|---|---|---|---|
| Addysg / Education | Ieuenctid / Youth | Trawsnewid Gwasanaeth Ieuenctid / Youth Servce Transformation | Trawsnewid Gwasnaeth / Service Transformation | 40 | Gostyngir yr arbedion arfaethedig yng nghyllideb y Gwasanaeth Ieuenctid i £50k, ond bydd yr arbediad gwirioneddol yn ddibynnol ar y penderfyniad terfynol ar y Gwasanaeth Ieuenctid. Bydd amryw o opsisynnau i'r Pwyllgor Gwaith ei ystyried. / The proposed savings in the Youth Service budget is reduced to £50k but the actual saving will be dependent on the final decision on the Youth Service. There will be various options for the Executive to consider. |
| Addysg / Education | Cludiant / Transport | Codi pris trafnidiaeth llai na 2 neu 3 milltir i adennill y gost yn llawn, sef o £80 y flwyddyn i £465 / Increase the cost of transport for pupils who live within 2 or 3 miles to fully recover the cost i.e. from £80 per annum to £465 | Cynhyrchu Incwm / Income Generation | 37 | Dangosodd yr ymgynghoriad cyhoeddus fod cynnydd o £80 i £465 yn cael ei ystyried i fod yn gynnydd afresymol. Bydd cynnydd o 310 y flwyddyn yn lleihau rhywfaint o'r diffyg yn incwm y gyllideb yma./ The public consultation showed that an increase from £80 to £465 was considered to be an unreasonable increase. A £10 increase per annum will reduce some of the shortfall in income for this budget |
| Addysg / Education | Blynyddoedd Cynnar / Early Years | Lleihau ein cyfraniadau i'r mudiadau blynyddoedd cynnar / Reduce our contribution towards early years organisations | Lleihad mewn grantiau / Reduction in Grants | 35 | Mae angen cynnal trafodaethau hefo Swfydliadau Blynyddoedd cyn gellir gwneud unrhyw benderfyniad ar hyn. / Negotiations with the Early Years Organisations need to be undertaken before any decision on this can be taken. |

| Gwasanaeth/ Service | Cyllideb / Budget | Gweithred / Action | Categori/ Category | Arbedion ddim yn cael eu gweithredu 2017/18 / Savings not Implemented 2017/18<br><br>£'000 | Gwasanaeth/ Service |
|---|---|---|---|---|---|
| Diwylliant / Culture | Llyfrgelloedd / Libraries | Trawsnewid y Gwasanaeth Llyfrgelloedd / Library Service Transformation | Trawsnewid Gwasnaeth / Service Transformation | 30 | Bydd yr arbedion arfaethedig yng Ngwasanaethau Llyfrgell yn cael eu gohirio am un flwyddyn ariannol i ganiatau cynnal ymgynghoriad llawn ac i aelodau'r Pwyllgor Gwaith gael manylion o'r holl opsiynnau ar gael iddynt. /<br>The proposed savings in the Library Services is to be delayed for one financial year in order to allow full consultation to take place and for the members of the Executive have details of all options available to them. |
| | | | **CYFANSWM / TOTAL** | **142** | |

**ATODIAD 4**

## CYNIGION ARBEDION HEB EU CYNNWYS YN Y GYLLIDEB ARFAETHEDIG DERFYNOL

| | Cyllideb Ddi-symyd yn dilyn Setliad Dros Dro £ | Addasiad i'r Gyllideb Ddisymud £ | Arbedion £ | Pwysau Cyllidebol £ | Cyllideb Arfaethedig Terfynnol 2017/18 £ |
|---|---|---|---|---|---|
| Addysg a Diwylliant | 49,086,030 | -45,380 | -1,100,000 | 715,000 | 48,655,650 |
| Gwasanaethau Oedolion | 22,759,490 | 185,000 | -559,000 | 425,000 | 22,810,490 |
| Gwasanaethau Plant | 7,611,780 | | 0 | 35,000 | 7,646,780 |
| Gwasanaethau Tai | 862,820 | | -41,000 | 205,000 | 1,026,820 |
| Amgylcheddol a Technegol | 14,102,090 | | -339,000 | | 13,763,090 |
| Cymunedol ac Adfywio Economaidd | 4,187,720 | 1,500 | -187,000 | | 4,002,220 |
| Trawsnewid Corfforaethol | 3,822,980 | | -79,000 | | 3,743,980 |
| Adnoddau (cynnwys Budd-daliadau a roddwyd) | 2,863,630 | 125,000 | -121,000 | 35,000 | 2,902,630 |
| Busnes y Cyngor | 1,525,480 | 10,000 | -18,000 | | 1,517,480 |
| Rheoli Corfforaethol | 760,580 | | | | 760,580 |
| **Cyfanswm Cyllidebau Gwasanaeth** | **107,582,600** | **276,120** | **-2,444,000** | **1,415,000** | **106,829,720** |
| Costau Corfforaethol a Democrataidd | 1,914,530 | | | | 1,914,530 |
| Ad-dalu i CRT | -621,950 | | | | -621,950 |
| Ardollau | 3,322,596 | 12,137 | | | 3,334,733 |
| Cyllido Cyfalaf | 8,854,332 | -705,000 | | | 8,149,332 |
| Rhyddhad Trethi Dewisol | 60,000 | | | | 60,000 |
| Cynllun Gostyngiadau'r Dreth Gyngor | 5,600,000 | | | | 5,600,000 |
| Cyfanswm Cyllidebau a Ddyranwyd | 126,712,108 | -416,743 | -2,444,000 | 1,415,000 | 125,266,365 |
| Cyllidebau Wrth Gefn a Chyffredinol | 1,547,000 | 30,000 | | -200,000 | 1,377,000 |
| **Cyfanswm Cyllideb 2017/18** | **128,259,108** | **-386,743** | **-2,444,000** | **1,215,000** | **126,643,365** |
| **Ariannwyd gan** | | | | | |
| Grant Cynnal Refeniw | 69,286,000 | 364,000 | | | 69,650,000 |
| Treth Annomestig Cenedlaethol | 23,002,000 | | | | 23,002,000 |
| Y Dreth Gyngor yn cynnwys Premiwm y Dreth Gyngor | 33,072,692 | 432,308 | | | 33,505,000 |
| Cronfeydd Wrth Gefn y Cyngor | | | | 490,000 | 490,000 |
| **Cyfanswm Cyllid** | **125,360,692** | **796,308** | **0** | **490,000** | **126,647,000** |
| **Balans i'r Gronfa Wrth Gefn Cyffredinol** | | | | | **-3,635** |

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **ADRODDIAD I:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **DYDDIAD:** | **14 CHWEFROR 2017** |
| **PWNC:** | **CYLLIDEB GYFALAF 2017/18** |
| **AELOD(AU) PORTFFOLIO:** | **Y CYNGHORYDD H E JONES** |
| **PENNAETH GWASANAETH:** | **MARC JONES** |
| **AWDUR YR ADRODDIAD:**<br>RHIF FFÔN:<br>E-BOST: | **MARC JONES**<br>01248 752601<br>rmjfi@ynysmon.gov.uk |
| **AELODAU LLEOL:** | **Amherthnasol** |

**Argymhelliad / Argymhellion a Rheswm / Rhesymau**

## 1. RHAGLEN GYFALAF 2017/18

### 1.1 Pwrpas

Rhaid i'r Pwyllgor Gwaith gynnig cyllideb gyfalaf ar gyfer 2017/18 a fydd yn cael ei chyflwyno i'r Cyngor Llawn yn ei gyfarfod ar 28 Chwefror 2017.

Yn yr adroddiad a ganlyn, ceir diweddariad o'r gyllideb gyfalaf ddrafft ar gyfer 2017/18 a gyflwynwyd i'r Pwyllgor Gwaith ar 7 Tachwedd 2016 (mae copi o'r adroddiad ynghlwm fel Atodiad 1).

## 2. STRATEGAETH GYFALAF AR GYFER 2017/18

**2.1** Roedd y cynllun cyfalaf drafft ar gyfer 2017/18 yn seiliedig ar strategaeth gyfalaf diwygiedig a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ar 17 Hydref 2016. Gellir crynhoi'r strategaeth fel a ganlyn:-

- Mae'r cyllid ar gyfer rhaglen gyfalaf 2017/18 wedi ei gyfyngu i werth y grant cyfalaf, lefel y benthyca â chymorth, unrhyw gyllid a ddyrannwyd i gynlluniau yn y gorffennol ac nad oes mwyach ei angen a gwerthu unrhyw dderbyniadau cyfalaf sydd heb eu dyrannu;
- Byddai benthyca digefnogaeth ond yn digwydd petai'r prosiect yn lleihau costau neu'n cynhyrchu incwm i lefel ddigonol i gwrdd â'r costau cyllido cyfalaf ychwanegol. Yr eithriad i hyn yw'r cyllid ar gyfer Rhaglen Ysgolion y 21ain Ganrif;
- Dyrennir swm bob blwyddyn i fuddsoddi mewn TG, Adeiladau'r Cyngor, Cerbydau a Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl;
- Caiff prosiectau a ariennir drwy grantiau eu hychwanegu at raglen gyfalaf 2017/18 unwaith y bydd lefel y cyllid yn hysbys;
- Bydd swm yn cael ei roi o'r neilltu ar gyfer prosiectau buddsoddi i arbed bychan a byddai'r rhain yn cael eu sgorio ar wahân i'r prosiectau newydd mawr;
- Byddai bidiau ar gyfer prosiectau newydd yn cael eu hasesu'n unol â'r matrics sgorio a ddefnyddiwyd yn 2016/17 a blaenoriaeth yn cael ei rhoi i brosiectau a fydd yn cynorthwyo'r Cyngor i gyflawni ei amcanion corfforaethol, yn lliniaru risgiau corfforaethol, yn cyflawni arbedion refeniw yn y dyfodol ac sy'n gallu dangos bod prosesau rheoli prosiect digonol wedi cael eu sefydlu.

## 3. CANLYNIADAU'R YMGYNGHORI

Fel rhan o'r broses ymgynghori, gofynnwyd i drigolion Ynys Môn a'r prif gydranddeiliaid eraill wneud sylwadau ar gynnwys y rhaglen gyfalaf. Roedd y prif bryder yn codi o'r ymgynghoriad yn gysylltiedig â chynllun y Cyngor i adeiladu safle parhaol a safle dros dro ar gyfer Sipsiwn a Theithwyr.

Er gwaethaf y sylwadau a wnaed yn yr ymgynghoriad, mae dyletswydd statudol ar y Cyngor i ddarparu safleoedd i gwrdd â'r anghenion a nodwyd yn yr Asesiad Anghenion Llety Sipsiwn a Theithwyr Ynys Môn a Gwynedd 2016, yn unol â Deddf Tai (Cymru) 2014 ac felly mae'r gwariant a gynlluniwyd yn aros o fewn y rhaglen gyfalaf.

**4. CYNLLUNIAU BENTHYCA DI-GEFNOGAETH POSIB**

Roedd 2 o gynlluniau benthyca di-gefnogaeth posib wedi eu cynnwys yn y rhaglen gyfalaf ddrafft, y naill yn ymwneud ag adeiladu cae pêl-droed 3G yng Nghanolfan Hamdden Plas Arthur a'r llall â phrynu offer ffitrwydd ar gyfer Canolfan Hamdden Caergybi. Mae'r ddau gynllun yn parhau i gael eu datblygu ac ni fydd modd symud ymlaen yn 2017/18. O'r herwydd, maent wedi cael eu tynnu o'r rhaglen gyfalaf ddrafft.

**5. PROSIECTAU BUDDSODDI I ARBED**

O'r 6 bid a gyflwynwyd, roedd 2 gynllun Buddsoddi I Arbed wedi eu cynnwys yn y rhaglen gyfalaf ddrafft. Un o'r cynlluniau a gefnogwyd oedd cynllun i adeiladu gwaith newydd i drin carthffosiaeth ar gyfer toiledau cyhoeddus Traeth Coch. Er bod bwriad i fwrw ymlaen gyda'r cynllun hwn, mae anawsterau wedi codi a all olygu oedi neu a all atal y cynllun rhag mynd yn ei flaen o gwbl. Y bwriad, felly, yw i'r cynllun a sgoriodd uchaf wedyn, sef cynllun lleihau costau ynni yn Ysgol Uwchradd Bodedern, gael ei gadw wrth gefn a'i weithredu oni fydd modd symud ymlaen gyda chynllun Traeth Coch. Amcangyfrifir y bydd y naill gynllun a'r llall yn costio £75k.

**6. ARGYMHELLIAD**

1. Bod y Pwyllgor Gwaith yn argymell y rhaglen gyfalaf isod i'r Cyngor Llawn:-

| | **£'m** |
|---|---|
| Cynlluniau yr ymrwymwyd iddynt ac a ddygwyd ymlaen o 2016/17 | 8.826 |
| Buddsoddi yn ein Hasedau Cyfredol (gan gynnwys Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl) | 2.301 |
| Prosiectau Buddsoddi i Arbed | 0.186 |
| Cynnal a Chadw Priffyrdd | 0.761 |
| Cynlluniau Cyfalaf Mawr Newydd | 11.675 |
| Ysgolion yr Unfed Ganrif ar Hugain | 6.865 |
| **Cyfanswm Cynlluniau Cyfalaf y Gronfa Gyffredinol** | **30.614** |
| Cynlluniau Cyfalaf CRT | 9.889 |
| **Cyfanswm y Gyllideb Gyfalaf Arfaethedig ar gyfer 2017/18** | **40.503** |

Mae gwybodaeth fanwl am y prosiectau sydd wedi eu cynnwys a'r modd y bwriedir eu cyllido ynghlwm yn Atodiad 2.

**B - Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a pham wnaethoch chi eu gwrthod ac/neu fynd am yr opsiwn hwn?**

Ystyriwyd nifer o fidiau wrth lunio'r rhaglen gyfalaf ddrafft.

**Pam fod hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae cynnig y gyllideb gyfalaf yn fater sydd wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH - A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â pholisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D - A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Amherthnasol

| DD - | Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dîm Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Ystyriwyd y strategaeth gyfalaf a'r rhaglen gyfalaf ddrafft gan yr UDA ym mis Medi 2016 ac fe gefnogwyd y ddwy ddogfen. Cefnogir yn ogystal y rhaglen gyfalaf derfynol. |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Amherthnasol – y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad hwn |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | Dim sylwadau penodol ac eithrio'r rheini a wnaed yn ystod trafodaethau yn yr UDA. |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth a Chyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / eraill** | |
| **E -** | **Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol)** | |
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrth-dlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniadau** | |
| 7 | **Eraill** | |

**Atodiadau:**

- Atodiad A – Adroddiad ar y Gyllideb Gyfalaf Ddrafft 2017/18 – Pwyllgor Gwaith 7 Tachwedd 2016
- Atodiad B – Cyllideb Cyfalaf Arfaethedig 2017/18

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch gydag awdur yr adroddiad am wybodaeth bellach os gwelwch yn dda):**

- Adroddiad ar y Strategaeth Gyfalaf – Pwyllgor Gwaith 19 Medi 2016

| CYNGOR SIR YNYS MÔN | |
|---|---|
| **Adroddiad i:** | **PWYLLGOR GWAITH** |
| **Dyddiad:** | **7 TACHWEDD 2016** |
| **Pwnc:** | **CYLLIDEB GYFALAF DDRAFFT 2017/18** |
| **Aelod(au) Portffolio:** | **Y CYNGHORYDD H E JONES** |
| **Pennaeth Gwasanaeth:** | **MARC JONES** |
| **Awdur yr Adroddiad:**<br>Rhif Ffôn:<br>E-bost: | **MARC JONES**<br>01248 752601<br>rmjfi@ynysmon.gov.uk |
| **Aelodau Lleol:** | **Amherthnasol** |

**A – Argymhelliad/Argymhellion a Rheswm/Rhesymau**

Gofynnir i'r Pwyllgor Gwaith ystyried y rhaglen gyfalaf arfaethedig ar gyfer 2017/18 a phenderfynu ar y cynnig terfynol ar gyfer ei gymeradwyo yn y flwyddyn newydd mewn perthynas â'r eitemau a ganlyn:-

- Cytuno i barhau i gyllido'r cynlluniau y gwnaed ymrwymiad iddynt fel y nodir ym mharagraff 3.2 – Cyfanswm o £8.826m ac, o hwnnw, daw £647k o gyllid craidd y Cyngor;
- Cytuno i gyllido gwariant ar grantiau cyfleusterau i'r anabl, atgyweirio adeiladau cyfredol, asedau TG a cherbydau fel y nodir ym mharagraff 3.3 – Cyfanswm o £2.301m;
- Cymeradwyo cyllido'r ddau brosiect Buddsoddi i Arbed sydd wedi sgorio uchaf fel y nodir ym mharagraff 3.4 - Cyfanswm o £0.186m;
- Cymeradwyo cyllido'r cynlluniau cyfalaf newydd a nodir ym mharagraff 3.6 – Cyfanswm o £11.675m ac, o hwnnw, daw £2.531m o gyllid craidd y Cyngor;
- Cymeradwyo cyllid o £0.76m ar Gynnal a Chadw Priffyrdd yn unol â pharagraff 3.5.

Ystyried a oes angen gwneud gwaith pellach i asesu hyfywedd cyllido'r ddau gynllun y manylir arnynt ym mharagraff 3.7 drwy fenthyciadau di-gefnogaeth.

Cymeradwyo'r rhaglen gyfalaf ar gyfer Ysgolion yr 21ain Ganrif ar yr amod y bydd adroddiad pellach yn cael ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith ar gyllido'r elfen benthyciadau digefnogaeth o'r rhaglen.

Cymeradwyo cynnwys y cynlluniau Cyfrif Refeniw Tai, fel y nodir ym mharagraff 5, yn y rhaglen gyfalaf derfynol - Cyfanswm o £9.889m.

Mae'r adroddiad manwl ar y rhaglen gyfalaf arfaethedig ynghlwm fel Atodiad 1 – 6.

**B – Pa opsiynau eraill wnaethoch chi eu hystyried a beth oedd eich rhesymau dros eu gwrthod ac/neu ddewis yr opsiwn hwn?**

Amherthnasol

**C – Am ba reswm y mae hwn yn benderfyniad i'r Pwyllgor Gwaith?**

Mae hwn yn fater sydd wedi ei ddirprwyo i'r Pwyllgor Gwaith.

**CH – A yw'r penderfyniad hwn yn gyson â'r polisi a gymeradwywyd gan y Cyngor llawn?**

Ydi

**D – A yw'r penderfyniad hwn o fewn y gyllideb a gymeradwywyd gan y Cyngor?**

Ydi

| DD – Gyda phwy wnaethoch chi ymgynghori? | | Beth oedd eu sylwadau? |
|---|---|---|
| 1 | **Prif Weithredwr / Uwch Dim Arweinyddiaeth (UDA)** (mandadol) | Mae sylwadau'r UDA wedi cael eu hymgorffori yn yr adroddiad |
| 2 | **Cyllid / Adran 151** (mandadol) | Amherthnasol – y Swyddog Adran 151 yw awdur yr adroddiad |
| 3 | **Cyfreithiol / Swyddog Monitro** (mandadol) | I'w gadarnhau |
| 4 | **Adnoddau Dynol (AD)** | |
| 5 | **Eiddo** | |
| 6 | **Technoleg Gwybodaeth Cyfathrebu (TGCh)** | |
| 7 | **Sgriwtini** | |
| 8 | **Aelodau Lleol** | |
| 9 | **Unrhyw gyrff allanol / arall/eraill** | |

| E – Risgiau ac unrhyw gamau lliniaru (os yn berthnasol) | | |
|---|---|---|
| 1 | **Economaidd** | |
| 2 | **Gwrthdlodi** | |
| 3 | **Trosedd ac Anhrefn** | |
| 4 | **Amgylcheddol** | |
| 5 | **Cydraddoldebau** | |
| 6 | **Cytundebau Canlyniad** | |
| 7 | **Arall** | |

**F - Atodiadau:**

- Atodiad 1 – Adroddiad ar y Rhaglen Gyfalaf Arfaethedig ar gyfer 2017/18
- Atodiad 2 – Manylion y Rhaglen Gyfalaf Arfaethedig ar gyfer 2017/18
- Atodiad 3 – Prosiectau Buddsoddi i Arbed
- Atodiad 4 – Sgorio Prosiectau Cyfalaf Newydd
- Atodiad 5 – Matrics Sgorio ar gyfer Cynlluniau Cyfalaf Newydd
- Atodiad 6 – Crynodeb o'r Cyllid Cyfalaf ar gyfer y Rhaglen Arfaethedig

**FF - Papurau Cefndir (cysylltwch os gwelwch yn dda gydag awdur yr Adroddiad am unrhyw wybodaeth bellach):**

**ATODIAD 1**

# CYLLIDEB CYFALAF DDRAFFT 2017/18

## 1. CYFLWYNIAD

**1.1** Yn ei gyfarfod ar 17 Hydref 2016, cymeradwyodd y Pwyllgor Gwaith y Strategaeth Gyfalaf mewn perthynas â chyllideb 2017/18. Yn y strategaeth, nodwyd y blaenoriaethau a oedd i'w hymgorffori yn y rhaglen gyfalaf a oedd yn cynnwys: -

- Cynnal ac uwchraddio asedau cyfredol y Cyngor (gan gynnwys asedau TG, cerbydau ac adeiladau presennol);
- Darparu swm ar gyfer grantiau cyfleusterau i'r anabl;
- Cynlluniau y gwnaed ymrwymiad iddynt ac a gychwynnodd yn 2016/17;
- Cynlluniau sy'n tynnu i lawr gyfraniadau grant sylweddol sydd angen ond y cyllid cyfatebol lleiaf gan y Cyngor;
- Prosiectau llai Buddsoddi i Arbed.

**1.2** Penderfynodd y Pwyllgor Gwaith hefyd i asesu cynlluniau Ysgolion y 21ain Ganrif y dyfodol ar wahân i'r brif raglen cyllido cyfalaf.

**1.3** Gwahoddwyd bidiau gan wasanaethau a chawsant eu hasesu yn erbyn y system sgorio gorfforaethol er mwyn blaenoriaethu'r rhai a oedd yn cael eu hargymell i'w cymeradwyo.

## 2. CYLLID AR GAEL

**2.1** Mae'r cyllid craidd sydd ar gael ar gyfer cyllideb gyfalaf cronfa gyffredinol 2017/18 i'w weld yn Nhabl 1 isod:-

**Tabl 1**
**Cyllid Cyfalaf Craidd y Gronfa Gyffredinol**

| **Ffynhonnell Ariannu** | **£ 'm** |
|---|---|
| Grant Cyfalaf Cyffredinol (yn unol â'r Setliad Dros Dro) | 1.340 |
| Benthyca â Chymorth (yn unol â'r Setliad Dros Dro) | 2.203 |
| Derbyniadau cyfalaf | 1.522 |
| 2016/17 Arian na chafodd ei ddefnyddio ac a ddygwyd ymlaen | 0.564 |
| Cyfraniad Refeniw Wrth Gefn heb ei neilltuo | 0.506 |
| **Cyfanswm Cyllid Cyfalaf Craidd y Gronfa Gyffredinol** | **6.135** |

**2.2** Yn ogystal â'r cyllid cyfalaf craidd hwn, bydd y prosiectau yn cael eu hariannu yn rhannol neu'n llawn gan grantiau allanol a dynnir i lawr wrth i'r cynllun fynd yn ei flaen.

**2.3** Mae'r rhaglen Ysgolion yr 21ain Ganrif yn derbyn cyllid o 50% gan Lywodraeth Cymru ar ffurf grantiau a chymorth i fenthyca, gyda'r Cyngor yn cyllido ei 50% ef drwy fenthyciadau digefnogaeth. Bydd amseriad y cyllid yn gysylltiedig â'r cynnydd a wneir ar yr ysgolion newydd sy'n cael eu hadeiladu.

**2.4** Bydd y Cyfrif Refeniw Tai hefyd yn cael ei raglen gyfalaf ei hun, a ariennir yn bennaf o'i adnoddau ei hun a gynhyrchir drwy osod eiddo ac o'r Lwfans a geir gan Lywodraeth Cymru ar gyfer Gwaith Trwsio Mawr.

## 3. RHAGLEN GYFALAF CRONFA GYFFREDINOL 2017/18

**3.1** Yn unol â'r Strategaeth Gyfalaf a gymeradwywyd gan y Pwyllgor Gwaith ar 17 Hydref 2016, mae cyllid wedi cael ei ddyrannu yn y lle cyntaf i'r cynlluniau yn ôl trefn eu blaenoriaeth yn y strategaeth. Mae manylion llawn yr holl gynlluniau ynghlwm fel Atodiad 2.

## 3.2 Cynlluniau ymrwymedig

### 3.2.1 Gweithredu CCIS

Dyrannwyd £75k i'r cynllun hwn yn 2016/17 ac, yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2015/16, nodwyd ymrwymiad am £25k pellach yn 2017/18. Mae'r amcangyfrif o gostau cwblhau'r prosiect wedi cynyddu i £65k. Yn ogystal, mae'r Gwasanaeth wedi adnabod costau refeniw na ellir eu hariannu trwy'r rhaglen gyfalaf i weithredu'r prosiect (£76k yn 2017/18 a £50k yn 2018/19). Ar hyn o bryd, nid oes cyllid ar gael i gwrdd â'r costau ychwanegol hyn.

### 3.2.2 Gorchymyn Prynu Gorfodol

Bydd un eiddo'n cael ei werthu cyn bo hir a bydd hyn yn cynyddu'r arian sydd ar gael yn ôl i £192k, bydd £8k ychwanegol yn cael ei ddyrannu i fynd â'r gronfa yn ôl i £200k.

### 3.2.3 Porth Ymwelwyr Ynys Cybi

Mae'r Pwyllgor Gwaith wedi penderfynu yn flaenorol i glustnodi swm cyfalaf bychan (£40k yn 2017/18) fel y gellir tynnu i lawr oddeutu £4m o gyllid allanol (gweler Rhaglen y Pwyllgor Gwaith 18 Gorffennaf, 2016 - Eitem 9).

### 3.2.4 Lôn Wylfa Newydd

Er mai'r Cyngor fel yr Awdurdod Priffyrdd fydd yn gweithio ar y cynllun, bydd y costau yn cael eu hariannu'n llawn o ffynonellau allanol ac nid oes angen cyfraniad gan y Cyngor.

### 3.2.5 Ffordd Gyswllt Llangefni

Mae'r cynllun yn cael ei gynllunio dros gyfnod o 3 blynedd, gyda gwerth £3.4m o waith wedi ei gynllunio ar gyfer 2017/18 a £2.9m pellach wedi ei gynllunio ar gyfer 2018/19. Cyfraniad y Cyngor yw 10% o gost y cynllun, sy'n golygu y bydd angen dyrannu £342k yn 2017/18 a £290k pellach yn 2018/19. Bydd cyfanswm cyfraniad y Cyngor dros 3 blynedd y cynllun yn £905k.

## 3.3 Cynnal a Chadw Asedau Presennol

### 3.3.1 Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl

Mae gofyniad statudol i ddarparu grantiau er mwyn darparu cyfleusterau i'r anabl mewn cartrefi yn y sector preifat, er nad oes awgrym ynghylch lefel y cyllid y mae'n rhaid ei ddyrannu. Cyflwynodd y Gwasanaeth Tai fid am ragor na £800k ond, o ystyried yr ymrwymiadau a'r galwadau eraill ar y cyllid a oedd ar gael, dyrannwyd swm dros dro o £750k.

### 3.3.2 Gwelliannau i Adeiladau'r Cyngor

Mae swm dros dro o £1m wedi ei glustnodi ac mae'r arian hwn wedi cael ei ddyrannu gan y tîm Gwasanaethau Eiddo fel a ganlyn - £300k ar gyfer mynediad i'r anabl mewn ysgolion, £500k ar gyfer gwaith adnewyddu cyffredinol mewn ysgolion a £200k ar gyfer adnewyddu adeiladau nad ydynt yn rhai ysgol.

**3.3.3 Buddsoddi mewn TG**

Mae swm o £400k wedi cael ei ddyrannu dros dro i - gynnal isadeiledd craidd (£150k), i uwchraddio cyfrifiaduron personol a gliniaduron (£100k) ac i dalu costau trwyddedu (£101k). Bydd y costau hyn yn codi bob blwyddyn. Yn ogystal, mae bid o £50k wedi cael ei chynnwys yn y rhaglen gyfalaf dros dro i ariannu'r gost o symud systemau o hen serfwyr. Bydd angen swm blynyddol llai o £20k yn y dyfodol er mwyn parhau â'r gwaith hwn.

**3.3.4 Cerbydau**

Mae swm blynyddol o £150k wedi'i ddyrannu i adnewyddu cerbydau. Dylid nodi hefyd bod posibilrwydd y bydd cais am gyllid i brynu cerbyd llyfrgell newydd yn cael ei gyflwyno, ond mae hyn yn dibynnu ar ganlyniad yr adolygiad o'r gwasanaethau llyfrgell. Yn ogystal, bydd angen i fflyd y Cyngor o lorïau graeanu gael ei hadnewyddu ar ryw adeg yn y dyfodol, ond mae hyn yn dibynnu ar y defnydd a wneir ohonynt yn ystod y gaeaf yma. Mae cerbyd graeanu newydd yn costio tua £120k.

**3.4 Prosiectau Buddsoddi i Arbed**

**3.4.1** Yn ystod yr haf, gwahoddwyd gwasanaethau i gyflwyno ceisiadau am arian o'r £1m a ryddhawyd o gronfeydd wrth gefn. Derbyniwyd nifer o geisiadau o natur cyfalaf a fyddai'n sicrhau arbedion refeniw yn y dyfodol. Roedd wyth o geisiadau yn y categori hwn, er bod dau bellach wedi derbyn cyllid drwy gyllid Buddsoddi i Arbed Llywodraeth Cymru. Cafodd y 6 cais arall eu hasesu a'u sgorio (gweler Atodiad 3). O ystyried y cyfyngiadau ar gyllid, mae £186k wedi cael ei ddyrannu dros dro i'r ddwy fid gyda'r sgôr uchaf. Bydd y ceisiadau sy'n weddill yn cael eu cario drosodd i 2018/19.

**3.5 Cynnal a Chadw Priffyrdd**

**3.5.1** Yn y blynyddoedd diwethaf, dyrannwyd tua £2m i gynlluniau cyfalaf ar gyfer cynnal a chadw priffyrdd. Dyrannwyd y cyllid i ddechrau drwy Fenter Benthyciadau Llywodraeth Cymru i Lywodraeth Leol a oedd yn rhoi cymorth i awdurdodau lleol gwrdd â'r costau benthyca. Mae'r cynllun hwn wedi dod i ben ac, os bydd y Cyngor yn parhau i ariannu buddsoddiad mewn prosiectau gwaith cynnal a chadw priffyrdd, bydd rhaid iddo wneud hynny naill ai drwy ei gyllid cyfalaf craidd neu drwy fenthyca digefnogaeth. Mae'r Pennaeth Gwasanaeth wedi cyflwyno gwerth £50k o arbedion refeniw, ond bydd angen £761k o gyllid cyfalaf i sicrhau bod isafswm gwerth y contract yn cael ei gyflawni.

**3.5.2** Mae'r Pennaeth Gwasanaeth wedi gofyn am £2.2m o gyllid cyfalaf sydd yn unol â symiau blaenorol a neilltuwyd, a bydd y lefel hon o wariant yn sicrhau bod y rhwydwaith ffyrdd yn cael ei gynnal i'w safon bresennol. O ystyried yr ymrwymiadau a'r ceisiadau eraill am arian cyfalaf, dengys y broses ddyrannu gychwynnol y byddai angen benthyca £1.730m di-gefnogaeth i gwrdd â'r lefel gyllido hon. Mae benthyca digefnogaeth yn arwain at gostau refeniw ychwanegol i'r Cyngor (Tâl Darpariaeth Refeniw Isaf (MRP) a chostau llog). Petai £1.730m yn cael ei fenthyca'n ddigefnogaeth, byddai'r tâl MRP a'r costau llog blynyddol oddeutu £140k, sydd £90k yn uwch na'r arbedion arfaethedig yn y gyllideb refeniw cynnal a chadw.

**3.5.3** Nid yw gostwng y gyllideb refeniw ar gyfer cynnal a chadw priffyrdd a chynyddu gwariant cyfalaf i ddod â'r gwariant cyffredinol yn ôl i o leiaf werth isaf y contract yn gynaliadwy os yw'r gwariant cyfalaf yn cael ei ariannu drwy fenthyca digefnogaeth. Mae costau cyllido cyfalaf benthyciadau digefnogaeth, hyd yn oed os yw hynny ond yn dod â'r gwariant cyffredinol yn ôl at werth isaf y contract, yn fwy na'r arbedion yn y gyllideb refeniw cynnal a chadw a byddai'n rhaid parhau i ariannu'r gost cyllido cyfalaf yn y flwyddyn dilynol bydd y toriad yn y gyllideb refeniw ar gyfer gwaith cynnal a chadw wedi digwydd ond ni fydd unrhyw gyllid cyfalaf ychwanegol ar gael i ddod â'r gwariant cyffredinol yn ôl at isafswm gwerth y contract.

**3.5.4** Felly, ar gyfer 2017/18, cynigir bod y cyllid cyfalaf ar gyfer cynnal a chadw priffyrdd yn cael ei osod ar £761k, gyda £470k yn cael ei ariannu drwy fenthyca â chymorth a £291k yn cael ei ariannu drwy fenthyca digefnogaeth. Bydd hyn yn golygu cynnydd o £22k yn y costau cyllido cyfalaf. Er mwyn ariannu'r gost ychwanegol hon, mae angen gostwng y gyllideb refeniw ar gyfer cynnal a chadw priffyrdd gan £72k, a fydd yn ariannu'r costau cyllido cyfalaf ychwanegol ac yn golygu gostyngiad o £50k yn y gyllideb refeniw cyffredinol a gynigiwyd yn wreiddiol gan y Pennaeth Gwasanaeth.

**3.5.5** Bydd angen gwneud gwaith pellach cyn pennu cyllideb 2018/19 i sicrhau bod modd dod o hyd i ateb cynaliadwy i'r mater hwn, lle bydd digon o arian cyfalaf yn dod o'r cyllid cyfalaf craidd fel y gellir cynnal safon y priffyrdd, bod modd cyflawni isafswm gwerth y contract a sicrhau nad yw'r Cyngor yn mynd i gostau ariannu cyfalaf ychwanegol drwy fenthyca digefnogaeth.

### 3.6 Cynlluniau Cyfalaf Newydd

**3.6.1** Gwahoddwyd gwasanaethau i gyflwyno ceisiadau am gyllid er mwyn ymgymryd â chynlluniau cyfalaf newydd a chafodd y rhain eu hasesu yn erbyn y broses sgorio a ddefnyddiwyd yn flaenorol (gweler Atodiadau 4 a 5). Mae'r cynlluniau canlynol wedi eu cael eu cynnwys dros dro yn y rhaglen gyfalaf ar gyfer 2017/18:-

- Cartref Gofal Ychwanegol yn ardal Seiriol - £1m – ond, os bydd y cynllun yn cael ei gyflawni drwy'r Cyfrif Refeniw Tai, nodir efallai na fydd angen am gyfraniad o'r Gronfa Gyffredinol tuag at gost y cynllun;
- Isadeiledd Strategol Caergybi a Llangefni - bydd y rhan fwyaf o'r arian yn dod o grantiau allanol gyda'r Cyngor yn cyfrannu £70k fel arian cyfatebol;
- Cartref Garreglwyd – angen £250k o fuddsoddiad fel y gellir datblygu'r cartref preswyl presennol yn gyfleuster gofal dementia arbenigol;
- Safleoedd Sipsiwn a Theithwyr – bydd cyllid grant ar gael mewn perthynas â'r safle parhaol, ond bydd cost y safleoedd dros dro yn disgyn ar y Cyngor. Mae angen gwaith pellach o ran sicrhau y ceir y grant mwyaf posibl a chostio'r cynigion terfynol;
- Gwaith Lliniaru Llifogydd ym Miwmares a Phentraeth - rhagwelir y bydd cyllid ar gael gan Lywodraeth Cymru i gwrdd â'r rhan fwyaf o'r costau ond bydd angen cyfraniad gan y Cyngor.

### 3.7 Cynlluniau Benthyca Digefnogaeth Posibl

#### 3.7.1 Cae Pêl-droed 3G yng Nghanolfan Hamdden Plas Arthur

Mae'r cae cyfredol yn 15 mlwydd oed ac yn agosáu at ddiwedd ei oes ddefnyddiol. Wrth i amser fynd heibio, mae costau atgyweirio a chynnal a chadw yn cynyddu ac, oherwydd y problemau gyda'r arwyneb a draenio, mae sesiynau'n gorfod cael eu canslo yn ystod tywydd gwlyb neu pan fydd hi'n rhewi. Mae hyn yn golygu bod y Ganolfan yn colli incwm. Byddai cyfleuster newydd yn gostwng costau rhedeg ac yn cynyddu lefelau incwm. Bydd angen £150k o fuddsoddiad cyfalaf ar gyfer y cynllun, er mae'n bosibl y bydd rhywfaint o gyllid grant ar gael. Er nad oedd y cynllun yn sgorio'n ddigon uchel yn erbyn bidiau eraill, bwriedir gwneud gwaith pellach ar y cais hwn i benderfynu a fyddai benthyca digefnogaeth yn hyfyw yn ariannol.

#### 3.7.2 Offer Ffitrwydd newydd ar gyfer Canolfan Hamdden Caergybi

Mae'r fid yn un i adnewyddu'r hen offer ffitrwydd yng Nghanolfan Hamdden Caergybi i gyd-fynd â'r buddsoddiad sydd wedi'i wneud yng Nghanolfannau Hamdden Amlwch a Phlas Arthur. Bydd y buddsoddiad hwn o gymorth i ddal gafael ar y cwsmeriaid presennol a denu cwsmeriaid newydd a bydd yn cynyddu lefelau incwm. Unwaith eto, nid oedd y cais hwn yn sgorio mor uchel â'r bidiau eraill a dderbyniwyd ond, o ystyried y potensial ar gyfer cynnydd mewn incwm, efallai bod sgôp i ymgymryd â'r cynllun hwn drwy fenthyca digefnogaeth. Cynigir, felly, y dylid gwneud gwaith pellach er mwyn penderfynu a yw'r cynllun hwn yn hyfyw yn ariannol.

### 3.8 Cynlluniau na chawsant eu Cefnogi

**3.8.1** Y cynlluniau canlynol a gyflwynwyd dderbyniodd y sgôr isaf ac nid ydynt wedi cael eu cefnogi ar hyn o bryd oherwydd diffyg cyllid:-

- gwaith adnewyddu ym Mhlas Mona;
- gwaith adnewyddu ym Mhlas Crigyll;
- Gwaith Trîn Carthffosiaeth;
- Sharepoint.

**3.8.2** Cyflwynwyd dwy fid ar gyfer astudiaethau dichonoldeb. Fel arfer, ni fedrir cyfalafu costau Astudiaethau Dichonoldeb oherwydd nid ydynt yn creu ased. Os bydd astudiaeth ddichonoldeb wedyn yn arwain at gynllun cyfalaf sy'n creu ased, yna mae'n bosibl i gyfalafu costau'n ôl-weithredol, os bydd cysylltiad uniongyrchol rhwng y costau a dichonolrwydd yr opsiwn a ddewiswyd.

## 4. YSGOLION YR 21 ain GANRIF

**4.1** Mae'r rhaglen gyfalaf dros dro yn cynnwys prosiectau ar gyfer yr ysgolion ym Mand A. Bydd cyfanswm y gost ar gyfer y cynlluniau hyn dros y 4 blynedd nesaf yn £21.06m a byddai cyfraniad y Cyngor yn £10.5m.

**4.2** Yn 2017/18, mae gwaith gwerth £6.865m wedi cael ei gynllunio a bydd £1.27m yn cael ei ariannu o grantiau gan Lywodraeth Cymru, £1.27m drwy fenthyca â chymorth a £4.326m drwy fenthyciadau digefnogaeth.

**4.3** Fel y penderfynwyd gan y Pwyllgor Gwaith yn ei gyfarfod ar 17 Hydref 2016, mae angen gwneud gwaith pellach i asesu fforddiadwyedd y rhaglen.

## 5. Y CYFRIF REFENIW TAI

**5.1** Bwriedir gwneud gwaith gwerth £9.9m dan y Cyfrif Refeniw Tai yn ystod 2017/18 a hynny'n bennaf i ddatblygu 30 o unedau ychwanegol ac i adnewyddu eiddo presennol. Mae arian hefyd wedi cael ei ddyrannu i gwblhau'r gwaith adnewyddu yn Llawr y Dref, i brynu cerbydau newydd a gwella effeithlonrwydd tanwydd yn y depo HMU. Gwnaed cais hefyd ar gyfer prynu offer, ond mae'r gwerth yn is na'r lefel de-minimus a bydd yn cael ei ariannu'n uniongyrchol o gyllidebau refeniw.

**5.2** Mae gwaith yn mynd yn ei flaen i benderfynu a yw'n ddichonol ac yn ariannol ymarferol i wneud y cyfleuster gofal ychwanegol i'r ardal Seiriol drwy'r Cyfrif Refeniw Tai. Nid yw'r cynllun wedi ei gynnwys yn y rhaglen gyfalaf ddrafft ar gyfer 2017/18 ond efallai bydd y Cyngor mewn sefyllfa i gynnwys y cynllun yn y rhaglen gyfalaf terfynol cyn ei gymeradwyo yn Chwefror 2017.

## 6. COSTAU TÂL CYFARTAL

**6.1** Mae'r Cyngor hefyd yn debygol o wynebu costau sylweddol yn ymwneud â thâl cyfartal a bydd yn gwneud cais am Gyfarwyddyd Cyfalafu i ariannu'r costau hyn. Nid yw cost y tâl cyfartal wedi cael ei feintoli ond mae'n debygol o fod yn sylweddol (o leiaf £2.15m) a bydd yn ychwanegol at y prosiectau yn Rhaglen Gyfalaf 2017/18 a nodwyd yn yr adroddiad hwn os bydd ôl-dâl y Tâl Cyfartal yn cael ei dalu yn 2017/18. Efallai y bydd angen ariannu hyn drwy fenthyciadau digefnogaeth os nad oes cyllid cyfalaf arall ar gael.

## 7. CRYNODEB O'R RHAGLEN GYFALAF

**7.1** Cyfanswm y rhaglen gyfalaf arfaethedig ar gyfer 2017/18 (gan gynnwys Ysgolion yr 21ain Ganrif a'r Cyfrif Refeniw Tai) yw £40.865m. Bydd £21.258m (52%) yn cael ei ariannu o ffynonellau cyllid allanol gyda'r gweddill yn cael ei ariannu o ffynonellau'r Cyngor ei hun, sy'n cynnwys £3.472m o fenthyca gyda chymorth a £4.979m o fenthyca digefnogaeth. Bydd y £11.156m sy'n weddill yn cael ei ariannu o'r Grant Cyfalaf Cyffredinol, Derbyniadau Cyfalaf a chronfeydd wrth gefn y Cyngor ei hun. Mae dadansoddiad llawn yn Atodiad 6.

| Economaidd ac Adfywio | Cae 3G yng Nghanolfan Hamdden Plas Arthur | Bydd y prosiect yn golygu newid yr hen gae pêl-droed pob tywydd yng Nghanolfan Hamdden Plas Arthur sydd wedi dod i ddiwedd ei oes. Bydd hyn yn gwella syniadau negyddol ac yn bodloni disgwyliadau cwsmeriaid gan fod nifer bellach wedi gadael yr adnodd er mwyn hyfforddi ar gae newydd pob tywydd 3G CPD Dinas Bangor. Bydd buddsoddi rŵan yn golygu y bydd gan ein clybiau lleol adnodd a fydd y cyntaf o’i fath ar yr Ynys. Mae Ynys Môn yn un o’r ychydig siroedd heb gae 3G o fewn yr Awdurdod, y weledigaeth gan yr FAW yw bod angen cae 3G ar Ynys Môn er mwyn bodloni’r hyn a nodir yn y ddogfenCanllawiau a Gweledigaeth Cae Pob Tywydd Cymru Gyfan. Mae’r buddsoddiad yn siŵr o’n helpu ni i gyrraedd ein targed o 60% o ostyngiad mewn costau gwariant ar hamdden i’r Cyngor. | | 150 | B - Adfywio ein Cymunedau a Datblygu'r Economi | Adfywio Cymunedau Llewyrchus | 200 | 150 | 200 | | 100 | 50 | 700 |

| Adran | Cynllun Arfaethedig | Disgrifiad Byr | Blwyddyn y dechreuodd y prosiect/y bydd yn dechrau | 2017/18 Cost Blwyddyn 1 (£'000) | Blaenoriaeth corfforaethol mae'n fodloni | Pa ran o'r flaenoriaeth y mae'n cwrdd | Cyfraniad y Prosiect i flaenoriaethau corfforaethol | Lefel o risg corfforaethol mae'r prosiect yn liniaru | Angen cydymffurfio gyda chyfrifoldebau statudol, iechyd, DDA er mwyn lliniaru'r her | Lefel y cyllid ar y cyd / cyfatebol a allai fod ar gael | Effaith ffafriol ar y gyllideb refeniw neu'r potensial buddsoddi i arbed | Cadernid y Rheolaeth Prosiect | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Economaidd ac Adfywio | Offer Ffitrwydd Canolfan Hamdden Caergybi | Bydd y prosiect yn cynnwys newid a diweddaru'r holl offer ffitrwydd yn ystafell ffitrwydd Canolfan Hamdden Caergybi er mwyn sicrhau bod yr holl gwsmeriaid yn gallu cael profiad ffitrwydd modern (yn cynnwys ystafell ffitrwydd). Bydd hyn yn gwella syniadau negyddol ac yn bodloni gofynion ac anghenion cwsmeriaid. Mae buddsoddiadau yng Nghanolfan Hamdden Amlwch a Phlas Arthur wedi profi'n gadarnhaol gyda nifer uwch bellach yn defnyddio'r adnodd ac incwm uwch. Mae Caergybi bellach angen buddsoddiad gan ei fod wedi methu allan ar fuddsoddiadau yn yr ystafell ffitrwydd dros y blynyddoedd gyda'r offer bellach yn colli ei apêl. Mae'r buddsoddiad yn siŵr o'n helpu ni i gyrraedd ein targed o 60% o ostyngiad mewn costau gwariant ar hamdden i'r Cyngor. | 2017/18 | 212 | B - Adfywio ein Cymunedau a Datblygu'r Economi | Adfywio Cymunedau Llewyrchus | 200 | 150 | 200 | 0 | 100 | 50 | 700 |
| Tai | Sipsiwn a Theithwyr | Mae'r cais cyfalaf ar gyfer prynu tir ar gyfer ei ddatblygu yn safleoedd Sipsiwn a Theithwyr fel sydd wedi'i adnabod yn yr Asesiad adnabod anghenion llety teithwyr a sipsiwn ar gyfer Ynys Môn. | 2017/18 | 1,301 | D - Cynyddu ein Hopsiynau Tai a Lleihau Tlodi | | 300 | 200 | 150 | 0 | 0 | 35 | 685 |
| Gwasanaethau Oedolion | Plas Mona | Mae Cartref Gofal Preswyl Plas Mona yn gartref gofal dementia 28 gwely arbenigol sydd wedi'i leoli ym mhentref Llanfair PG. Mae adolygiad blynyddol wedi'i ymgymryd ag ef er mwyn adnabod unrhyw faterion cysylltiedig â'r adeilad o ran y ddarpariaeth gofal preswyl mewnol. Mae rhaglen ailwampio Plas Mona yn cynnwys:<br>Mynedfa newydd i'r ardal allanol o'r ystafell fwyta<br>Creu ardal allanol hawdd ei defnyddio a diogel yng nghefn yr adeilad<br>Addurno ystafelloedd gymunedol | 2017/18 | 50 | A - Trawsnewid Gofal Cymdeithasol Oedolion | Datblygu darpariaeth gwasanaeth ar y cyd a rheolaeth yn enwedig mewn perthynas â dementia, gwasanaethau pobl hŷn yn gyffredinol a chymorth i ofalwyr er mwyn cydlynu gwell darpariaeth o wasnaethau, mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd. | 100 | 150 | 150 | 0 | 100 | 50 | 550 |
| Gwasanaethau Oedolion | Plas Crigyll | Mae Cartref Gofal Preswyl Plas Crigyll yn gartref dementia 25 gwely arbenigol sydd wedi'i leoli ym mhentref Bryngwran. Mae adolygiad blynyddol wedi'i ymgymryd ag ef er mwyn adnabod unrhyw faterion cysylltiedig â'r adeilad o ran y ddarpariaeth gofal preswyl mewnol. Mae rhaglen ailwampio Plas Crigyll yn cynnwys:<br>Ffenestri dwbl ar gyfer yr holl ffenestri presennol<br>25 drws mewnol newydd<br>Adnoddau cegin newydd mewn dwy uned<br>Mynedfa newyddi i'r tu allan o'r lolfa gymunedol | 2017/18 | 75 | A - Trawsnewid Gofal Cymdeithasol Oedolion | Datblygu darpariaeth gwasanaeth ar y cyd a rheolaeth yn enwedig mewn perthynas â dementia, gwasanaethau pobl hŷn yn gyffredinol a chymorth i ofalwyr er mwyn cydlynu gwell darpariaeth o wasnaethau, mewn partneriaeth gyda'r Bwrdd Iechyd. | 100 | 150 | 150 | 0 | 100 | 50 | 550 |
| Rheoli Gwastraff | Trin Carthffosiaeth Hanfodol | Gosod pecyn gwaith trin carthffosiaeth neu dylid ystyried prynu tir er mwyn gosod tanc septig. Byddai angen cyflogi ymgynghorwyr er mwyn cynnal arolwg mwy manwl a fyddai'n adnabod costau cyllidebol a ragwelir y byddant tua £100k.<br><br>Yn dilyn hynny, byddai costau bach er mwyn cynnal a chadw blynyddol offer o'r fath/cyflenwad trydan ac ati, fodd bynnag, rhagwelir y gellid trosglwyddo'r rhain i drydydd parti, yn amodol ar gytundeb cyfreithiol newydd rhwng pawb perthnasol. | 2017/18 | 105 | | | 0 | 150 | 200 | 0 | 0 | 50 | 400 |

| Adran | Cynllun Arfaethedig | Disgrifiad Byr | Blwyddyn y dechreuodd y prosiect/y bydd yn dechrau | 2017/18 Cost Blwyddyn 1 (£'000) | Blaenoriaeth corfforaethol mae'n fodloni | Pa ran o'r flaenoriaeth y mae'n cwrdd | Cyfraniad y Prosiect i flaenoriaethau corfforaethol | Lefel o risg corfforaethol mae'r prosiect yn liniaru | Angen cydymffurfio gyda chyfrifoldebau statudol, iechyd, DDA er mwyn lliniaru'r her | Lefel y cyllid ar y cyd / cyfatebol a allai fod ar gael | Effaith ffafriol ar y gyllideb refeniw neu'r potensial buddsoddi i arbed | Cadernid y Rheolaeth Prosiect | Cyfanswm |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| TGCh | Sharepoint EDM | Mae'r Cyngor wedi ymrwymo i ddatblygu "gwasanaethau gwell, mwy modern, gwella effeithlonrwydd, lleihau costau tymor hir, gwella cymhelliant ac ymestyn gweithio'n hyblyg." Wrth fodloni'r ymrwymiad hwn, mae'r Bwrdd Prosiect Gweithio'n Gallach wedi adnabod byddai gweithredu System Dogfennau Electronig a Rheoli Cofnodion (EDRMS) yn galluogi staff i gael mynediad i ddogfennau ac i weithio arnynt gyda'i gilydd mewn modd hyblyg ac effeithlon. | 2017/18 | 140 | Dim | Nid yw'n bodloni Blaenoriaeth Gorfforaethol benodol. | 0 | 100 | 150 | 0 | 0 | 50 | 300 |
| | | | | 12,407 | | | | | | | | | |
| Tai - CRT | Datblygiad Tai Cyngor Ychwanegol | Bydd y cais am gyllid cyfalaf 2017/18 ar gyfer ariannu 20 uned gyda llithriant o arian ar gyfer 10 uned a fydd yn caniatáu ar gyfer 30 uned newydd yn ystod 2017/18. | | 2,800 | D - Cynyddu ein Hopsiynau Tai a Lleihau Tlodi | Cynyddu'r Opsiynau Tai fforddiadwy ledled yr Ynys a dod a thai gwag yn ôl i ddefnydd. | 300 | 200 | 150 | 0 | 0 | 50 | 700 |
| Tai - CRT | Ailwampio wedi'l gynllunio | Bydd gwaith cynnal a chadw allanol traddodiadol sydd wedi'i gynllunio yn parhau i ffurfio sail ein cynlluniau buddsoddi cyfalaf ar gyfer 2017/18 a thu hwnt. Bydd gwelliannau i'r cartref yn yr holl brosiectau yn cynnwys rhoi toeau newydd, gweithredu system rendro wedi'i inswleiddio, drysau a ffenestri newydd lle bo hynny'n briodol, gwaith allanol i gynnwys llwybrau, ffensys a waliau terfyn. Bydd rhai eiddo nad ydynt ar y prif linell nwy hefyd yn elwa o gael systemau Solar PV. Yn ystod 2017/18 bydd ein rhaglen yn cynnwys o leiaf 120 o eiddo a fydd yn elwa o waith cynnal a chadw sydd wedi'i gynllunio. Bydd cynlluniau yn amrywio o ran maint er mwyn rhoi cyfle i fusnesau bach a chanolig geisio am y contractau Tai, Bydd gwelliannau i'r cartref yn gwella moethusrwydd ac ymddangosiad y cartrefi a ble bo'n briodol, yn eu gwneud yn fwy fforddiadwy i'w gwresogi. | | 6,585 | B - Adfywio ein Cymunedau a Datblygu'r Economi<br>D - Cynyddu ein Hopsiynau Tai a Lleihau Tlodi | Cefnogi'r rhai hynny sydd â risg o fod yn ddigartref ac unigolion digartref i ddod o hyd i gartrefi parhaol. | 300 | 200 | 150 | 0 | 0 | 50 | 700 |
| Tai - CRT | Cerbydau BMU | Er mwyn darparu'r gwasanaeth rhagorol mae'r BMU yn ddibynnol ar fflyd o gerbydau diogel, effeithlon, cost effeithiol ac addas i'r diben sydd hefyd yn bodloni disgwyliadau'r gyrwyr ac yn lleihau effeithiau amgylcheddol. Mae'r BMU eisoes yn gweithredu fflyd o 32 o gerbydau. Maent o faint 'transit' yn gyffredinol. Mae'r cerbydau hyn yn elfen hanfodol o ddarparu ffordd o gludo'r gweithiwr, offer a deunyddiau er mwyn bodloni nod y gwasanaeth. Mae'r fflyd wreiddiol bellach wedi ei amnewid heblaw am un pick up a dwy fan LGV. | | 144 | Dim | Nid yw'n bodloni Blaenoriaeth Gorfforaethol benodol ond mae'n hanfodol ar gyfer darpariaeth nifer o wasanaethau. | 300 | 200 | 0 | 0 | 0 | 50 | 550 |
| Tai - CRT | Eiddo | Nod y cais hwn yw darparu strwythur tanwydd mwy effeithlon ar gyfer to'r depo a gwella ymddangosiad yr adeilad. | | 110 | D - Cynyddu ein Hopsiynau Tai a Lleihau Tlodi | Cynyddu'r Opsiynau Tai fforddiadwy ledled yr Ynys a dod a thai gwag yn ôl i ddefnydd. | 300 | 200 | 150 | 0 | 0 | 50 | 700 |
| Tai - CRT | Ail fodelu Llawr-Y-Dref | Mae achos busnes yn cael ei baratoi ar hyn o bryd ar gyfer ei gyflwyno i'r Pwyllgor Gwaith gydag argymhelliad ar gyfer ailfodelu a defnydd yn y dyfodol o'r cynllun a fydd yn creu arbedion effeithlonrwydd ar gyfer Cronfa Gyffredinol y Cyngor drwy ostyngiad yn y defnydd o lety brys ac i'r CRT drwy leihau niferoedd y tai gwag. | | 250 | D - Cynyddu ein Hopsiynau Tai a Lleihau Tlodi | Cynyddu'r Opsiynau Tai fforddiadwy ledled yr Ynys a dod a thai gwag yn ôl i ddefnydd.Cefnogi'r rhai hynny sydd â risg o fod yn ddigartref ac unigolion digartref I ddod o hyd I gartrefi parhaol. | 300 | 200 | 150 | 0 | 0 | 50 | 700 |
| | | | | 9,889 | | | | | | | | | |

**ATODIAD 5**

**MATRICS SGORIO**

**Prosiectau sy'n cyfrannu at gyflawni prosiectau corfforaethol (Pwysoliad 30%)**

- Rhoddir 300 o bwyntiau os yw'r cynllun yn cwrdd yn llawn ag un neu ragor o'r pwyntiau bwled yn y cynllun corfforaethol.
- Rhoddir sgôr rhwng 1 a 299 os yw'r cynllun yn cwrdd yn rhannol â'r pwyntiau bwled yn y cynllun corfforaethol, gyda'r sgôr yn adlewyrchu difrifoldeb yr effaith. Os yw cynllun yn cwrdd â'r rhan fwyaf o'r blaenoriaethau corfforaethol, dylai sgorio dros 200 o bwyntiau ond os yw cynllun ond yn cwrdd â chyfran fechan o'r blaenoriaethau corfforaethol, yna dylai sgorio llai na 100. Mae'r sgôr yn seiliedig ar ddisgresiwn y sawl sy'n sgorio'r fid.
- Onid yw'r cynllun yn cwrdd ag unrhyw un o'r pwyntiau bwled yn y cynllun corfforaethol, rhoddir sgôr o 0.

**Y Lefel o Risg Gorfforaethol y mae'r cynnig yn ei liniaru (Pwysoliad 20%)**

- Rhoddir 200 o bwyntiau os yw'r cynllun yn lliniaru risg gorfforaethol yn llawn.
- Rhoddir sgôr rhwng 1 a 199 os yw'r cynllun yn lliniaru risg gorfforaethol yn rhannol. Bydd y sgôr yn adlewyrchu difrifoldeb y lliniaru. Os yw cynllun yn lliniaru llawer ar y risg gorfforaethol, dylai sgorio dros 120 o bwyntiau ond os yw ond yn lliniaru rhywfaint ar risg gorfforaethol, yna dylai sgorio llai na 50. Mae'r sgôr yn seiliedig ar ddisgresiwn y sawl sy'n sgorio'r fid.
- Os nad yw'r cynllun yn lliniaru dim ar y risg gorfforaethol, rhoddir sgôr o 0.

**Rheidrwydd i gydymffurfio gyda chyfrifoldebau statudol, iechyd, y Deddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd (DGA) er mwyn lliniaru her (Pwysoliad15%)**

- Rhoddir 150 o bwyntiau os yw'r cynllun yn cydymffurfio'n llawn gyda chyfrifoldebau statudol, iechyd neu DGA.
- Rhoddir sgôr rhwng 1 a 149 os yw'r cynllun yn cydymffurfio'n rhannol gyda chyfrifoldebau statudol, iechyd neu DGA. Bydd y sgôr yn adlewyrchu lefel y gydymffurfiaeth. Os yw'r cynllun yn cydymffurfio i raddau helaeth gyda'r cyfrifoldebau statudol, iechyd neu DGA, dylai sgorio dros 100 o bwyntiau ond os yw ond yn cydymffurfio i lefel isel, dylai sgorio llai na 30. Mae'r sgôr yn seiliedig ar ddisgresiwn y sawl sy'n sgorio'r fid.
- Onid yw'r cynllun yn cydymffurfio gyda chyfrifoldebau statudol, iechyd neu DGA, rhoddir sgôr o 0.

**Lefel y cyllid ar y cyd/cyllid cyfatebol a all fod ar gael (Pwysoliad 10%)**

- Os yw'r cynllun yn derbyn 100% cymorth grant, bydd yn sgorio 100 o bwyntiau. Os yw'r cynllun yn derbyn 50% cymorth grant, bydd yn sgorio 50 o bwyntiau. Os nad yw'r cynllun yn derbyn unrhyw gymorth grant o gwbl, yna ni fydd yn sgorio unrhyw bwyntiau.

**Effaith ffafriol ar y gyllideb refeniw neu botensial buddsoddi i arbed (Pwysoliad 20%)**

- Rhoddir 200 o bwyntiau os bydd y cynllun yn cael effaith fawr ar y gyllideb refeniw neu â photensial mawr o ran buddsoddi i arbed.
- Rhoddir sgôr rhwng 1 a 199 os yw'r cynllun yn cael rhywfaint o effaith ffafriol ar y gyllideb refeniw neu â photensial o ran buddsodd i arbed, gyda'r sgôr yn dibynnu ar yr effaith a gaiff ar y gyllideb refeniw. Dylai effaith hynod ffafriol sgorio dros 120 o bwyntiau a disgwylir y bydd cynllun effaith isel yn sgorio llai na 50 o bwyntiau.
- Onid oes unrhyw effaith ffafriol ar y gyllideb refeniw neu botensial o ran buddsoddi i arbed, rhoddir sgôr o 0.

**Cadernid o ran Rheoli Prosiect (Pwysoliad 5%)**

- Bydd trefniadau rheoli prosiect hollol gadarn yn sgorio 50 o bwyntiau.
- Rhoddir sgôr rhwng 1 a 49 gan ddibynnu ar ba mor gadarn yw'r trefniadau rheoli prosiect a bydd y sgôr yn seiliedig ar ddisgresiwn y sawl sy'n sgorio'r fid.
- Os nad yw'r trefniadau rheoli prosiect yn gadarn o gwbl, rhoddir sgôr o 0.

## ATODIAD 6

**CRYNODEB O'R CYLLID CYFALAF SYDD WEDI'I DDYRANNU**

| Ffynhonnell y Cyllid | Cynlluniau Ymrwymedig £'000 | Asedau Presennol £'000 | Prosiectau Buddsoddi i Arbed £'000 | Cynnal a Chadw Priffyrdd £'000 | Cynlluniau Newydd £'000 | Cynlluniau Benthyca Digefnogaeth £'000 | Cyfanswm Cronfa Gyfalaf Gyffredinol £'000 | Ysgolion 21ain Ganrif £'000 | Cyfrif Refeniw Tai £'000 | Cyfanswm Rhaglen Cyllid Cyfalaf 2017/18 £'000 |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Grant Gyfalaf Cyffredinol | - | 1,248 | - | - | 92 | - | 1,340 | - | - | **1,340** |
| Benthyca â Chymorth Cyffredinol | - | - | 75 | 244 | 1,884 | - | 2,203 | - | - | **2,203** |
| Derbyniadau Cyfalaf | 461 | 454 | 111 | - | 496 | - | 1,522 | - | - | **1,522** |
| Tanwariant ers 2016/17 Dygwyd Ymlaen | 178 | 101 | - | 226 | 59 | - | 564 | - | - | **564** |
| Cyfraniad refeniw arian wrth gefn na neilltuwyd | 8 | 498 | - | - | - | - | 506 | - | - | **506** |
| Grantiau Allanol | 8,179 | - | - | - | 9,144 | - | 17,323 | - | - | **17,323** |
| Benthyca Di-gefnogaeth | - | - | - | 291 | - | 362 | 653 | - | - | **653** |
| **CYFANSWM CYLLID CYFALAF CRAIDD Y GRONFA CYFFREDINOL** | **8,826** | **2,301** | **186** | **761** | **11,675** | **362** | **24,111** | **-** | **-** | **24,111** |
| Cyllid Grant Ysgolion yr 21ain Ganrif | - | - | - | - | - | - | - | 1,270 | - | **1,270** |
| Benthyca â Chymorth Ysgolion yr 21ain Ganrif | - | - | - | - | - | - | - | 1,269 | - | **1,269** |
| Benthyca Digefnogaeth Ysgolion yr 21ain Ganrif | - | - | - | - | - | - | - | 4,326 | - | **4,326** |
| **CYFANSWM YSGOLION YR 21AIN GANRIF** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **6,865** | **-** | **6,865** |
| Cyfraniad Cyfrif Refeniw Tai | - | - | - | - | - | - | - | - | 7,224 | **7,224** |
| Grantiau Cyfrif Refeniw Tai | - | - | - | - | - | - | - | - | 2,665 | **2,665** |
| **CYFANSWM CYFRIF REFENIW TAI** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **-** | **9,889** | **9,889** |
| **CYFANSWM CYLLID** | **8,826** | **2,301** | **186** | **761** | **11,675** | **362** | **24,111** | **6,865** | **9,889** | **40,865** |

**ATODIAD B**

## CYLLIDEB GYFALAF ARFAETHEDIG AR GYFER 2017/18

| | | Cost 2017/18 £'000 | Ymrwymiad i 2020/21 £'000 | ARIENNIR GAN | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Bosib y caiff ei gyllido'n rhannol o grantiau neu gyllid allanol arall | Grant / Cyllid Allanol £'000 | Derbyniadau Cyfalaf £'000 | Benthyca gyda Chefnogaeth – Ysgolion y 21ain Ganrif £'000 | Benthyca gyda Chefnogaeth Gyffredinol £'000 | Grant Cyfalaf Cyffredinol £'000 | Benthyca Di-gefnogaeth £'000 | Cronfeydd Cyfalaf heb eu Defnyddio £'000 | Tanwariant 2016/17 wedi ei ddwyn ymlaen £'000 | Arian Wrth Gefn CRT £'000 |
| Cynlluniau yr ymrwymwyd iddynt | Gweithredu CCIS | 65 | 0 | 0 | 65 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Gorchmynion Prynu Tai drwy Orfodaeth | 200 | Blynyddol | 0 | 192 | 0 | 0 | 0 | 0 | 8 | 0 | 0 |
| | Porth Ymwelwyr Ynys Gybi | 1,050 | 2,950 | 1,010 | 40 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Lôn Wylfa Newydd | 4,097 | 23,452 | 4,097 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Ffordd Gyswllt Llangefni | 3,414 | 2,938 | 3,072 | 164 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 178 | 0 |
| **CYFANSWM Y CYNLLUNIAU YR YMRWYMWYD IDDYNT** | | **8,826** | **29,340** | **8,179** | **461** | **0** | **0** | **0** | **0** | **8** | **178** | **0** |
| GCA ac Asedau Cyfredol | GCA | 750 | Blynyddol | 0 | 0 | 0 | 0 | 750 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Mynediad i'r Anabl – Addysg | 300 | Blynyddol | 0 | 0 | 0 | 0 | 300 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Cerbydau | 150 | Blynyddol | 0 | 0 | 0 | 0 | 150 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Isadeiledd Craidd TG | 150 | Blynyddol | 0 | 0 | 0 | 0 | 48 | 0 | 102 | 0 | 0 |
| | Adnewyddu Cyfrifiaduron TG | 100 | Blynyddol | 0 | 78 | 0 | 0 | 0 | 0 | 22 | 0 | 0 |
| | Symud i System Etifeddiaeth | 50 | 100 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 50 | 0 | 0 |
| | Trwydded Microsoft | 101 | Blynyddol | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 101 | 0 |

| | | Cost 2017/18 £’000 | Ymrwymiad i 2020/21 £’000 | ARIENNIR GAN | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Bosib y caiff ei gyllido’n rhannol o grantiau neu gyllid allanol arall | Grant / Cyllid Allanol £’000 | Derbyniadau Cyfalaf £’000 | Benthyca gyda Chefnogaeth – Ysgolion y 21ain Ganrif £’000 | | Grant Cyfalaf Cyffredinol £’000 | Benthyca Di-gefnogaeth £’000 | Cronfeydd Cyfalaf heb eu Defnyddio £’000 | Tanwariant 2016/17 wedi ei ddwyn ymlaen £’000 | Arian Wrth Gefn CRT £’000 |
| | Atgyweirio Ysgolion | 500 | Blynyddol | 0 | 176 | 0 | 0 | 0 | 0 | 324 | 0 | 0 |
| | Atygweirio Adeiladau nad ydynt yn Ysgolion | 200 | Blynyddol | 0 | 200 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM GCA AC ASEDAU CYFREDOL** | | **2,301** | **-** | **0** | **454** | **0** | **0** | **1,248** | **0** | **498** | **101** | **0** |
| Prosiectau Buddsoddi i Arbed | Effeithlonrwydd Ynni mewn Canolfannau Hamdden | 111 | 0 | 0 | 111 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Gwaith Trin Carthffosiaeth Traeth Coch | 75 | 0 | 0 | 0 | 0 | 75 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM PROSIECTAU BUDDSODDI I ARBED** | | **186** | **0** | **0** | **111** | **0** | **75** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** |
| **CYFANSWM CYNNAL A CHADW PRIFFYRDD** | | **761** | **0** | **0** | **0** | **0** | **244** | **0** | **291** | **0** | **226** | **0** |
| Cynlluniau Mawr Newydd | Gofal Ychwanegol Seiriol | 1,000 | 14,300 | 0 | 0 | 0 | 1,000 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Isadeiledd Strategol Caergybi | 5,001 | 2,164 | 4,966 | 0 | 0 | 35 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Cartref Gofal Preswyl Garreglwyd | 250 | 0 | 0 | 0 | 0 | 250 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Lliniaru Llifogydd ym Miwmares | 800 | 200 | 680 | 0 | 0 | 120 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Lliniaru Llifogydd ym Mhentraeth | 800 | 200 | 680 | 0 | 0 | 120 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Isadeiledd Strategol Llangefni | 2,523 | 441 | 2,488 | 0 | 0 | 35 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 |
| | Safleoedd i Sipsiwn a Theithwyr | 1,301 | 36 | 330 | 496 | 0 | 324 | 92 | 0 | 0 | 59 | 0 |
| **CYFANSWM CYNLLUNIAU MAWR** | | **11,675** | **17,341** | **9,144** | **496** | **0** | **1,884** | **92** | **0** | **0** | **59** | **0** |

| | | Cost 2017/18 £'000 | Ymrwymiad i 2020/21 £'000 | ARIENNIR GAN | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | | Bosib y caiff ei gyllido'n rhannol o grantiau neu gyllid allanol arall | Grant / Cyllid Allanol £'000 | Derbyniadau Cyfalaf £'000 | Benthyca gyda Chefnogaeth – Ysgolion y 21ain Ganrif £'000 | | Grant Cyfalaf Cyffredinol £'000 | Benthyca Di-gefnogaeth £'000 | Cronfeydd Cyfalaf heb eu Defnyddio £'000 | Tanwariant 2016/17 wedi ei ddwyn ymlaen £'000 | Arian Wrth Gefn CRT £'000 |
| Ysgolion yr 21ain Ganrif | Ysgol Cybi | 502 | 149 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 502 | 0 | 0 | 0 |
| | Ysgol Rhyd y Llan | 1,545 | 67 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 1,545 | 0 | 0 | 0 |
| | Ysgol Brynsiencyn | 217 | 227 | 54 | 0 | 54 | 0 | 0 | 109 | 0 | 0 | 0 |
| | Ysgol Parc y Bont | 169 | 177 | 42 | 0 | 42 | 0 | 0 | 85 | 0 | 0 | 0 |
| | Ysgol Bro Rhosyr | 3,591 | 1,574 | 898 | 0 | 898 | 0 | 0 | 1,795 | 0 | 0 | 0 |
| | Ysgolion Ardal Llangefni | 675 | 6,628 | 234 | 0 | 234 | 0 | 0 | 207 | 0 | 0 | 0 |
| | Ysgol Seiriol | 166 | 5,376 | 42 | 0 | 41 | 0 | 0 | 83 | 0 | 0 | 0 |
| **CYFANSWM YSGOLION YR 21ain GANRIF** | | **6,865** | **14,198** | **1,270** | **0** | **1,269** | **0** | **0** | **4,326** | **0** | **0** | **0** |
| | | | | | | | | | | | | |
| **CYFANSWM Y GRONFA GYFFREDINOL** | | **30,614** | | **18,593** | **1,522** | **1,269** | **2,203** | **1,340** | **4,617** | **506** | **564** | **0** |
| | | | | | | | | | | | | |
| Cynlluniau CRT | Tai Cyngor Ychwanegol | 2,800 | 12,065 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 2,800 |
| | Cynlluniau i Adnewyddu Eiddo Cyfredol | 6,585 | 8,952 | 2,665 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 3.920 |
| | Cerbydau Newydd | 144 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 144 |
| | Gwaith Gwella yn y Depo | 110 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 110 |
| | Llawr y Dref | 250 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 0 | 250 |
| **ANSWM CYNLLUNIAU CRT** | | **9,889** | **21,017** | **2,665** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **0** | **7,224** |
| | | | | | | | | | | | | |
| **ANSWM RHAGLEN GYFALAF 2017/18** | | **40,503** | | **21,258** | **1,522** | **1,269** | **2,203** | **1,340** | **4,617** | **506** | **564** | **7,224** |
| | | | | | | | | | | | | |

**Ymateb i Gynigion Cychwynol ar gyfer Cyllideb y Pwyllgor Gwaith – Cwrdd a'r Heriau 2016**

**CYNGOR SIR YNYS MÔN**

**Ionawr 2017**

**Dadansoddwr – Alwyn Williams, Dadansoddwr Perfformiad**

**Awdur – Gethin Morgan, Rheolwr Cynllunio Busnes, Rhaglen a Perfformiad**

**Pennaeth Gwasanaeth – Scott Rowley, Pennaeth Trawsnewid Corfforaethol**

## 1. *Rhagarweiniad*

1.1. Ymgynghorodd y Cyngor yn ddiweddar ar gynigion cyllidebol cychwynnol y Pwyllgor Gwaith - 'Cwrdd â'r Heriau' rhwng 11 Tachwedd a 16 Rhagfyr, 2016. Roedd y cyfnod ymgynghori o 5 wythnos yn canolbwyntio ar oddeutu 50 o gynigion.

1.2. Allbwn y broses gyllidol blynyddol oedd y cynigion arfaethedig yma. Cawsant eu cyflwyno gan y gwasanaethau yn ystod tymor yr Hydref pan fu iddynt hefyd gael eu herio a'i cytuno i bwrpas ymgynghori gan Aelodau Etholedig pob grwp gwleidyddol y Cyngor.

1.3. Rhannwyd y 50 i mewn i 6 thema fel yr amlinellir isod, sef:

- Atal neu Trosglwyddo Gwasanaeth i Eraill
- Cynyddu Incwm
- Lleihad mewn costau di-addysg ysgolion
- Trawsnewid Gwasanaethau neu gwneud newid yn y ffordd o ddarparu
- Ail-strwythuro staff neu dileu swyddi gwag
- Cynigion Effeithlonrwydd cyffredin a toriadau i gyfraniadau

1.4. Yn ogystal eleni am y tro cyntaf, ymgynghorwyd ar gynlluniau gwariant mawr y Cyngor dros y 12 mis nesa' yn ogystal a'r bwriad drwy'r cynllun ariannol tymor canol i godi treth y Cyngor o 3% am 2017/18.

1.5. Ystyriwyd amrywiaeth helaeth o arbedion lle'r oedd yr her a chytundeb fewnol wedi arwain at gynigion oedd yn amrywio o faterion parthed cynyddu costau prydau ysgol, buddsoddi mewn gwaith atall llifogydd a trawsnewid darpariaethau ieuenctid a llyfrgelloedd y Cyngor. Marchnatwyd y cynigion yma mewn nifer o ffyrdd;

1.5.1. Sesiwn briffio i'r wasg lleol
1.5.2. Datganiadau ac erthyglau yn y wasg
1.5.3. Cyhoeddiad o'r cynigion ar dudalen cartref gwefan y Cyngor Sir oedd hefyd wedi'i alinio gyda fideo pwrpasol yn amlygu'r angen am arbedion
1.5.4. Defnydd helaeth o'r cyfryngau cymdeithasol Twitter, Facebook a Youtube i'w hyrwyddo i ystod mwy eang o drigolion
1.5.5. E-byst perthnasol yn tynnu sylw a gwahodd trigolion i drafodaethau pwrpasol

1.5.6. Amryw gyfweliadau gan yr Arweinydd ar MônFM dros gyfnod yr ymgynghoriad gan gynnwys cyfweliad byw gan bobl ifanc ar y materion o bwys

Roedd pob un o’r sianeli uchod wedi’u hanelu at hysbysu ac ennyn brwdfrydedd dinasyddion a staff i ymgysylltu ac ymateb i’r cynigion cychwynnol.

1.6. Gofynnwyd i ddinasyddion, partneriaid a staff ymateb i'r ymgynghoriad drwy wahanol ddulliau gan gynnwys:

- Dau arolwg ar-lein ar ein gwefan
  - Arolwg ar gyfer pawb
  - Arolwg yn benodol ar gyfer yr ifanc (gweler isod)
- E-bostio neu ysgrifennu atom

1.7. Yn ogystal â'r uchod, cynhaliodd y Cyngor:

- Sesiynau grŵp ffocws ar gyfer pobl o dan 25 oed yn ysgolion uwchradd David Hughes, Llangefni a Bodedern, fforwm ffermwyr ifanc a chlybiau ieuenctid yn Bodedern a Chaergybi
- Arolygon ar-lein a gynllunwyd gyda Medrwn Môn a Llais Ni i bobl o dan 25, pobl hyn a phobl gydag anableddau
- Sesiwn a gynhaliwyd yn y Cyngor ar gyfer nifer o partneriaethau fel yr Heddlu, Gwasanaeth Tan, Iechyd, Cynghorau Tref a Chymuned, cyrff y 3ydd Sector ac asiantaethau arall.
- Fforwm Pobl Hyn a gynhaliwyd yn Neuadd y Dref gyda rhanddeiliaid a phartneriaid y gwasanaseth Oedolion (55 yn bresennol)
- Sesiwn gyda Prifathrawon ac Uwch Reolwyr ysgolion yr Ynys ar y 1af o Ragfyr, 2017 (33 ysgol yn bresennol)
- Fforwm Cynghorau Tref a Chymuned ar y 24ain o Dachwedd, 2016

1.8. Yn wahanol i llynedd ni gynhaliwyd sesiynau galw i mewn, gan fod yr ymateb yn 2016/17 wedi bod yn isel ac roedd Aelodau’r Cyngor yn unfrydol o’r farn nad oedd angen y fath ymgynghoriad eleni.

Ag eithrio pwynt 1.5 roedd yr ymgynghoriad eleni yn dilyn digwyddiadau ymgynghori tebyg a gynhaliwyd dros y blynyddoedd diwethaf.

2. ***Canlyniadau***

2.1. Roedd yr ymateb i’r cynigion cyllidebol cychwynol ar gyfer 17/18 dros cyfnod o 5 wythnos yn weddol gadarnhaol. Mae dros 700 o ymatebion (1% o’r boblogaeth) wedi’i dderbyn oddi draws yr amryw sianelau a amlinellwyd uchod gydag ymatebwyr yn ymgysylltu ar draws pob dull.

2.2. Y ffordd fwyaf llwyddiannus o gasglu ymatebion eleni oedd yr arolwg ar-lein gyda thua 67% yn ymateb drwy’r sianel yma. Mae hyn yn gynnydd sylweddol dros ein ymateb y llynedd lle

gwelwyd y mwyafrif yn ymateb drwy’r grwpiau ffocws a’r sesiynau cysylltiedig. Eleni, dyma’r ail-ddull mwya’ poblogaidd gyda’r gweddill yn cysylltu drwy Facebook (FB) a dulliau traddodiadol megis e-byst a llythyrau papur.

2.3. Derbyniwyd ymatebion gan gyrff tebyg I gynghorau tref, cyrff llywodraethu ysgolion, pobl hyn ac anabl, yr ifanc, athrawon, a thrigolion eraill na ellid eu grwpio i unrhyw grwp penodol.

2.4. Am y tro cyntaf eleni, rydym hefyd wedi medru casglu’r ymatebion a ddaethpwyd ein ffordd fel Cyngor drwy FB. Drwy hyrwyddo'r ymgynghoriad drwy'r cyfrwng FB bu inni gyrraedd oddeutu 44,339 o bobl. (3,849 o bobl drwy posts Cymraeg a 40,490 o bobl drwy'n posts Saesneg).

2.5. Bu inni 'bostio'r ymgynghoriad ar y cyfryngau cymdeithasol (neu ei hyrwyddo) 50 o weithiau (25 yn y gymraeg a 25 yn y saesneg) dros y cyfnod dan sylw (5 wythnos) sydd yn golygu fod bob un o'n posts corfforaethol wedi cyrraedd oddeutu 887 o bobl ar gyfartaledd.

2.6. Nid yw'r ffaith ein bod wedi cyrraedd cynifer yn cadarnhau eu bod wedi ymweld a'r dudalen ei hun ond maen't heb os yn dangos eu bod yn ymwybodol o'r ymgynghoriad oedd wrth waith.

2.7. Mae’r pwynt hyn yn cael ei amlygu yn y niferoedd a ymwelodd a’n safle we corfforaethol gydag unigolion yn ymweld a’r arolwg o wledydd megis –

**2.7.1.** Unol Daliaethau America

**2.7.2.** India

**2.7.3.** Curaco

**2.7.4.** Sweden

**2.7.5.** Hong Kong.

Wedi dweud hynny roedd mwyafrif yr ymweliadau i’n gwefan gan unigolion o’r Deyrnas Unedig (dros 96%).

2.8. Derbyniwyd 129 o ymatebion drwy FB. Yn wahanol i’r arolwg ar-lein, roedd y trafodaethau drwy’r cyfryngau cymdeithasol yn aml yn defnyddio’r cyfrwng i gwestiynu gwaith y Cyngor yn gyffredinol a’r ‘methiannau’ arfaethedig sydd wedi bod yn gysylltiedig a’n darpariaerth gwastraff yn ddiweddar yn ogystal a nodi sylwadau ar yr ymgynghoriad ei hun.

2.9. Er hyn, drwyddi draw o’r sianelau i gyd, y prif feysydd ffocws o’r ymatebion oedd fel a ganlyn a gellir eu dychmygu drwy ddefnyddio’r wordle isod ar lun 1:

**2.9.1.** Codi ffioedd prydau ysgol


**2.9.2.** Cynyddu costau bws i blant sy’n byw o fewn 2 i 3 milltir o’i hysgol presennol

**2.9.3.** Datblygu safle parhaol i sipsiwn a theithwyr

**2.9.4.** Cynnydd arfaethedig mewn treth Cyngor o 3%

**2.9.5.** Lleihad yng nghostau glanhau ysgolion

**2.9.6.** Lleihad mewn costau drwy ail-strwythuro a peidio a llenwi swyddi gwag




Llun 1.

2.10. Yn gyffredinol, roedd yr ymateb eto eleni yn rhoi ystyriaeth gytbwys o'r dasg anodd sy'n wynebu'r Cyngor gydag amryw o syniadau pellach yn cael ei cynnig yn rhan o'r ymatebion a dderbyniwyd.

2.11. Mae gweddill y ddogfen hon yn canolbwyntio ar y meysydd o arbedion a nodwyd yn 1.3 gan dynnu sylw at y canfyddiadau mwyaf cyffredin a nodi rhai awgrymiadau a gynnigir gan drigolion yr Ynys drwy'r ymatebion a dderbynwyd i'r arolwg.

### 2.11.1. Rhoi'r Gorau neu Trosglwyddo Gwasanaethau i Eraill

Roedd gennym 7 cynnig yn gysylltiedig ar maes yma yn amrywio o drosglwyddo rheolaeth ein atyniadau diwylliannol i derfynnu les ein lleoliad hyfforddiant yn Nhy William Jones.

Yn fras roedd yr ymatebion yn cytuno gyda mwyafrif y cynigion a roddwyd ymlaen ond un o'r pryderon mwyaf cyffredin oedd yr angen i'r Cyngor fod yn wyliadwrus iawn wrth drosglwyddo asedau sydd yn ran anatod o'n cynnig i dwristiaid. Roedd yr elfen o dwristiaeth yn cael ei amlygu drosodd a throsodd fel un o'n prif gryfderau fel Ynys ac roedd yr ymateb yn pryderu na fydde trosglwyddiad yn sicrhau eu dyfodol.

Awgrymir gan rai medru cefnogi'r troslwyddiad yn ariannol am gyfnod byr, i helpu sefydlogi'r ddarpariaeth i'r dyfodol.

Nodwyd hefyd bod angen bod yn ofalus os am uwchraddio cyfleusterau cyhoeddus cyn eu trosglwyddo gydag un awgrym yn nodi mai falle'r ffordd orau o'i trosglwyddo yw eu trosglwyddo fel ag y maent gan adael i unrhyw un fydde eisiau eu cymryd drosodd 'as found'. Bydde'r gwariant arfaethedig ar uwchraddio wedyn yn medru cael ei ddefnyddio fel arbediad blynyddol.

**2.11.2. Cynyddu Incwm**

Roedd nifer o'r sylwadau yn gadarnhaol parthed y cynigion (9 ohonynt) oedd yn cael sylw yn y maes yma. Yn wir, roedd yna deimlad y gellid ei grynhoi yn nodi pam nad oeddem yn gwneud hyn yn barod gyda nifer o'r cynigion arfaethedig.

Y ddau gynnig oedd falle yn mynd yn erbyn yr elfen ar ymdeimlad cadarnhaol yma oedd y ddau oedd yn gysylltiedig a chynnydd yng nghostau prydau ysgol a cynyddu costau bws i'r plant hynny sydd yn byw o fewn 2 i 3 milltir o'i hysgol presennol.

Yn wir, roedd gwrthwynebiad amlwg i'r ddau gynnig yma gyda sylwadau yn nodi pryderon am gynaliadwyedd y fath newid oherwydd yr effaith y byddai'n ei gael ar deuluoedd bregus a'r rhai hynny oedd gyda mwy nag un o blant. Nodwyd mewn un ymateb er engraifft y byddai newid o'r fath (cost bws ysgol) yn golygu y byddai'r teulu yn gorfod talu oddeutu £1,000 yn fwy i'r Cyngor yn flynyddol am fynd a'i phlant i'r ysgol.

Roedd amryw un hefyd yn pryderu am y llif traffic sydd am gynyddu o gwmpas ysgolion (yn enwedig y rhai Uwchradd) gan y bydd nifer o ganlyniad i'r fath newid yn cymryd eu plant i'r ysgol eu hunain. Canlyniad y cynnydd hyn mewn ceir, sydd angen ei gysidro yw'r effaith a geir ar ddiogelwch plant o gwmpas ysgolion yr Ynys.

Un pwynt a cynnig a nodwyd sy'n gysylltiedig a'r cynigion yma (symud plant o un ysgol i'r llall mewn tacsi) oedd y ffaith fod angen i'r arlwy addysg ol-16 gael ei adolygu gan nad oedd yr ymateb yn credu bod 5 ysgol uwchradd yn cynnig arlwy 6ed dosbarth o ansawdd yn gynaliadwy o gofio bod Coleg Menai yng nghanol yr Ynys.

Cynnig lle roedd y ddwy ochr I'r stori yn medru cael ei amlygu oedd yr ymgynghoriad gyda'r grwp o bobl hyn parthed gofal cartref. Roedd yna ddealltwriaeth o'r angen i gynyddu'r ffioedd am ofal cartref a tra bod amryw yn derbyn yr argymhelliad yn ddibynol ar y gallu I dalu roedd rhai hefyd yn bryderus. O'r rhai a ymatebodd dim ond 3.8% ohonynt fydda'n ail-feddwl yr angen am ofal cartref petai'r newid yn digwydd. Mae'n bwysig nodi'r o'r ymatebion yma, mai aros yr un peth parthed costau oedd yr opsiwn ffafredig gydag opsiynau o gynnydd blynyddol bychan yn dilyn.

**2.11.3. Lleihad mewn costau di-addysg Ysgolion**

Mae'r ymateb i'r cynigion yma (4 ohonynt) yn gyffredinol yn codi pryderon dros effaith y byddai'r arbedion sy'n cael eu cynnig yn ei gael ar safonnau a chyrhaeddiad plant yr Ynys. h.y. un o'r pwyntiau mwya' cyffredin sydd yn dod i'r amlwg yw'r cwestiwn ynglyn a torri'r gyllideb glanhau yn yr ysgolion; os wneir hyn a fydd yr ysgol yn cynyddu yn ei debygolrwydd o heintiau ac o ganlyniad yn gweld absenoldebau salwch nid yn unig plant ond athrawon yn cynyddu o ganlyniad.

Un mesur i liniaru'r pryder uchod sydd yn cael ei gynnig yw'r cyfle i gynnig brechiadau ffliw i nid yn unig athrawon yr Ynys ond hefyd plant fydde o ganlyniad yn atal unrhyw salwch cyson yn ystod y tymhorau gaeafol.

Mae'r ymateb parthed arbedion salwch athrawon yn gweld y ddwy ochr. Rhai yn nodi os yw'r athrawon yn iach yna bydd y gofyn am athrawon llanw yn disgyn a caiff plant yr ysgolion eu haddysg yn rheolaidd gan athrawon llawn amser. Eraill yn nodi os yw'r athrawon yn sal yna cwestiynu beth arall ellid ei wneud.

Gofynnir hefyd drwy'r ymateb I'r maes yma, i'r Cyngor feddwl yn ddwys am yr arbediad sy'n gysylltiedig a chefnogaeth ychwanegol i blant. Noder y pryder, mai ond cynyddu'r galw ar staff rheng flaen (athrawon a cymhorthyddion) fydd hyn yn ei wneud. Y canlyniad fydd, effaith niweidiol ar lefelau salwch staff.

Ar y llaw arall cwestiynir a oes yna ormodedd o gymhorthyddion yn bresennol mewn ysgolion gan mai yn hanesyddol nid dyma oedd y model. Gofynnir oes lle i ddysgu o'r gorffennol?

Un awgrym gan y cyhoedd yw dylsa'r Cyngor drwy'r ysgolion (ac wedi gwirio'r elfen ddiogelu) ofyn os oes cymorth ar gael drwy neiniau a theidiau'r ynys I helpu plant gyda darllen a falle cymorth un i un.

Awgrym pellach sy'n cael ei nodi gan staff ysgol yn yr ymateb yw, os oes lleihad yn y gyllideb ei angen, yna dylsa'r Cyngor edrych ar leihau'r 'gyllideb gyffredinol a ddyrennir i ysgolion gan osgoi toriad trwm mewn un penawd cyllidol'. Bydda hyn wedyn yn arfogi'r Pennaeth neu'r Penaethiaid i benderfynnu sut i wneud y toriad yn eu hysgol hwy.

Nodwyd drwy'r fforwm cyllid ysgolion y dylai'r Cyngor roi arweiniad tair blynedd i ysgolion yr Ynys parthed yr arbedion disgwyliedig, fydd yn eu galluogi i gynllunio'n fwy cadarn i'r dyfodol.

### 2.11.4. Trawsnewid Gwasanaethau neu gwneud newid yn y ffordd o ddarparu

Roedd 16 o gynigion cychwynol yn perthyn i'r thema yma ac roeddent yn amrywio o drawsnewid ein darpariaeth ieuenctid I edrych ar opsiynau parthed rhesymoli trefniadau ciniawa mewn cartrefi henoed.

Yn fras, roedd yr ymateb i'r cynigion hyn yn led-cadarnhaol gyda dim ond un o'r cynnigion oedd yn cael ei godi fel pryder gan fwy nag un. Cynnig parthed ein darpariaeth I'r Ieuenctid oedd hwnnw lle roedd amryw un yn pryderu am ei ddyfodol tra bod eraill yn cwestiynu'r newidiadau i ofal cartref gyda'r pryder fod gymaint o newidadau yn y gwasnaeth gofal cymdeithasol yn ormod i'w ofyn o wasanaeth sydd yn gweld cynnydd yn y gofyn.

Yn ychwanegol i'r rhain roedd y mater o allanoli'r casglu o'r meysydd parcio yn cael cryn sylw gyda nifer yn dweud y dylsa'r Cyngor ei allanoli yn ei gyfanrwydd lle bod eraill yn pryderu am yr effaith y gall ei allanoli i gwmni preifat ei gael ar ddefnyddwyr.

Unwaith yn rhagor, roedd barn y bobl hyn a ymgynghorwyd a hwy yn medru deall yr angen am newid yn y ffordd yr oedd Telecare yn cael ei ariannu ac roeddent yn grediniol na fydda cynydd mewn costau yn arwain atynt yn peidio a gofyn am y gwasanaeth. Yn wir, ychydig yn wahanol I'r opsiwn am ofal cartref roedd y mwyafrif (60%) o ymatebwyr yma yn gweld yr angen ac yn cytuno byddai codiad blynyddol rheolaidd (phased implementation) yn well na un codiad mawr eleni.

Roedd amryw un yn falch ac yn gweld budd ehangach o'r cynnig i ddatblygu gwasanaeth arbennigol yng Ngharreglwyd, Caergybi.

### 2.11.5. Ail-strwythuro staff neu dileu swyddi gwag

Roedd amryw o gynigion yma yn amrywio o wasanaeth i wasanaeth.

Cadarnhaol oedd yr ymateb gyda'r ethos o beth oedd yn cael ei roi 'mlaen gyda chydig yn datgan falle nad oedd y Cyngor yn bod yn ddigon uchelgeisiol gyda'r maes yma. Roedd yr ymateb yn cydnabod bod cyfanswm y ffigwr a roddwyd ymlaen fel arbediad ond yn cyfateb i 11 swydd ar gyfartaledd cost o £35,000 yr un allan o oddeutu 3,000 o swyddi oedd yn cael eu cyflogi gan y Cyngor.

Cwestiynwyd yr angen am adolygiad o'r sefyllfa staffio ymhellach gyda'r disgwyliad gan y mwyafrif y gellid gwneud mwy o arbedion o'r maes yma os fydda'r gwaith hynny yn cael ei wneud yn rheolaidd.

Yn ogystal, nodwyd fod angen i'r Cyngor ymrafael ar mater o salwch hefyd gydag un sylwebydd yn nodi ffigyrau a ddefnyddwyd gan y wasg lleol dros gyfnod yr haf.

Un pwynt pellach a nodwyd ynglyn a'r maes yma oedd yr angen i fod yn fwy tryloyw parthed yr arbediad yn ei gyfanrwydd a nodi'r effaith y bydda arbediad o'r fath yn ei gael ar y gwasanaeth a gynigir gan y Cyngor.

Falle bod hyn yn bwynt i'w gadw mewn cof parthed ymgynghoriadau corfforaethol pellach gan y Cyngor Sir.

**2.11.6. Cynigion Effeithlonrwydd cyffredin a toriadau i gyfraniadau**

Yn gyffredinol roedd y mwyafrif o'r ymatebion yn cytuno gyda'r cynigion a roddwyd ymlaen fel rhan o'r maes yma (13 ohonynt). Roedd dau eithriad yn amlygu 'i hunan i'r ymdeimlad cadarnhaol yma –

(i) cyfraniadau i'r ifanc
(ii) gostwng cyllideb y Public Rights Of Way (PROW).

Roedd yr ymateb parthed gostwng cyfraniadau i'r ifanc (Mudiad Ysgolion Meithrin) yn canolbwyntio ar yr effaith dilynol, gydag amryw un yn nodi y bydda cylchoedd yn cau. Canlyniad hyn yn ol yr ymateb (gan gynnwys ymateb y Mudiad ei hun) fydda lleihau'r ddarpariaeth, nid yn unig i blant ond hefyd i rieni fydda wedyn yn lleihau'r cyfleoedd a'r adnoddau sydd yn gosod seiliau cadarn I gychwyn byd addysgol plant.

Roedd yr ymateb parthed gostwng cyllideb PROW yn cwestiynu faint o ostyngiad oedd hyn gyda'r feirniadaeth bod ei gynnig heb rhoi'r pictiwr cyflawn yn ei gwneud yn anodd i bobl ddeall yr oblygiadau.

Roeddent hefyd yn gweld y gostyngiad yn rhywbeth a all effeithio ar dwristiaeth, iechyd, amgylchedd ac addysg.

2.11.7. **Cynlluniau Gwariant Sylweddol**

Drwy'r ymgynghoriad am y tro cyntaf eleni bu i'r Cyngor ymgynghori ar ei gynlluniau gwariant sylweddol (neu'r gwariant cyfalaf) sydd yn yr arfaeth ar gyfer 2017/18.

Y gred yw bod hwn yn gam i'r cyfeiriad cywir ac yn dangos i drigolion yr Ynys beth sydd ar y gweill ar gyfer y flwyddyn sydd i ddod nid yn unig o safbwynt arbedion ond hefyd bellach o safbwynt gwariant ar welliannau i'r dyfodol.

Unwaith yn rhagor, mae'r ymateb i'r cynlluniau yma yn led-gadarnhaol gydag amryw i fan sylwadau yn cael eu pasio ar amryw un.

O'r sylwadau a dderbyniwyd i'r gwrthwyneb y pwynt mwya cyffredin sydd yn cael ei gwestiynu / feirniadu yw'r ffaith bod cynlluniau i wario yn agos am £1miliwn ar safleoedd i sipsiwn a theithwyr. Y gred yw bod hyn yn ddiffygiol yn yr hinsawdd sydd ohoni ac os mai Llywodraeth Cymru sydd yn arwain yna dylsa'r llywodraeth ei ariannu.

2.12. Mae'r uchod hefyd yn dangos ac yn datgan ar amryw o adegau y diffyg ymwybyddiaeth sydd yn bodoli o fewn y drafodaeth ehangach ar arbedion a cynlluniau gwariant (cyfalaf) ar beth a pham fod y cynigion yn cael eu cynnig. Falle bod lle i gyfleu hyn

yn wahanol i'r dyfodol gan hysbysu'r trigolion pam na ellid defnyddio cyllid cyfalaf i wneud arbedion refeniw. Bydde hwn yn wers i'w dysgu i'r dyfodol.

2.13. Fel rhan o'r ymgynghoriad, cafwyd ymateb ffurfiol gan ddau Gyngor Tref –

**2.13.1.** Cyngor Tref Beaumaris a
**2.13.2.** Chyngor Tref Amlwch.

Roedd ymateb Cyngor Tref Beaumaris yn pryderu am effeithiau'r newidiadau a nodwyd ynghynt yn yr adroddiad ac roeddent yn cyd-fynd a'r pryder sydd wedi ei nodi eisoes parthed cynnydd mewn prisiau cinio ysgol / costau bws / lleihad yn y gyllideb glanhau ysgolion ynghyd a'r cynnig arfaethedig o gynyddu'r treth Cyngor o 3%.

2.14. Parthed yr ymateb eang a gafwyd yn gysylltiedig ar treth Cyngor roedd y mwyafrif o ymatebwyr yn erbyn unrhyw fath o godiad, er bod rhai yn medru gweld y rhesymeg pam fod y fath godiad yn cael ei wyntyllu fel cynnig ac y byddai'n well ganddynt hwy dalu'r codiad na gweld gwasanaethau yn cael eu torri ymhellach.

2.15. Roedd Cyngor Tref Amlwch ar y llaw arall yn tynnu sylw at y ffaith ac yn pryderu nad oedd y cynlluniau cyfalaf presennol yn edrych i adeiladu a chynnig unedau diwydiannol ychwanegol yn y dref a fyddai yn eu tyb hwy yn galluogi busnesau i ehangu yn ogystal a bod yn ffordd o ddenu busnesau newydd i'r ardal, yn enwedig gyda datblygiadau Wylfa Newydd ar y gorwelion. Yr oeddent hefyd o'r farn y dylsa costau teithio aelodau (i Langefni) gael eu cwtogi fel rhan o'r cynigion.

2.16. I gloi felly, mae'r ymateb wedi bod yn gynhwysfawr ac ymatebion wedi ei dderbyn drwy nifer o ffyrdd gwahanol. Mae'r ymateb drwy'r cyfryngau cymdeithasol yn cynyddu ac mae'r gwaith a wnaed gan swyddogion ac aelodau wedi medru sicrhau bod llais yr ifanc / y defnyddiwr / y bobl hyn a grwpiau anodd I'w cyrraedd wedi cael ei glywed fel rhan o'r ymgynghoriad yma.

2.17. Mae gwersi wedi ei dysgu ac mae lle inni fod yn datblygu'r rhain ac yn gwella ymhellach I'r dyfodol yn ein ymgynghoriadau rheolaidd.

Sylwadau a chwestiynau aelodau 'Llais Ni' Cyngor Ieuenctid Môn
ar Ymgynghoriad Cyllideb Cyngor Sir Ynys Môn 2017/18

## Trosolwg o'r gwaith

*'I am very grateful to be in the presence of the councillors here today. I am from the patch of Aethwy. I can't recall seeing these people in my years of living in Menai Bridge.'*

Cynhaliwyd gweithdy rhwng y Cyngor Ieuenctid Llais Ni, Uwch Swyddogion a Chynghorwyr Cyngor Sir Ynys Môn fel rhan o Ymgynghoriad Cyllideb 2017-18 yr awdurdod ym mis Rhagfyr 2016.
Mae'r ddogfen hon yn crynhoi prif sylwadau, pryderon ac argymhellion aelodau o'r Cyngor Ieuenctid ar y cynigion arfaethedig fydd yn cael ei hystyried ym Mhwyllgor Sgriwtini Corfforaethol (Chwefror 2017).
Cafwyd cyflwyniadau a thrafodaethau ystyrlon yn ystod y digwyddiad er mwyn datblygu dealltwriaeth y bobl ifanc ar sut mae prosesau sgriwtini'r Cyngor yn gweithio, sut mae penderfyniadau yn cael eu gwneud ac i annog nhw i feddwl yn feirniadol am gwestiynau o'r ymgynghoriad yr hoffent gael ymateb iddynt. Mynychodd 15 person ifanc rhwng 11-25oed, cynrychiolaeth o bron pob ward ar Ynys Môn.

Cyflwynwyr-
Anwen Davies Rheolwr Sgriwtini Dros Dro, Marc Jones Pennaeth Swyddogaeth (Adnoddau) & Swyddog 151, Cynghorydd Llinos Medi Huws Pencampwr Pobl Ifanc ac Arweinydd y Cyngor Ieuan Williams.

## Materion yn codi o'r cynigion

**Thema 1: Rhoi'r gorau i Wasanaeth neu ei Drosglwyddo**

1.1. Cytunodd y bobl ifanc ar y cynigion o drosglwyddo adeiladau treftadaeth ddiwylliannol i sefydliadau eraill a nodi ei fod o'n bwysig blaenoriaethu ac amddiffyn y Gwasanaethau Statudol.

*'Prioritise services for people who need it.'*

1.2. Er nad oedd y bobl ifanc yn gwrthwynebu'r penderfyniad i drosglwyddo toiledau cyhoeddus i sefydliadau allanol, pwysleisiodd y bobl ifanc ar bwysigrwydd i gadw toiledau cyhoeddus o fewn ardaloedd twristaidd yn agored os nad oes cyfleusterau eraill yn agos.

**Thema 2: Creu Incwm**

2.1. Safbwyntiau cymysg wrth drafod y cynnig o gludo disgyblion dros 16 oed sy'n derbyn gwersi mewn ysgolion eraill yn ôl i'w hysgolion eu hunain ar ddiwedd y dydd yn hytrach na'u cludo adref. Teimlai rhai bod yr opsiwn yma yn rhesymol cyn belled fod y disgyblion yn cyrraedd yn ôl i'w hysgolion mewn pryd i dderbyn eu cludiant arferol adref. Dyma bwyntiau eraill a drafodwyd-

- Cwestiynu os oes unrhyw gyllideb i helpu gyda chostau cludiant cyhoeddus adref pe byddai'r disgyblion yn methu cyrraedd adref am resymau penodol?
- Rhoi ystyriaeth i gludo athrawon o gwmpas yr ysgolion yn hytrach na'r disgyblion. Rhai yn teimlo y byddai strwythur fel hyn yn fwy effeithiol.
- Trafodaeth ynglŷn â chael un chweched dosbarth mewn un lleoliad ar yr ynys. Rhai yn teimlo y byddai hyn yn rhoi mwy o gyfleoedd i bobl ifanc wrth dderbyn addysg arbenigol a chyfleusterau o'r ansawdd gorau. Eraill yn meddwl y byddai hyn yn fygythiad i ddyfodol pobl ifanc gan fod angen strwythur llym, sydd eisoes o fewn yr ysgolion, i bobl ifanc allu cyrraedd eu gwir potensial.

2.2. Prif bryder y bobl ifanc ynglŷn â chodi prisiau cinio ysgol i £2.40 y dydd, yw'r effaith y bydd hyn yn ei gael ar iechyd a lles plant a phobl ifanc Môn. Nodwyd y byddai codi prisiau cinio ysgol yn golygu fod pobl ifanc yn chwilio am ddewisiadau rhatach boed hynny'n fwydydd wedi'i brosesu neu fwydydd sydd llawn siwgr o'r siop leol. Roedd y bobl ifanc yn cydnabod y gall hyn arwain at ordewdra o fewn y boblogaeth ifanc sy'n mynd yn erbyn gofynion y Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Dyma weddill o argymhellion y bobl ifanc;

- Cwestiynu os yw'n bosib derbyn contract gwell gan Caterlink y darparwyr cinio ysgol i arbed arian yn y dyfodol?
- Y posibilrwydd o ail-edrych ar safon y ddarpariaeth fel y mae. Nodwyd fod safon y bwyd yn ofnadwy ar hyn o bryd a maint y prydau yn lleihau.
- Credant y bydd y Cyngor Sir ar ei golled yn ariannol gan na fydd y bobl ifanc yn gallu fforddio talu mwy ac yn troi at ddewisiadau eraill.

2.3. Pob person ifanc yn gwrthwynebu'n gryf i'r penderfyniad o godi costau trafnidiaeth bws ar gyfer y disgyblion sy'n byw o fewn 2-3 milltir o'r ysgol. Y bobl ifanc yn teimlo fod y gost braidd yn eithafol wrth ystyried safon y bysiau a'r gwasanaeth maent yn ei dderbyn.

*'Bus pass too expensive – the price should not increase.'*

Dyma sylwadau ac awgrymiadau pellach gan y bobl ifanc-

- Cynghori'r Cyngor i arolygu'r ddarpariaeth bresennol ar gyfer bysiau ysgol er mwyn sicrhau fod y gwasanaeth yn cyrraedd y safonau cywir o ran iechyd a diogelwch.

  *'Buses ysgol - afiach!'*
- Pryderu na fydd teuluoedd yn gallu fforddio'r gost yma yn enwedig i'r rhai sydd efo fwy nag un plentyn yn mynychu'r ysgol. Cwestiynu os oes unrhyw gymorth ariannol ar gael i'r teuluoedd hyn?
- Diffyg trafnidiaeth addas i'r teuluoedd sydd methu fforddio'r gost a sydd heb gar, yn rhwystr i ddiogelwch y bobl ifanc os byddent yn cerdded neu'n beicio i'r ysgol.
- Rhai rhieni yn gorfod cludo'r bobl ifanc i'r ysgol oherwydd eu bod wedi rhoi'r gorau i ddefnyddio'r gwasanaeth, fydd yn achosi traffig trwm tu allan i'r ysgol o'i ganlyniad.

*'Felly rydych chi yn disgwyl i ni dalu £390 y flwyddyn, felly o gwmpas £2.50 y diwrnod i fynd adref ac i'r ysgol yn saff?'*

**Thema 3: Lleihau Costau Elfennau ar Wahân i Addysgu mewn Ysgolion**

3.1. Er bod y bobl ifanc yn cydnabod yr angen i leihau costau glanhau o fewn yr ysgolion maent yn ymwybodol pa mor anodd yw sicrhau cyfleusterau glân, diogel ac iach ar gyllideb bychan. Awgrymwyd y dylai'r gwasanaeth edrych ar weithredu prosesau newydd i wella effeithlonrwydd y glanhau a blaenoriaethu'r ardaloedd pwysicaf er mwyn atal unrhyw ddamweiniau. Soniodd y bobl

ifanc am bwysigrwydd y disgyblion i warchod eu hysgolion ac i sicrhau fod yna gyfleusterau ail-gylchu o gwmpas yr ysgol i gefnogi'r toriad yma.

3.2. Cytunwyd yn llwyr y dylai'r Cyngor Sir leihau cyfradd salwch o fewn ysgolion Môn gan fod yna gymaint o bwyslais ar bresenoldeb plant a phobl ifanc i fynychu'r ysgol.

3.3. Codwyd pryderon sylweddol ynglŷn â phenderfyniad i dorri cyllid o gefnogi disgyblion efo anghenion addysgu ychwanegol o fewn ysgolion Môn. Ymateb nodweddiadol oedd y byddai unrhyw fygwth i gyllideb fel hyn yn effeithio ar y plant a'r bobl ifanc sydd wir yn dibynnu ar y gefnogaeth *'in order to understand the work and achieve what is required of them.'*

*'We must prioritise Education. Children are the future; ultimately the council's policies will mold their future.'*

**Thema 4: Trawsnewid Gwasanaethau a Newid y ffordd y cyflwynwn wasanaethau**

4.1. Awgrymodd y bobl ifanc y dylai costau arlwyo o fewn Cartrefi Gofal y Cyngor gael eu tendro ac yna defnyddio'r pris rhataf a gyflwynir er mwyn bargeinio efo cyflenwadau lleol. Byddai hyn wedyn yn canoli cynhyrchiad y bwyd er mwyn gwasanaethu holl Gartrefi Gofal Ynys Môn.

## Sylwadau a Chwestiynau ychwanegol

Dyma restr o sylwadau a chwestiynau ychwanegol y bobl ifanc na fydd yn cael eu hystyried fel rhan o opsiynau'r gyllideb;

'Ydi'r toriadau yma am fy effeithio i drwy fy mywyd i? Pryd mae o am stopio?'
'Mae'r Cyngor yn gofyn i ni dalu mwy o dreth cyngor ond wedyn 'dani ddim yn derbyn y gwasanaethau 'dani'n dalu amdanyn nhw!'
'Need to ensure more local people contribute to the public consultation, by targeting different groups e.g. older people'
'The Council isn't diverse at all'
'Rydych eisiau llai o 'antisocial behaviour' gan pobl ifanc, ond rydych yn torri y pres rydych yn rhoi i'w prosiectau? (clybiau ieuenctid)'
'How are the cuts you are proposing going to affect the residential homes?'
'Centralise as many things as possible'
'Ai am resymau cyllidol rydym ni yr olaf i gael y systemau modern?'
Gwersi nofio – 'Oes gwasanaeth dysgu nofio i oedolion?'
'Need to look at size of senior leadership teams of each secondary school – do with less and use money differently'
'Set up farmhouses to get people off the streets, teach them skills (farming, cooking, making)-

- To provide for themselves
- Permanent address
- Gain skills

Then they can make stuff and sell and therefore bring money into the country, helps poverty also.'
'How does the council election work; on the ballots, are there 1 or 3 votes?'
Holodd y bobl ifanc am y posibilrwydd o leihau lwfansau'r cynghorwyr; yn enwedig i'r rhai hynny sydd yn gweithio neu sydd wedi ymddeol.

This page is intentionally left blank